

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

83/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

25/11/2024

## Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

**OGI** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-925-1

## Adolygiad o effeithiau ardollau ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang

Dr. Rhys ap Gwilym, Prifysgol Bangor  
Dr. Linda Osti, Prifysgol Bangor



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

Adroddiad Ymchwil Llawn: ap Gwilym ac Osti (2024). Adolygiad o effeithiau Ardollau Ymwelwyr mewn cyrchfannau byd-eang. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Rhif adroddiad GSR: 83/2024  
Ar gael yn:  
<https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-effeithiau-ardollau-ymwelwyr-mewn-cyrchfannau-byd-eang>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tim Ardoll Ymwelwyr

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: [ardolymwelwyr@llyw.cymru](mailto:ardolymwelwyr@llyw.cymru)

## Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	10
	Cefndir .....	10
	Cyd-destun .....	10
	Amcanion .....	11
	Dull gweithredu cyffredinol a throsolwg .....	11
2.	Methodoleg .....	13
	Adolygiad cwmpasu .....	13
	Nodi astudiaethau achos .....	16
	Cyfweiliadau lled-strwythuredig .....	17
3.	Ynysoedd Baleares .....	19
	Twristiaeth ar Ynysoedd Baleares .....	19
	Hanes y dreth dwristiaeth ar Ynysoedd Baleares .....	21
	Cyfundrefn y dreth dwristiaeth gynaliadwy (ITS) .....	23
	Y gronfa i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy .....	23
	Y comisiwn i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy .....	24
	Prosiectau .....	26
	Archwilio ac asesu'r effaith .....	26
	Enghraifft 1: Prosiect ar Ynysoedd Baleares: tai cymdeithasol yn Palma de Majorca .....	28
4.	Catalonia .....	29
	Twristiaeth yng Nghatalonia .....	29
	Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg .....	30
	Cyfundrefn y dreth dwristiaeth .....	31
	Y defnydd o'r arian .....	32
	Archwilio ac asesu'r effaith .....	37
	Enghraifft 2: Prosiect yng Nghatalonia: taith fawr o amgylch Catalonia .....	39

5.	Gunnison, Colorado, UDA .....	40
	Twristiaeth yn Swydd Gunnison.....	40
	Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg .....	41
	Cyfundrefn y dreth llety yn Swydd Gunnison .....	42
	Y bartneriaeth twristiaeth a ffyniant.....	44
	Y defnydd o'r arian .....	45
	Archwilio ac asesu'r effaith.....	46
	Enghraifft 3: Prosiect Swydd Gunnison: prosiect tai fforddiadwy yn Crested Butte .	48
6.	Gwlad yr Iâ.....	49
	Twristiaeth yng Ngwlad yr Iâ.....	49
	Cyfundrefn y dreth llety .....	51
	Refeniw'r dreth llety .....	52
	Y gronfa diogelu safleoedd twristaidd .....	53
	Prosiectau .....	54
	Archwilio ac asesu'r effaith.....	56
	Cynlluniau rheoli cyrchfannau .....	57
	Enghraifft 4: Prosiect yng Ngwlad yr Iâ: Rhaeadr Goðafoss .....	58
7.	Jackson Hole, Wyoming, UDA.....	59
	Twristiaeth yn Jackson Hole .....	59
	Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg .....	62
	Cyfundrefn y dreth llety .....	63
	Y defnydd o'r arian .....	64
	Archwilio ac asesu'r effaith.....	66
	Enghraifft 5: Prosiect yn Jackson Hole: START – Southern Teton Area Rapid Transit .....	68
8.	Swydd Orange, Fflorida, UDA.....	69
	Twristiaeth yn Swydd Orange .....	69
	Cyfundrefn y dreth datblygu twristiaeth.....	72
	Refeniw'r dreth datblygu twristiaeth .....	74

	Cyngor Datblygu Twristiaeth Swydd Orange .....	75
	Cynllun Datblygu Twristiaeth Swydd Orange .....	76
	Gweithlu Cynghori Dinasyddion y Dreth Datblygu Twristiaeth .....	78
	Archwilio ac asesu'r effaith.....	79
	Enghraifft 6: Prosiect yn Swydd Orange, Fflorida: canolfan gynadledda .....	80
9.	De Tyrol .....	82
	Cyfundrefn y dreth llety .....	83
	Twristiaeth ym Mareo a San Martin de Tor .....	84
	Refeniw'r dreth dwristiaeth drefol ym Mareo a San Martin.....	87
	Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin.....	88
	Archwilio ac asesu'r effaith ym Mareo a San Martin .....	91
	Twristiaeth yn Bruneck-Brunico .....	91
	Y dreth dwristiaeth drefol yn Bruneck-Brunico .....	92
	Y dreth dwristiaeth yn Bruneck-Brunico .....	92
	Archwilio ac asesu'r effaith yn Bruneck-Brunico .....	94
	Enghraifft 7: Prosiect ym Mareo a San Martin: ardystiad GSTC .....	96
10.	Crynodeb a chasgliadau .....	98
	Neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr .....	98
	Rheoli'r ffordd y caiff refeniw ei ddyrannu .....	100
	Graddfa Ddaearyddol a Datganoli.....	103
	Prosiectau a gweithgareddau .....	110
	Gwerthuso'r effaith.....	116
11.	Argymhellion .....	119
	Neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr.....	119
	Sefydliadau cyllido a gwario.....	120
	Prosesau Gwneud Penderfyniadau Cynhwysol .....	121
	Sicrhau Atebolrwydd Lleol .....	121
	Cwmpas eang prosiectau a gweithgareddau a ariennir .....	122

Asesu'r effaith .....	122
Tryloywder ac atebolrwydd .....	123
Hyblygrwydd ac addasolrwydd .....	123
Cyfeiriadau .....	125
Llywodraeth Cymru (2023b). Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar gynigion am ardoll ymwelwyr dewisol i Gymru. Ar gael yn: Dolen i'r Cyfeiriad (Llywodraeth Cymru, datganiad ysgrifenedig) .....	128
Atodiad A - Rhestr Hir o Gyrcffannau i'w Hystyried .....	131
Atodiad B – Adolygiad Cwmpasu Systematig.....	141
Atodiad C – Mapio Argymhellion yr Adroddiad hwn ar rai Group NAO (2020) .....	253

## Rhestr o dablau

Tabl 1: Pynciau a gododd o'r adolygiad desg .....	15
Tabl 2: Manylion y cyfweiliadau lled-strwythuredig.....	17
Tabl 3: Ymwelwyr ag Ynysoedd Baleares yn ôl cenedligrwydd, 2023 .....	21
Tabl 4: Cyfraddau ITS, 2023 .....	23
Tabl 5: Cyfansoddiad y comisiwn i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy .....	25
Tabl 6: Gwariant ar brosiectau a gwblhawyd yn ôl categori.....	26
Tabl 7: Cyfraddau'r dreth dwristiaeth yng Nghatalonia .....	33
Tabl 8: Treth ar lety gwyliau tymor byr ac eiddo lletya yn Crested Butte .....	43
Tabl 9: Treth ar lety gwyliau tymor byr ac eiddo lletya ym Mt. Crested Butte .....	43
Tabl 10: Ymwelwyr â Gwlad yr Iâ yn ôl cenedligrwydd, 2022 .....	50
Tabl 11: Refeniw amcangyfrifedig y dreth llety o gymharu â grantiau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd .....	53
Tabl 12: Nifer a maint cyfartalog grantiau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd yn ôl blwyddyn.....	55
Tabl 13: Nifer yr ymwelwyr dros nos yn Swydd Teton, 2017–2021 .....	60
Tabl 14: Effeithiau teithio uniongyrchol ar gyfer Swydd Teton.....	61
Tabl 15: Ymwelwyr ag Ardal Fetropolitanaidd Orlando yn ôl cenedligrwydd, 2022 .....	72
Tabl 16: Aelodau Cyngor Datblygu Twristiaeth Swydd Orange, Gorffennaf 2023 .....	76
Tabl 17: Blaenoriaethau gwario'r Cynllun Datblygu Twristiaeth.....	76
Tabl 18: Y defnydd a wneir o'r dreth datblygu twristiaeth yn 2027 o dan gynnig Maer Demings, \$ miliwn.....	77
Tabl 19: Ymwelwyr â Mareo a San Martin yn ôl cenedligrwydd, 2023 .....	86
Tabl 20: Refeniw wedi'i gyllidebu'r Cwmni Twristiaeth Cydweithredol, 2023 .....	89
Tabl 21: Gwariant wedi'i gyllidebu'r cwmni twristiaeth cydweithredol, 2023 .....	90
Tabl 22: Modelau gwariant uniongyrchol, cyrff dynodedig a dyfarnu grantiau .....	101
Tabl 23: Cyfansoddiad cyfreithiol cyrff cyllido neu wario .....	104
Tabl 24: Cwmpas daearyddol cyrff cyllido neu wario.....	107
Tabl 25: Y pwyslais ar ddarparu nwyddau cyhoeddus a lliniaru allanoldebau .....	112
Tabl 26: Prosiectau a gweithgareddau a ariennir yn ôl math.....	118

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Lleoliad cyrchfannau'r astudiaethau achos.....	12
Ffigur 2: Nifer y twristiaid a gyrhaeddodd Ynysoedd Baleares yn ôl blwyddyn.....	20
Ffigur 3: Arosiadau dros nos blyneddol twristiaid yng Nghatalonia.....	30
Ffigur 4: Nifer yr ymwelwyr a gyrhaeddodd Swydd Gunnison fesul mis. ....	41
Ffigur 5: Treth ardal farchnata leol gronnol yn ôl lleoliad .....	44
Ffigur 6: Nifer y twristiaid tramor a ymwelodd â Gwlad yr Iâ yn ôl blwyddyn .....	50
Ffigur 7: Lleoliad prosiectau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaidd 2012-2023 .....	56
Dengys Ffigur 8 y refeniw blyneddol o'r dreth.....	64
Ffigur 9: Nifer y twristiaid a ymwelodd ag Ardal Fetropolitanidd Orlando yn ôl blwyddyn.....	71
Ffigur 10: Refeniw treth datblygu twristiaeth Swydd Orange, blyneddol cyllidol 1992-93 i 2022-23, \$miliwn.....	75
Ffigur 11: Nifer yr arosiadau dros nos gan ymwelwyr ym Mareo a San Martin yn ôl blwyddyn.....	86
Ffigur 12: Nifer yr ymwelwyr a gyrhaeddodd Mareo a San Martin yn ôl mis, 2023 .....	87
Ffigur 13: Refeniw amcangyfrifedig y dreth dwristiaeth drefol ym Mareo a San Martin	88
Ffigur 14: Nifer yr arosiadau dros nos gan ymwelwyr yn Bruneck/Brunico yn ôl blwyddyn.....	92
Ffigur 15: Graddio cryfder neilltuo .....	99



## Rhestr Termau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AETIB	Asiantaeth Strategaeth Dwristiaeth Ynysoedd Baleares
Ardoll/Ardollau	Gweithred ffurfiol o osod neu gasglu treth a gellir ei gosod am sawl rheswm.
ARPA	Cynllun Gweithredu ar gyfer Achub America
ASTAT	Yr asiantaeth ystadegau swyddogol yn Ne Tyrol
Bwrdeistrefi	Mae bwrdeistref yn fath o lywodraeth leol sydd, fel arfer, yn gyfrifol am lywodraethu ardal ddaearyddol benodol, megis dinas, tref neu bentref a'r trigolion ynddi (ynddo). Gall bwrdeistrefi amrywio o ran maint a strwythur, o drefi gwledig bach i ddinasoedd trefol mawr. Gall corff llywodraethu bwrdeistref fod yn gyngor dinas, yn fwrdd tref neu'n gorff etholedig tebyg, gyda maer, aelodau cyngor neu gomisiynwyr yn gwasanaethu fel swyddogion etholedig i gynrychioli buddiannau'r gymuned.
CAEB	Cyddfederasiwn Cymdeithasau Busnes
CCOO	Comisiynau Gweithwyr (Sbaeneg: Comisiones Obreras) Yr undeb llafur mwyaf yn Sbaen
CTB	Bwrdd Twristiaeth Catalonia
DSC	Cyngor Stiwardiaeth Cyrchfannau
FBCN	Fundació Barcelona Capital Nautica
FELIB	Ffederasiwn Endidau Lleol Ynysoedd Baleares
GCBTA	Cymdeithas Dwristiaeth Gunnison/Crested Butte
ISE	Integrated Systems Europe
ITS	Impuesto del Turismo Sostenible – Y Dreth Twristiaeth Gynaliadwy sydd ar waith ar Ynysoedd Baleares.
JHTTB	Bwrdd Teithio a Thwristiaeth Jackson Hole
MICE	Cyfarfodydd, Mentrau, Cynadleddau ac Arddangosfeydd/Digwyddiadau ('Meetings, Incentives,

	Conferences and Exhibitions/Events' yn Saesneg). Mae'n cyfeirio at ran arbenigol o'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch sy'n canolbwyntio ar gynllunio, trefnu a hwyluso mathau gwahanol o ddigwyddiadau corfforaethol, cynadleddau, arddangosfeydd a theithiau cymhelliant.
MWC	Mobile World Congress
Neilltuo	Neilltuo treth yw'r arfer o glustnodi refeniw treth at ddiben gwario penodol. Ceir neilltuo 'cryf' lle mae'r refeniw o'r dreth yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gwasanaeth penodol yn unig ac y mae'r gwasanaeth yn cael ei gyllido drwy'r refeniw o'r dreth hon yn unig. Ceir neilltuo 'meddal neu 'wan' pan nad yw o leiaf un o'r ddau amod hyn yn cael ei fodloni.
PIMEB	Ffederasiwn Cwmnïau Bach a Chanolig Ynysoedd Balears. Catalaneg: Petita i Mitjana Empresa de Balears
START	Southern Teton Area Rapid Transit
TAPP	Y Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant
Treth Doll	Treth wedi'i deddfu ar nwyddau neu wasanaethau penodol a godir pan gânt eu prynu. Mae treth doll yn dreth fewnwladol a osodir o fewn seilwaith llywodraeth yn hytrach na threth ryngwladol.
Treth Letya	Treth a osodir ar westeion sy'n aros mewn llety megis gwestai, motelau, llety gwyliau rhent, llety gwely a brecwast a llety tebyg yw treth lletya, a elwir hefyd yn dreth gwestai, yn dreth llety gwyliau neu'n dreth deiliadaeth dros dro. Fel arfer, caiff y dreth hon ei chasglu gan ddarparwyr y llety gan y gwestai pan fydd yn talu am ei arhosiad.
Treth Llety	Fe'i gelwir hefyd yn dreth letya neu'n dreth gwestai. Treth a godir ar bris llety megis gwestai, motelau, llety gwyliau

	a llety tebyg ydyw. Fel arfer, caiff ei gosod gan lywodraethau lleol, bwrdeistrefi neu awdurdodau twristiaeth a chaiff ei chasglu gan ddarparwyr y llety gan eu gwesteion.
UGT	Undeb Cyffredinol y Gweithwyr Sbaeneg: Unión General de Trabajadores. Undeb llafur mawr yn Sbaen.
YPYD	Y pen y dydd

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Prif ddiben yr adroddiad hwn yw adolygu'r dystiolaeth ryngwladol ar effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardollau ymwelwyr mewn gwahanol gyrchfannau byd-eang. Rydym yn nodi goblygiadau'r dystiolaeth hon o ran monitro a gwerthuso'r ardoll ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru yn y dyfodol.

### **Cefndir**

- 1.2 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru (2021a) a'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru (Llywodraeth Cymru 2021b), yn cynnwys ymrwymïadau i gyflwyno 'ardollau twristiaeth lleol' yng Nghymru.
- 1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai ei bwriad wrth gyflwyno ardoll ymwelwyr yw annog dull gweithredu mwy cynaliadwy ar gyfer twristiaeth ledled Cymru (Llywodraeth Cymru 2023a).
- 1.4 Cynlluniau datganedig presennol Llywodraeth Cymru yw cyflwyno deddfwriaeth gerbron y Senedd erbyn diwedd 2024, gan ddisgwyl mai'r cynharaf y galli ardoll ymwelwyr fod ar waith yng Nghymru yw 2027 (ibid.).
- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd ei chynigion deddfwriaethol yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd, ond mai mater i'r awdurdodau lleol eu hunain fydd penderfynu a ddylid arfer y pwerau hyn (Llywodraeth Cymru 2023b).

### **Cyd-destun**

- 1.6 Erbyn 2019, roedd 41 o wledydd ledled y byd wedi rhoi rhyw fath o dreth dwristiaeth ar waith, gydag Ewrop yn arwain y duedd. Yn Ewrop yn unig, roedd 125 o gyrchfannau a 26 o wledydd wedi gosod trethi o'r fath, gydag eithriadau ymhlith y gwledydd Nordig a Baltig yn bennaf (ETOA 2019).
- 1.7 Mae'r trethi hyn yn aml yn seiliedig ar arosiadau dros nos y pen. Fodd bynnag, maent yn amrywio'n fawr o ran dyluniad a chyfraddau.

- 1.8 Mae gan drethi twristiaeth nodau gwahanol: gosodir rhai er mwyn casglu arian ar gyfer gweithgarwch marchnata twristiaeth a nwyddau cyhoeddus sy'n ymwneud â thwristiaeth a gosodir eraill er mwyn rheoleiddio llifau twristiaeth.
- 1.9 Yn dilyn y pandemig, mae rhagor o wledydd a chyrchfannau wedi cynnig y dylid mabwysiadu trethi twristiaeth, gyda refeniw yn cael ei glustnodi ar gyfer seilwaith, cynaliadwyedd, marchnata a digwyddiadau.
- 1.10 Ar hyn o bryd, mae trethi adfywiol yn ennill momentwm ledled y byd, gyda chyrchfannau yn defnyddio trethi fwyfwy i ariannu mentrau fel adfer treftadaeth ddiwylliannol a chadwraeth natur.
- 1.11 Prin yw'r asesiadau cynhwysfawr o effeithiau trethi twristiaeth, er gwaethaf y cymhellion amlwg dros eu rhoi ar waith.

### **Amcanion**

- 1.12 Gellir crynhoi prif nodau'r adroddiad hwn fel a ganlyn:
- Casglu manylion am y ffyrdd y caiff refeniw ardollau ymwelwyr ei wario mewn sampl o gyrchfannau byd-eang ar adrodd arnynt, a dadansoddi llywodraethiant y systemau hynny a ddefnyddir i wario'r refeniw hwnnw.
  - Adolygu effaith y gwariant hwn ar amgylchedd, cymdeithas a diwylliant y cyrchfannau hynny.
  - Nodi pethau cyffredin a gwahaniaethau rhwng y cyrchfannau hyn o ran llywodraethiant refeniw ardollau ymwelwyr.
  - Gwneud argymhellion seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer llywodraethiant refeniw ardollau ymwelwyr yng nghyd-destun Cymru yn y dyfodol.

### **Dull gweithredu cyffredinol a throsolwg**

- 1.13 Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rydym yn ystyried saith astudiaeth achos o gyrchfannau ledled y byd lle mae ardollau ymwelwyr ar waith. Rydym yn defnyddio tystiolaeth o'r astudiaethau achos hyn i lywio cyfres o argymhellion sy'n ymwneud â rhoi ardoll ymwelwyr ar waith yng Nghymru.
- 1.14 Yn Adran **Error! Reference source not found.**, rydym yn esbonio'r broses a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gennym i nodi cyrchfannau byd-eang priodol i'w hastudio ymhellach a chasglu gwybodaeth a data perthnasol.

- 1.15 Yn Adrannau 3-9, rydym yn cyflwyno'r astudiaethau achos. Mae a wnelo'r rhain â Gwlad yr Iâ, rhanbarth ymreolaethol De Tyrol yng ngogledd yr Eidal, Ynysoedd Baleares, Catalonia a thri chyrchfan yn UDA, sef Swydd Gunnison, Colorado; Jackson Hole, Wyoming a Swydd Orange, Fflorida. Dangosir lleoliadau cyrchfannau'r astudiaethau achos yn Ffigur 1.
- 1.16 Mae Adran 10 yn cynnwys cymhariaeth rhwng yr astudiaethau achos ac yn cyflwyno casgliadau cyffredinol.
- 1.17 Mae Adran 11 yn defnyddio'r casgliadau hyn i ddarparu argymhellion ar gyfer cyfundrefn yr ardoll ymwelwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

**Ffigur 1: Lleoliad cyrchfannau'r astudiaethau achos**



1 = Jackson Hole, Wyoming.    3 = Swydd Orange, Fflorida.    4 = Gwlad yr Iâ. 6 = Ynysoedd Baleares.  
 2 = Swydd Gunnison, Colorado.    5 = Catalonia.    7 = De Tyrol.

## 2. Methodoleg

2.1 Yn dilyn y ceisiadau cychwynnol a'r canllawiau a ddarparwyd gan gomisiynydd y prosiect, dechreuodd y gwaith gydag adolygiad desg. Fodd bynnag, gan nad oedd digon o ddeunydd ar gael er mwyn llunio astudiaethau achos o bum cyrchfan ledled y byd, penderfynwyd y byddai angen casglu data cynradd drwy gyfweiliadau â rheolwyr cyrchfannau, rheolwyr byrddau twristiaeth a chynrychiolwyr llywodraeth leol er mwyn cael y wybodaeth a'r dystiolaeth ofynnol.

### Adolygiad cwmpasu

2.2 Cynhaliwyd yr adolygiad cwmpasu systematig cychwynnol o effeithiau aneconomaidd ardollau ymwelwyr ar gyhoeddiadau academiaidd ac anacademaidd.

2.3 Casglwyd ffynonellau drwy wahanol gronfeydd data:

- Ar gyfer cyhoeddiadau academiaidd: Scopus, Web of Science, Google Scholar.
- Ar gyfer cyhoeddiadau anacademaidd: ProQuest. Cyhoeddiadau o'r categorïau canlynol: Cyhoeddiadau Llywodraethau a Chyhoeddiadau Swyddogol, Cylchgronau, Adroddiadau, Cyfnodolion Masnach.

2.4 Defnyddiwyd cyfuniadau o'r termau canlynol i nodi cyhoeddiadau perthnasol: "visitor levy"; "tourist tax"; "tourism taxation"; "room tax"; "ecolog\*"; "environment\*"; "waste"; "carbon"; "sustainab\*" ; "conservation"; "destination management"; "infrastructure"; "facilities"; "public services"; "destination promotion"; "marketing efforts"; "community"; "cultural heritage"; "social dynamics"; "governance"; "policy"; "resources"; "experience" a themau cysylltiedig.

2.5 Dewiswyd cyhoeddiadau i'w dadansoddi pan oeddent yn darparu gwybodaeth berthnasol a oedd yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- a) Mae datganiadau yn seiliedig ar ddata a ffeithiau ac nid ydynt yn ddamcaniaethol;
- b) Cyfeirir at gyrchfan penodol neu sawl cyrchfan;

- c) Enwir effeithiau cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol.
- 2.6 Ychydig iawn o wybodaeth a gasglwyd gan yr adolygiad desg a phrin iawn oedd y dystiolaeth a nodwyd ar effeithiau cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol gwirioneddol ardollau ymwelwyr.
- 2.7 Yn yr adolygiad desg roeddem yn wynebu pum prif gyfyngiad, sef:
- a) nid oedd y llenyddiaeth academaidd yn ymdrin ag effeithiau ardollau ymwelwyr;
  - b) mae adroddiadau blynyddol ar y defnydd o ardollau ymwelwyr gan Fyrddau Twristiaeth cyrchfannau yn UDA yn aml ar gael i'r cyhoedd ond mae'n anodd dod o hyd iddynt;
  - c) roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiadau yn gofyn am wybodaeth ychwanegol a chyd-destun er mwyn ei deall yn llawn;
  - d) nid oedd eitemau newyddion, er enghraifft erthyglau mewn papurau newydd, yn cynnwys digon o dystiolaeth;
  - e) roeddem yn gallu dod o hyd i wybodaeth gyfyngedig am lawer o gyrchfannau ond nid oedd digon o wybodaeth ar gael am gyrchfannau unigol.
- 2.8 Gellir categoreiddio'r deunydd academaidd a gasglwyd o dan y prif themâu canlynol:
- a) gwaith modelu ar effaith yr ardoll ymwelwyr ar nifer y bobl sy'n cyrraedd ac yn aros dros nos;
  - b) parodrwydd ymwelwyr i dalu, yr effaith economaidd o ran arian a godwyd, neu arian a allai gael ei godi;
  - c) yr effaith economaidd o ran arian a godwyd, neu arian a allai gael ei godi;
  - d) cyflwyno'r ardoll yn ddamcaniaethol, yn hytrach na dadansoddiad gwirioneddol o'r hyn a ddigwyddodd ar ôl i'r ardoll gael ei chyflwyno.
- 2.9 Crynhoir cyffredinrwydd y themâu hyn yn y llenyddiaeth academaidd ac anacademaidd yn Nhabl 1.
- 2.10 Gellir categoreiddio'r deunydd anacademaidd a gasglwyd fel a ganlyn:



- a) erthyglau mewn papurau newydd sy'n trafod cyflwyno'r ardoll neu newidiadau yn y ddeddfwriaeth;
- b) datganiadau i'r wasg gan asiantaethau llywodraethol neu Sefydliadau Rheoli Cyrchfannau sy'n dangos y referniw a gasglwyd ac adroddiadau cyllidebol (yn bennaf o UDA);
- c) deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr (y cyfeirir ati mewn adroddiadau gan Sefydliad Masnach y Byd a chyrchfannau).

2.11 Mae Atodiad B yn rhoi manylion helaeth am y llenyddiaeth a ystyriwyd yn ystod yr adolygiad cwmpasu.

**Tabl 1: Pynciau a gododd o'r adolygiad desg**

<b>Thema</b>	<b>Nifer y dogfennau academaidd sy'n sôn am y thema, o gyfanswm o 84</b>	<b>Nifer y dogfennau anacademaidd sy'n sôn am y thema, o gyfanswm o 29</b>
Gwaith modelu ar effaith yr ardoll ymwelwyr ar nifer y bobl sy'n cyrraedd ac yn aros dros nos	23	5
Parodrwydd ymwelwyr i dalu	33	4
Yr effaith economaidd o ran arian a godwyd, neu arian a allai gael ei godi	79	29
Cyflwyno'r ardoll yn ddamcaniaethol, yn hytrach na dadansoddiad gwirioneddol o'r hyn a ddigwyddodd ar ôl i'r ardoll gael ei chyflwyno	38	20
Effeithiau'r ardoll	0	0

Noder: roedd rhai dogfennau yn cynnwys mwy nag un thema

### **Nodi astudiaethau achos**

- 2.12 Er na ddarparodd yr adolygiad desg ddigon o wybodaeth i lunio astudiaethau achos, gwnaeth y deunydd ein helpu i lunio rhestr o gyrchfannau posibl a allai fod wedi cael eu hystyried fel astudiaeth achos.
- 2.13 I ddechrau, lluniwyd rhestr o 61 o gyrchfannau (gweler Atodiad A).
- 2.14 Yna, cafodd y cyrchfannau hyn eu graddio yn ôl yr egwyddorion canlynol:
- a) Pa mor debyg ydynt i Gymru o ran ei sector twristiaeth;
  - b) Pa mor debyg ydynt i Gymru o ran ei chyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a/neu amgylcheddol;
  - c) Cyrchfannau sy'n defnyddio amrywiaeth o fathau o gyfraddau, gan gynnwys cyfraddau y pen y noson a chanran o'r tâl am lety;
  - d) Rhai cyrchfannau â chyfraddau a bennir yn lleol ac eraill â chyfraddau a bennir yn ganolog;
  - e) Cyrchfannau â chyfraddau uchel ac isel;
  - f) Argaeledd tystiolaeth.
- 2.15 O'r rhestr gychwynnol, gwnaethom nodi'r rhestr fer ganlynol o gyrchfannau i seilio ein pum astudiaeth achos arnynt:
- a) Ynysoedd Baleares;
  - b) Gwlad yr Iâ;
  - c) Yr Eidal - i gynnwys Genova, Mareo, Bruneck-Brunico;
  - d) Malta;
  - e) Catalonia
  - f) UDA – i gynnwys Jackson Hole (Wyoming), Swydd Gunnison (Colorado), Philadelphia, a Swydd Orange (Fflorida).
- 2.16 Gwnaethom hefyd nodi'r cyrchfannau hyn fel opsiynau wrth gefn:
- a) Tyrol, Awstria;
  - b) Amsterdam, yr Iseldiroedd;
  - c) Seland Newydd;

2.17 Gan nad oedd rhai o'r cyrchfannau a nodwyd i ddechrau ar gael i rannu gwybodaeth nac ar gyfer cyfweliadau. Mae'r rhestr derfynol o gyrchfannau a ddefnyddiwyd fel astudiaethau achos fel a ganlyn:

- a) Ynysoedd Baleares;
- b) Gwlad yr Iâ;
- c) Yr Eidal – Mareo a Bruneck-Brunico (De Tyrol);
- d) Catalonia;
- e) UDA – Jackson Hole (Wyoming), Swydd Gunnison (Colorado), a Swydd Orange (Fflorida).

### **Cyfweliadau lled-strwythuredig**

2.18 Mae Tabl 2 yn rhoi trosolwg o'r cyfweliadau a gynhaliwyd.

**Tabl 2: Manylion y cyfweliadau lled-strwythuredig**

<b>Cyrchfan</b>	<b>Safbwynt</b>	<b>Dull</b>
<b>Ynysoedd Baleares</b>	Bwrdd Twristiaeth a Gweinyddiaeth Twristiaeth Ynysoedd Baleares	Cyfweliad rhithwir
<b>Bruneck-Brunico</b>	Llywodraeth leol	Cyfweliad wyneb yn wyneb
<b>Bruneck-Brunico</b>	Cymdeithas Twristiaeth Leol	Cyfweliad wyneb yn wyneb
<b>Catalonia</b>	Bwrdd Twristiaeth Catalonia	Cyfweliad rhithwir
<b>Swydd Gunnison</b>	Bwrdd Twristiaeth Lleol	Cyfweliad rhithwir
<b>Gwlad yr Iâ</b>	Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ	Cyfweliad rhithwir
<b>Jackson Hole</b>	Bwrdd Twristiaeth Lleol	Cyfweliad rhithwir
<b>Fflorida</b>	Llywodraeth y Swydd	Cyfweliad rhithwir
<b>Mareo</b>	Cymdeithas Twristiaeth Leol	Cyfweliad wyneb yn wyneb

2.19 Parodd y cyfweliadau tua awr, gyda thrawsgrifiadau awtomatig yn cael eu cynhyrchu pryd bynnag roedd hynny'n ymarferol. Ar gyfer cyfweliadau wyneb yn wyneb, cymerwyd nodiadau â llaw.

2.20 Roedd y cyfweliadau lled-strwythuredig wedi'u teilwra at bob cyrchfan a phob achos penodol. Fodd bynnag, gwnaethom ddechrau o ganllaw cyffredin gan gynnwys y cwestiynau/pynciau trafod canlynol:

- a) Fframwaith deddfwriaethol a chwmpas y gyfundrefn dreth;
  - b) Y defnydd o'r arian a gasglwyd;
  - c) Archwilio'r defnydd o arian;
  - d) Gwerthuso effeithiau'r arian;
  - e) Meini prawf ar gyfer y gwerthusiad.
- 2.21 Daeth y cyfweiliadau i ben drwy ofyn am ddogfennau a oedd yn dangos y defnydd o'r refeniw ac, o bosibl, y gwerthusiad o'r effeithiau hefyd.
- 2.22 Roedd y deunydd a roddwyd inni yn cynnwys adroddiadau blynyddol a chyfeiriadau at ddeddfwriaeth a dogfennau statudol penodol yn bennaf.
- 2.23 Er enghraifft, mae adroddiadau'r cyrchfannau yn UDA ar gael i'r cyhoedd ond gall fod yn anodd cael gafael arnynt. Ar un achlysur, rhannwyd yr adroddiad diweddaraf â ni cyn iddo gael ei gyhoeddi. Rhannodd Mareo yr adroddiadau blynyddol nad ydynt yn cael eu cyhoeddi ond a gyflwynir i aelodau'r Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Lleol yn unig.
- 2.24 Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a gyflwynir yn sesiwn nesaf yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y cyfweiliadau lled-strwythuredig a restrir yn y tabl uchod (Tabl 2), a'r dogfennau a rannwyd neu a gyrchwyd wedi hynny.

### 3. Ynysoedd Baleares

#### Uchafbwyntiau:

- Mae Treth Gynaliadwy (ITS) newydd wedi bod ar waith ers 2016, er mwyn ariannu 'cronfa i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy'.
- Twristiaeth yw'r sector economaidd mwyaf yn Ynysoedd Baleares.
- Cyrhaeddodd mwy na 17.8 miliwn o dwristiaid yn 2023, sef cynnydd o 8% dros y ddau ddegawd diwethaf.
- Mae'r ITS wedi ariannu 168 o brosiectau hyd at eu cwblhau, sy'n werth cyfanswm o €263 miliwn, gyda 27 o brosiectau newydd gwerth €138 miliwn yn cael eu cymeradwyo yn 2023.
- Mae a wnelo prosiectau a ariennir ag amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys yr amgylchedd, twristiaeth gynaliadwy, treftadaeth ddiwylliannol, ymchwil wyddonol, hyfforddiant a chyflogaeth a rhentu cymdeithasol.

3.1 Mae Ynysoedd Baleares yn archipelago yng ngorllewin Môr y Canoldir, sy'n cynnwys pedair ynys fawr, sef Mallorca, Menorca, Ibiza a Formentera. Mae'r ynysoedd yn Gymuned Ymreolaethol yng ngwladwriaeth Sbaen, o dan Gyfansoddiad 1978. Mae'r statws hwn yn rhoi ymreolaeth gyfyngedig i Lywodraeth Ynysoedd Baleares, gan gynnwys pwerau eang sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth a rhai pwerau dros drethiant.

#### Twristiaeth ar Ynysoedd Baleares

3.2 Cyrhaeddodd 17.8 miliwn o dwristiaid yn 2023, sy'n cyfateb i gynnydd o 8% o gymharu â 2022 ac yn dilyn tuedd gyffredinol ar i fyny o ran nifer yr unigolion sy'n cyrraedd yr ynysoedd a welwyd dros y ddau ddegawd diwethaf, fel y dangosir yn Ffigur 2. Mae hyn yn cymharu â phoblogaeth sefydlog o 1.2 miliwn o drigolion yn 2023.


3.3 Cafodd pandemig COVID-19 effaith andwyol ar dwristiaeth ond mae wedi adfer i raddau helaeth ers 2022.

3.4 Twristiaeth yw'r sector economaidd mwyaf yn Ynysoedd y Baleares o bell ffordd. Roedd y gwariant twristaidd cyfartalog, sef €173 y pen y dydd rhwng

mis Ionawr a mis Tachwedd 2023, yn cyfateb i gyfanswm gwariant twristiaid o €19.7 biliwn, a oedd yn cyfrif am 82% o CDG gwasanaethau. Cyflogir un o bob tri gweithiwr yn uniongyrchol yn y sector twristiaeth (Y Weinyddiaeth Twristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon 2024).

**3.5** Arhosiad cyfartalog twristiaid yn 2023 oedd 6.5 noson, ar ôl dilyn tuedd tuag i lawr o 10 noson dros y degawd diwethaf (ibid.).

**Ffigur 2: Nifer y twristiaid a gyrhaeddodd Ynysoedd Baleares yn ôl blwyddyn**



Mae'r niferoedd yn cynnwys twristiaid o rannau eraill o Sbaen, ond nid twristiaeth o fewn Ynysoedd Baleares. Ffynhonnell: Sefydliad Ystadegau Ynysoedd Baleares ac Asiantaeth Dwristiaeth Ynysoedd Baleares (gwahanol flynyddoedd).

**3.6** O orllewin Ewrop y daw ymwelwyr ag Ynysoedd Baleares yn bennaf, fel y dangosir yn Nhabl 3.

**Tabl 3: Ymwelwyr ag Ynysoedd Baleares yn ôl cenedligrwydd, 2023**

Sbaen heb gynnwys Ynysoedd Baleares	19.2%
Yr Almaen	25.7%
Y DU	20.9%
Ffrainc	5.4%
Yr Eidal	4.4%
Yr Iseldiroedd	3.8%
Y Swistir	2.8%
Gweddill Ewrop <2% yr un	13.5%
Gweddill y Byd	4.2%

*Ffynhonnell: Sefydliad Ystadegau Ynysoedd Baleares (2024)*

- 3.7 Yn 2023, roedd 2,912 o sefydliadau twristiaeth traddodiadol â chyfanswm o 446,406 o leoedd gwely. Yn ychwanegol at y rhain, roedd tua 160,000 o welyau mewn llety gwyliau tymor byr megis Airbnb (Y Weinyddiaeth Twristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon 2024)
- 3.8 Mae twristiaeth ar Ynysoedd Baleares yn ddiwydiant tymhorol i raddau helaeth iawn, gyda 61% o dwristiaid yn cyrraedd rhwng mis Mehefin a mis Medi yn 2023, o gymharu â 64% yn 2016. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn dal i fod yn uchel o gymharu â gweddill gwledydd Ewrop (gweler Batista e Silva, 2018, am dystiolaeth ar dymoroldeb).

### **Hanes y dreth dwristiaeth ar Ynysoedd Baleares**

- 3.9 Cyflwynodd Ynysoedd Baleares dreth dwristiaeth am y tro cyntaf yn 2001. Cyfeiriwyd at y dreth hon ar lafar gwlad fel 'ecotax' a bwriadwyd iddi ddarparu arian i wella'r diwydiant twristiaeth a'r amgylchedd (Palmer a Riera 2003).
- 3.10 Roedd cryn dipyn o wrthwynebiad i'r 'ecotax'. Heriwyd y gyfraith a oedd wrth wraidd y dreth yn aflwyddiannus gan Lywodraeth Sbaen ar y sail ei bod yn erbyn y cyfansoddiad. Wedyn, heriodd Cymdeithas Cadwyni Gwestai Sbaen y dreth yng ngoruchaf lys Sbaen (Templeton 2003).

- 3.11 Cynhyrchodd y dreth £12 miliwn yn ystod ei saith mis cyntaf (ibid.) ond gwelwyd gostyngiad yn nifer y twristiaid a gyrhaeddodd Ynysoedd Baleares ar yr un pryd<sup>1</sup>.
- 3.12 Cyn i'r achos cyfreithiol a ddygwyd gan Gymdeithas Cadwyni Gwestai Sbaen ddod i ben, arweiniodd newid yn y Llywodraeth ar Ynysoedd Baleares yn 2003 at dynnu'r 'ecotax' yn ôl ym mis Tachwedd y flwyddyn honno (Pietrasik 2003).
- 3.13 Cyflwynwyd Treth Twristiaeth Gynaliadwy (ITS) newydd o 1 Gorffennaf 2016. Sefydlodd y gyfraith a gyflwynodd y dreth "gronfa i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy" hefyd, er mwyn dosbarthu'r refeniw a godwyd gan y dreth, a "Chomisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy" a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r gronfa (Cymuned Ymreolaethol Ynysoedd Baleares 2016).
- 3.14 Mae'r rhagymadrodd i'r gyfraith yn nodi dau amcan. Yn gyntaf, gwneud iawn i gymdeithas Ynysoedd Baleares am y costau amgylcheddol a chymdeithasol a'r ansicrwydd o ran swyddi sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth. Yn ail, gwella cystadleurwydd y sector twristiaeth drwy hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy a chyfrifol o ansawdd uchel (ibid.).
- 3.15 Mae'r ITS yn un rhan o bortffolio ehangach o bolisïau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Ynysoedd Baleares er mwyn mynd i'r afael â chynaliadwyedd y diwydiant twristiaeth, a chynaliadwyedd yr ynysoedd yn fwy cyffredinol. Mae polisïau eraill yn cynnwys cyfyngiadau ar lety gwyliau tymor byr (a roddwyd ar waith drwy ddeddfwriaeth yn 2017) a llety twristiaid traddodiadol (cyfraith 2019). Pasiwyd deddf i fynd i'r afael â gordwristiaeth yn 2020, a rhoddwyd tair deddf amgylcheddol ar waith rhwng 2019 a 2021, a oedd yn ymdrin â newid yn yr hinsawdd, trawsnewid i ynni adnewyddadwy ac atal a lleihau gwastraff (y Weinyddiaeth Twristiaeth, Diwylliant a Chwaraeon 2024).

---

<sup>1</sup>Gostyngodd nifer y twristiaid a gyrhaeddodd mewn awyren o 9.83 miliwn yn 2000 i 9.76 miliwn yn 2001 ac i 9.10 miliwn yn 2002, ond cynyddodd unwaith eto i 9.67 miliwn yn 2003 (Y Weinyddiaeth Dwristiaeth 2004).



### Cyfundrefn y dreth dwristiaeth gynaliadwy (ITS)

- 3.16 Mae cyfradd dreth ITS yn amrywio yn ôl y categori o lety a'r tymor pan fo'r daith yn digwydd. Mae Tabl 4 yn crynhoi'r cyfraddau treth a oedd mewn grym ar ddiwedd 2023.

**Tabl 4: Cyfraddau ITS, 2023**

Categori o lety	Y tymor prysur (Mai – Hydref)	T tymor tawel (Tachwedd – Ebrill)
Gwestai 5 seren a llety sy'n cyfateb iddynt	€4 ypyd	€1 ypyd
Gwestai 4 seren a llety sy'n cyfateb iddynt	€3 ypyd	€0.75 ypyd
Gwestai 1, 2 neu 3 seren a llety sy'n cyfateb iddynt	€2 ypyd	€0.5 ypyd
Llety gwyliau a llety tebyg	€2 ypyd	€0.5 ypyd
Amaeth-dwristiaeth a darpariaeth debyg	€2 ypyd	€0.5 ypyd
Gwestai, meysydd gwerysyla a darpariaeth debyg	€1 ypyd	€0.25 ypyd
Llongau mordeithio i dwristiaid	€2 ypyd	€0.5 ypyd

ypyd = y pen y dydd, TAW o 10% yn daladwy ar y cyfraddau hyn.

Ffynhonnell: Llywodraeth Ynysoedd Balears (2023)

- 3.17 Mae arosiadau gan blant dan 16 oed yn esempt rhag talu'r dreth. Caiff y dreth a godir ei haneru o nawfed diwrnod yr arhosiad yn yr un llety.
- 3.18 Nodir y cyfraddau treth mewn deddfwriaeth a dim ond drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth y gellir eu newid. Mae hyn wedi'i wneud sawl gwaith ers i'r ITS gael ei rhoi ar waith gyntaf yn 2016. Mae'r cyfraddau treth presennol wedi bod ar waith ers mis Rhagfyr 2017.

### Y gronfa i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy

- 3.19 Caiff yr holl refeniw o'r ITS ei neilltuo i ariannu gweithgarwch hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy (neilltuo cryf). O ganlyniad, cafodd cyllid y gronfa ei leihau'r sylweddol yn ystod argyfwng COVID-19 a dim ond prosiectau a oedd yn dal i fynd rhagddynt a gafodd eu hariannu rhwng 2020 a 2022.

- 3.20 Ers i'r ITS gael ei chyflwyno yn 2016, mae'r gronfa wedi ariannu cyfanswm o 168 o brosiectau gwerth cyfanswm o €263 miliwn hyd at eu cwblhau (Ynysoedd Cynaliadwy 2024).
- 3.21 Cymeradwywyd cyfanswm o 27 o brosiectau newydd gwerth €138 miliwn yn 2023 (Llywodraeth Ynysoedd Baleares 2023a).
- 3.22 Cyhoeddwyd cais eithriadol newydd am brosiectau ym mis Rhagfyr 2023 gyda chyllid o €74.4 miliwn ar gael o ganlyniad i ailddyrannu arian a gymeradwywyd yn flaenorol (Llywodraeth Ynysoedd Baleares 2023b). Cyhoeddir y cais ar gyfer y Cynllun Blynyddol cyffredin ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn ystod chwarter cyntaf 2024, gyda maint y gronfa gyllido yn dibynnu ar ragolygon ar gyfer refeniw o dreth ITA yn y flwyddyn honno.

### **Y comisiwn i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy**

- 3.23 Y Comisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gronfa i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy ac mae'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pa brosiectau a gaiff eu hariannu.
- 3.24 Mae'r Comisiwn yn cymeradwyo Cynllun Blynyddol ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy, sy'n nodi meysydd â blaenoriaeth i'w cefnogi. Er enghraifft, yn 2016, nododd y Cynllun Blynyddol flaenoriaeth i wella seilwaith dŵr a'r cylch dŵr. Yn 2017, rhoddodd y Cynllun Blynyddol flaenoriaeth i gaffael neu adfer treftadaeth naturiol, hanesyddol a diwylliannol; amrywio'r model economaidd; a gwella'r amgylchedd naturiol a'r cylch dŵr.
- 3.25 Roedd gan y Cynllun Blynyddol Eithriadol diweddaraf ar gyfer 2023 bum blaenoriaeth, sef:
- Gwarchod, diogelu, moderneiddio ac adfer yr amgylchedd naturiol, gwledig, amaethyddol a morol.
  - Hyrwyddo dad-dymoroli, creu ac actifadu cynhyrchion twristiaeth sy'n ymarferol yn ystod y tymor tawel a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, gan roi pwyslais arbennig ar brosiectau sy'n gysylltiedig â diwylliant a chwaraeon, a'r brosiectau hynny y bwriedir iddynt wella ardaloedd twristaidd aeddfed.
  - Adennill ac adfer treftadaeth hanesyddol a diwylliannol.

- Hyrwyddo ymchwil wyddonol, gwaith datblygu a phrosiectau arloesi technolegol.
- Gwella hyfforddiant ac ansawdd cyflogaeth.  
(Llywodraeth Ynysoedd Baleares 2023b).

**Tabl 5: Cyfansoddiad y comisiwn i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy**

Cynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Arloesedd, Ymchwil a Thwristiaeth.
Cynrychiolydd o'r Swyddfa Arlywyddol.
Cynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Cyllid a Gweinyddiaethau Cyhoeddus.
Cynrychiolydd o'r Weinyddiaeth Llafur, Masnach a Diwydiant.
Cynrychiolydd o Weinyddiaeth yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.
Cyfarwyddwr Cyffredinol Twristiaeth.
Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gyllideb a Chyllid.
Tri chynrychiolydd o'r Comisiynau Gweithwyr (CCOO).
Tri chynrychiolydd o Undeb Cyffredinol y Gweithwyr (UGT).
Pedwar cynrychiolydd o Gydffederasiwn Cymdeithasau Busnes Ynysoedd Baleares (CAEB).
Dau gynrychiolydd o Gydffederasiwn Busnesau Bach a Chanolig Ynysoedd Baleares (PIMEB).
Dau gynrychiolydd o Ffederasiwn Endidau Lleol Ynysoedd Baleares (FELIB).
Pum cynrychiolydd o endidau sydd â'r prif ddibenion o amddiffyn a hyrwyddo'r amgylchedd neu sydd ag unrhyw rai eraill o'r dibenion y cyfeirir atynt yn erthygl 19.3 o Gyfraith Rhif 2 dyddiedig 2016.
Cynrychiolydd o'r Gymdeithas Amaethyddol.
Un cynrychiolydd o bob un o gynghorau'r pedair ynys (Mallorca, Minorca, Ibiza a Formentera).
Cynrychiolydd o Gyngor Dinas Palma.

Ffynhonnell: Llywodraeth Ynysoedd Baleares

- 3.26 Mae'r Comisiwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Ynysoedd Baleares, llywodraeth leol, cymdeithasau cyflogwyr, undebau llafur, mudiadau amddiffyn yr amgylchedd a chynrychiolwyr eraill o gymdeithas sifil. Mae Tabl 5 yn rhoi manylion llawn aelodau'r Comisiwn.

## Prosiectau

- 3.27 Dim ond sefydliadau cyhoeddus a all wneud cais am arian drwy'r gronfa ar gyfer twristiaeth gynaliadwy. Fel arfer, daw ceisiadau o weinyddiaethau Llywodraeth Ynysoedd Baleares, cynghorau'r ynysoedd neu neuaddau tref lleol drwy gymdeithas y bwrdeistrefi.
- 3.28 Cyhoeddir prosiectau a gwblhawyd drwy borth rhyngryd yn [Dolen i brosiectau a gwblhawyd \(Illes Sostenibles\)](#).
- 3.29 Mae Tabl 6 yn rhoi trosolwg o'r gwariant ar brosiectau a gwblhawyd yn ôl categori.

**Tabl 6: Gwariant ar brosiectau a gwblhawyd yn ôl categori**

Categori	Cyfanswm y Gwariant
Yr Amgylchedd	€110 miliwn
Twristiaeth Gynaliadwy	€44 miliwn
Treftadaeth Ddiwylliannol	€8 miliwn
Ymchwil Wyddonol	€27 miliwn
Hyfforddiant a Chyflogaeth	€23 miliwn
Rhentu Cymdeithasol	€52 miliwn

*Ffynhonnell: Ynysoedd Cynaliadwy (2024a)*

## Archwilio ac asesu'r effaith

- 3.30 Tasglu Twristiaeth Gynaliadwy Ynysoedd Baleares sy'n gyfrifol am fonitro'r ffordd y caiff prosiectau a gymeradwywyd eu rhoi ar waith. Gall gynnig unrhyw fesurau atal, addasu neu ganslo a ystyrir yn briodol. Yn ymarferol, dirprwyir y rolau hyn i Asiantaeth Twristiaeth Strategol Ynysoedd Baleares (AETIB).
- 3.31 AETIB sy'n gyfrifol am sefydlu mecanweithiau monitro ac asesu priodol ar gyfer prosiectau unigol. Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n fuddiolwyr benodi rheolwr prosiect er mwyn cydgysylltu ag AETIB ynglŷn â'r materion hyn.
- 3.32 Mae sefydliadau sy'n fuddiolwyr yn ymrwmo i gyflwyno adroddiadau technegol i AETIB ar gynnydd prosiectau bob chwarter, gan nodi'r

gweithgareddau a gynhaliwyd a'r costau yr aed iddynt a darparu unrhyw ddogfennaeth a nodir yng nghontract y prosiect.

3.33 Mae AETIB yn cynnal archwiliadau gweinyddol yn ogystal ag archwiliadau ar y safle er mwyn cadarnhau bod gweithgarwch cymorthdaledig wedi'i gynnal (AETIB 2019).

3.34 Roedd y gyfraith a gyflwynodd y dreth yn 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad gwerthuso effeithiau gael ei lunio erbyn 31 Rhagfyr 2018 a bob tair blynedd ar ôl hynny. O dan y gyfraith mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys dadansoddiad manwl o'r canlynol:

- Effeithiolrwydd y dreth, er mwyn nodi i ba raddau y cyflawnwyd y dibenion bwriadedig a bennwyd pan gafodd ei chymeradwyo.
- Effeithlonrwydd y gyfraith, gan nodi beichiau gweinyddol a allai fod wedi bod yn ddiangen.
- Cynaliadwyedd y dreth, o fewn y fframwaith y darperir ar ei gyfer yng Nghyfraith 2/2011, dyddiedig Mawrth 4, ar economi gynaliadwy, ac yng ngweddill y system gyfreithiol.
- Yr effaith y gallai'r dreth ei chael.

Rydym ar ddeall bod yr adroddiadau hyn yn cael eu llunio ond nad ydynt yn cael eu cyhoeddi.

## Enghraifft 1: Prosiect ar Ynysoedd Baleares: tai cymdeithasol yn Palma de Majorca

Nod y prosiect hwn oedd datblygu ac adeiladu 19 o gartrefi â chymhorthdal cyhoeddus yn Palma de Majorca er mwyn delio â'r prinder tai rhent i drigolion ar yr



ynys.

Cyfanswm cost y prosiect oedd €3.5 miliwn ac fe'i cwblhawyd rhwng 2018 a 2019.

Mae Erthygl 47 o Gyfansoddiad Sbaen yn nodi bod gan bob person yr hawl i gartref gweddus. Fodd bynnag, yn rhannol oherwydd pwysau twristiaeth, Ynysoedd Baleares sydd â'r mynegrif hygrychedd tai isaf yn Sbaen, lle y caiff hygrychedd tai ei fesur yn ôl y gymhareb incwm gwario i gostau rhentu.

Cyflwynwyd y prosiect hwn i Sefydliad Tai Ynysoedd Baleares (IBAVI) sy'n rheoli portffolio o 1,745 o gartrefi rhent cymdeithasol. Diben datganedig y prosiect oedd datblygu ac adeiladu grŵp o 19 o gartrefi i'w rhentu ar gyfraddau cymorthdaledig a, thrwy hynny, leihau effeithiau anuniongyrchol twristiaeth, sy'n ei gwneud yn anodd i drigolion gael cartref (Ynysoedd Cynaliadwy 2024b).

## 4. Catalonia

### Uchafbwyntiau:


- Mae'r dreth dwristiaeth ar waith ers 2012 a bum mlynedd yn ôl gosododd dinas Barcelona ordal.
- Mae'r gyfradd dreth yn amrywio yn ôl y math o lety a lleoliad.
- Caiff 50% o'r arian a godir ei drosglwyddo i endidau lleol, cedwir 50% ar lefel Catalonia gan Fwrdd Twristiaeth Catalonia (CTB), sy'n gorff llywodraethol.
- Nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer archwilio prosiectau ac asesu eu heffaith. Fodd bynnag, mae gan CTB fwrdd eang sy'n goruchwyllo ei waith ac ymgynghorir â'r sector preifat.

### Twristiaeth yng Nghatalonia

- 4.1 Mae Catalonia, sef rhanbarth ymreolaethol Sbaen, yn dibynnu'n fawr ar dwristiaeth, sy'n cyfrannu 12% at ei CDG a bron i 14% at gyflogaeth. Mae twristiaeth, sy'n seiliedig yn bennaf ar yr haul a'r traeth, yn cynnal mwy na 400,000 o swyddi (13.8% o'r gweithlu gweithredol) a 78,000 o gwmnïau, gyda 918,000 o leoedd llety i ddarparu ar gyfer ymwelwyr. Yn 2019, croesawodd Catalonia 19.4 miliwn o dwristiaid tramor, gan gynnwys trywydd twf cyson ym maes twristiaeth ryngwladol ers 2012. Cyn pandemig COVID-19, roedd twristiaid rhyngwladol yn cyfrif am 66% o'r ymwelwyr â Chatalonia yn 1999. Cynyddodd y ffigur hwn i 71% yn 2023 ond gostyngodd islaw 50% yn 2020 a 2021 oherwydd y pandemig.

### Ffigur 3: Arosiadau dros nos blyneddol twristiaid yng Nghatalonia.

Ffynhonnell: Idescat, 2024



#### Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg

4.2 Rhoddodd Catalonia dreth dwristiaeth ar waith yn 2012 ac mae CTB yn un o fuddiolwyr yr arian a godir. At hynny, dyrennir cyfran o'r arian i endidau lleol megis cymdeithasau twristiaeth lleol yn y rhanbarth.

4.3 Fel rhanbarth ymreolaethol, caiff Catalonia bennu ei dreth dwristiaeth yn annibynnol ar Sbaen. Yn ôl Cyfraith Catalonia, gall awdurdodau lleol benderfynu a ddylid rhoi treth ychwanegol ar waith. Ar hyn o bryd, Barcelona yw'r unig ardal yng Nghatalonia sydd wedi dewis codi treth dwristiaeth ychwanegol.

4.4 Cyflwynwyd y dreth dwristiaeth er mwyn creu adnoddau i gynnal a gwella statws Catalonia fel prif gyrchfan i dwristiaid a meincnod byd-eang.

Mae hyn yn cynnwys meithrin cystadleurwydd, cynnal safonau ansawdd uchel a hyrwyddo cynaliadwyedd yn y diwydiant twristiaeth, gan greu gwerth ychwanegol. At hynny, nod y dreth yw lliniaru effaith twristiaeth ar ardaloedd eraill y mae twristiaid yn ymweld â nhw yng Nghatalonia.

4.5 Caiff yr arian ei rannu'n gyfartal: dyrennir 50% i gymdeithasau twristiaeth lleol, tra bod 50% arall yn cael ei neilltuo i Fwrdd Twristiaeth Catalonia er mwyn hyrwyddo Catalonia fel gyrchfan i dwristiaid.



4.6 Yn flaenorol, dim ond 20% o'r arian y byddai awdurdodau lleol yn ei gael, ond dros amser, maent wedi dadlau dros gael cyfran fwy, gan bwysleisio eu rôl fel gwesteiywr i dwristiaid. Ar hyn o bryd, caiff yr arian ei rannu'r gyfartal rhwng trefi a Bwrdd Twristiaeth Catalonia (sef 50% i'r naill a'r llall) ond mae rhai awdurdodau lleol yn dal i ddadlau dros gael mwy o gyllid.

### **Cyfundrefn y dreth dwristiaeth**

4.7 Dros y blynyddoedd, mae'r gyfradd dreth y nos fesul categori wedi cynyddu a rhoddodd Barcelona ei threth dwristiaeth ei hun ar waith bum mlynedd yn ôl, yn ychwanegol at dreth dwristiaeth bresennol Catalonia. O ganlyniad, ar hyn o bryd mae Catalonia yn gosod treth dwristiaeth sy'n gymwys i bob cyrchfan yn y rhanbarth, gan gynnwys Catalonia. At hynny, mae Barcelona yn codi treth dwristiaeth arall yn annibynnol.

4.8 Mae cyfradd y dreth dwristiaeth yn amrywio yn ôl y math o lety a'i leoliad, sy'n arwain at ffioedd gwahanol rhwng Barcelona a gweddill Catalonia.

4.9 Mae'r dreth wedi'i chapio ar uchafswm o saith diwrnod y pen, gyda'r amod bod yn rhaid i'r arhosiad fod yn un parhaus yn yr un llety.

4.10 Mae cyfradd arbennig yn gymwys i arosiadau mewn sefydliadau mewn canolfannau hamdden i dwristiaid lle y caniateir gamblo.

4.11 Mae plant dan 16 oed yn esempt rhag talu'r dreth dwristiaeth hon.

4.12 Ar hyn o bryd, mae'r dreth dwristiaeth ar gyfer Catalonia yn amrywio o €1.00 i €3.50, tra bod gordal bwrdeistref Barcelona yn sefydlog ar €2.75.

4.13 Cesglir y dreth dwristiaeth gan wasanaethau llety a throsglwyddir yr arian i'r asiantaeth drethiant (agencia tributaria), naill ai bob mis neu bob chwarter, yn dibynnu ar y swm a godir.

4.14 Er mwyn sicrhau y caiff yr arian ei ddosbarthu mewn modd ystyrlon, caiff bwrdeistrefi llai o faint â llai o adnoddau eu cyfuno.

4.15 Mae'n rhaid i endidau lleol nad ydynt, yn eu rhanbarth, wedi cyrraedd y trothwy o €300,000.00 o dreth a gasglwyd, gan ychwanegu dau gyfnod chwe-misol y

setliad sy'n cyfateb i dymor y gaeaf a thymor yr haf, ddyrannu o leiaf 75% o'r symiau o'r arian a ddyrannwyd i weithgareddau hyrwyddo twristiaeth penodol.

### **Y defnydd o'r arian**

- 4.16 Gall y cymdeithasau twristiaeth lleol ddefnyddio'r arian at wahanol ddibenion sy'n ymwneud â thwristiaeth, heb gyfyngiadau gan gyfraith Catalonia na'r llywodraeth. Gall y dibenion hyn gynnwys hysbysebu, cymryd rhan mewn ffeiriau masnach, datblygu cynhyrchion a gweithgareddau newydd i dwristiaid a mentrau i wneud y dref neu'r cyrchfan yn fwy deniadol, megis arddangosfeydd blodau, digwyddiadau a mwy.

**Tabl 7: Cyfraddau'r dreth dwristiaeth yng Nghatalonia**

<b>Lleoliad</b>	<b>Math o lety</b>	<b>Y gyfradd gyffredinol</b>	<b>Gordal Barcelona</b>	<b>Cyfanswm y dreth</b>
Dinas Barcelona	Gwesty pum seren, gwesty moethus mawr, maes gweryslla moethus a sefydliad sy'n perthyn i gategori tebyg	3,50 €	2,75 €	6,25 €
Dinas Barcelona	Gwesty pedair seren, gwesty pedair seren o safon uwch a sefydliad sy'n perthyn i gategori tebyg	1,70 €	2,75 €	4,45 €
Dinas Barcelona	Annedd i'w defnyddio gan dwristiaid	2,25 €	2,75 €	5,00 €
Dinas Barcelona	Sefydliadau eraill	1,00 €	2,75 €	3,75 €
Dinas Barcelona	Llong fordeithio: - Dros 12 awr - 12 awr neu lai	2,00 € 3,00 €	2,75 € 2,75 €	4,75 € 5,75 €
Gweddill Catalonia	Gwesty pum seren, gwesty moethus mawr, maes gweryslla moethus a sefydliad sy'n perthyn i gategori tebyg	3,00 €	-	3,00 €
Gweddill Catalonia	Gwesty pedair seren, gwesty pedair seren o safon uwch a sefydliad sy'n perthyn i gategori tebyg	1,20 €	-	1,20 €
Gweddill Catalonia	Annedd i'w defnyddio gan dwristiaid	1,00 €	-	1,00 €
Gweddill Catalonia	Sefydliadau eraill	0,60 €	-	0,60 €
Gweddill Catalonia	Llong fordeithio: - Dros 12 awr - 12 awr neu lai	2,00 € 3,00 €	-	2,00 € 3,00 €
Cyfradd arbennig	Gwesty pum seren, gwesty moethus mawr, maes gweryslla moethus a sefydliad sy'n perthyn i gategori tebyg	5,00 €	-	5,00 €

Cyfradd arbennig	Gwesty pedair seren, gwesty pedair seren o safon uwch a sefydliad sy'n perthyn i gategori tebyg	3,50 €	-	3,50 €
Cyfradd arbennig	Sefydliadau eraill	2,50 €	-	2,50 €

Ffynhonnell: Agencia Tributaria de Catalunya (2023) [Dolen i Ffynhonnell Tabl 7 \(Agencia Tributaria de Catalunya\)](#)

- 4.17 Yr egwyddor sy'n sail i dreth dwristiaeth Catalonia yw bod 50% o'r refeniw a gynhyrchir o arosiadau twristiaid yn cael ei neilltuo ar gyfer gwella ansawdd y cyrchfan, gan sicrhau manteision i dwristiaid a phobl leol, tra bod y 50% arall yn cael ei ddyrannu i CTB er mwyn iddo hyrwyddo twristiaeth o ansawdd uchel yng Nghatalonia.
- 4.18 Defnyddir yr arian a godir drwy'r dreth hon at ddibenion sy'n ymwneud â thwristiaeth yn unig ac ni chaiff ei ddargyfeirio i'w ddefnyddio at ddibenion eraill.
- 4.19 Prif nod CTB yw sicrhau bod Catalonia yn brif gyrchfan i dwristiaid, gan bwysleisio ansawdd a manteision economaidd-gymdeithasol y sector twristiaeth. Mae CTB yn rhoi cryn bwyslais ar gynnwys y sector preifat, sy'n rhannu cyfrifoldebau am hyrwyddo a marchnata twristiaeth yng Nghatalonia ledled y byd.
- 4.20 At hynny, mae CTB yn hwyluso masnacheiddio cynhyrchion ac yn annog creu adnoddau hunangyllidol er mwyn cefnogi mentrau.
- 4.21 Mae gweithgareddau CTB yn canolbwyntio ar wella ansawdd twristiaeth er mwyn denu ymwelwyr sy'n gwario mwy a, thrwy hynny, gynyddu'r refeniw a gynhyrchir drwy'r dreth er mwyn rheoli a hyrwyddo cyrchfannau yn well.
- 4.22 Mewn ymateb i broblemau sy'n deillio o ordwristiaeth, mae CTB wedi dewis atal ymgyrchoedd marchnata yn ystod tymhorau prysur ac, yn lle hynny, mae'n canolbwyntio ar strategaethau marchnata cynaliadwy, gan hyrwyddo cyfnodau tawel ac ardaloedd sy'n denu llai o ymwelwyr.
- 4.23 Mae CTB hefyd yn defnyddio'r arian i gydgyssylltu busnesau twristiaeth er mwyn creu cynhyrchion newydd. Er enghraifft, mae CTB wedi chwarae rhan

allweddol wrth greu profiad gastrodwristiaeth, gan amrywio arlwy twristiaeth a denu twristiaid i gyrchfannau mewndirol hefyd.

4.24 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r refeniw wedi'i ddefnyddio at ddibenion adfywiol ac i wrthbwysu "cost twristiaeth", er enghraifft, polisïau i reoli effaith twristiaeth, diwylliant a datblygiad economaidd (Group NAO, 2020).

4.25 Yn lleol, ar gyfer 2024, mae dinas Barcelona, sy'n codi gordal ar y dreth dwristiaeth, wedi cynnig y dylid defnyddio'r arian a godir ar gyfer y prif weithgareddau canlynol (Cyngor Dinas Barcelona, 2023):

**Viu la Vela:** Prosiect y bwriedir iddo hyrwyddo hwylio fel camp ymhlith pobl ifanc ym Marcelona. Gyda chyllid o fwy na miliwn Ewro, nod y fenter yw hwylyso ymweliadau ag ysgolion hwylio ar gyfer 17,000 o blant ysgol gynradd blwyddyn chwech. Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â menter y ddinas i hybu'r economi las a meithrin gweithgareddau morol ymhlith ei phobl ifanc.

**Presenoldeb yn sioe dechnoleg 'Integrated Systems Europe' (ISE2024):** Bydd Barcelona Activa a Clúster Audiovisual Català yn arddangos creadigrwydd sector clyweledol y ddinas ar stondin 250 m<sup>2</sup>, gyda chyllid o €484,000.

**Barcelona Viu el Dakar:** Prosiect sy'n ailgysylltu'r ddinas â Rali Dakar, gan fanteisio ar Port de Barcelona fel y man byrddio llong ar gyfer cerbydau sy'n cymryd rhan yn Rali 2024, gyda chyllid o €150,000.

**Hyrwyddo Twristiaeth Las:** Y nod yw helpu Fundació Barcelona Capital Nàutica (FBCN) i hyrwyddo chwaraeon morol, yr economi las a diwylliant y môr, gyda chyllid o €4.93 miliwn o fewn fframwaith Cwpan America.

**Cysyniadoli a chynllunio'r ymgyrch i hyrwyddo twristiaeth ryngwladol strategol:** Ymgyrch sy'n canolbwyntio ar briodoleddau Barcelona megis cynaliadwyedd, gastronomieg a phensaernïaeth arloesol, gyda chyllid o €150,000.

**Beat Barcelona:** Prosiect o fewn y 'Mobile World Congress; (MWC) sy'n arddangos gastronomieg, gwyliau, technoleg ac atyniadau'r ddinas i 100,000 o ymwelwyr proffesiynol, gyda chyllid o €350,000.

**Dathlu 25 mlynedd ers sefydlu ArticketBCN:** Ymgyrch yn y cyfryngau sy'n hyrwyddo chwe amgueddfa gelf fawr yn Barcelona, a gafodd gyllid gwerth €185,000.

**Plaça de Barcelona:** Mae'n cynnwys dylunio arddangosfa deithiol i dynnu sylw at frand Barcelona, sy'n cynnig profiadau rhithwir rhyngweithiol, gyda chyllid o €471,500.

4.26 Yn achos Girona, nad yw'r referniw a gaiff o'r dreth dwristiaeth yn fwy na €300,000, rhaid i 75% o'r arian gael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau a chamau gweithredu penodol ar gyfer hyrwyddo twristiaeth. Mae enghreifftiau o brif weithgareddau o 2023 yn cynnwys:

- a. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a lledaenu gwybodaeth yn y cyfryngau, gyda phwyslais arbennig ar gyfryngau'r wladwriaeth neu dde Ffrainc, er mwyn denu a chadw twristiaeth ddomestig a lleol.
- b. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a lledaenu gwybodaeth am ddigwyddiadau strategol a gynhelir yn y cyrchfan er mwyn denu a chadw twristiaeth ddomestig a lleol.
- c. Cydweithrediadau â newyddiadurwyr, dylanwadwyr neu flogwyr er mwyn denu a chadw twristiaeth ddomestig, leol a rhyngwladol.
- d. Cydweithrediadau â gweithredwyr teithiau neu asiantaethau teithiau gwladwriaethol, Ewropeaidd neu ryngwladol er mwyn denu a chadw twristiaeth ddomestig, leol a rhyngwladol.
- e. Rhaglenni teithiau tywysedig sy'n seiliedig ar themâu gwahanol o'r ddinas i gyflwyno adnoddau diwylliannol a naturiol y cyrchfan, er mwyn denu a chadw twristiaeth ddomestig.
- f. Camau gweithredu penodol ar gyfer segmentu ac arbenigo cynhyrchion twristiaeth, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth ddiwylliannol, twristiaeth chwaraeon, twristiaeth natur neu dwristiaeth MICE.

4.27 Mae a wnelo elfennau o'r gweithgareddau â hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy a chyfrifol o ansawdd uchel, yn ogystal â gwarchod, diogelu, adfer neu wella adnoddau twristiaeth neu brosiectau sy'n ymwneud â hyrwyddo, creu a gwella cynhyrchion twristiaeth, megis:

- a. Astudiaeth o effaith llety gwyliau ar y cyrchfan.
- b. Gwelliannau hygyrchedd yn y swyddfa dwristiaeth, yn benodol gwelliannau ar gyfer pobl ag amhariadau ar y golwg drwy ymgorffori modelau 3D o adnoddau twristiaeth, braille, mapiau, ac ati.
- c. Ymgorffori teithiau tywysedig wedi'u haddasu ar gyfer pobl ag anableddau clyw neu anableddau gwybyddol neu weledol yn ystod ymgyrchoedd yr haf a'r Nadolig.
- d. Hyfforddiant twristiaeth hygyrch i weithwyr twristiaeth proffesiynol
- e. Hyfforddiant mewn cynhyrchion diwylliannol newydd i dywyswyr twristiaid
- f. Creu cynhyrchion twristiaeth i'r teulu a thwristiaeth natur

#### **Archwilio ac asesu'r effaith**

- 4.28 Nid oes unrhyw fecanweithiau ffurfiol ar gyfer asesu effaith y prosiectau. Fodd bynnag, CTB (sy'n cael 50% o'r arian) a gynrychiolir gan ei gyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y defnydd a wneir ohono ar ôl ymgynghori ag aelodau ei fwrdd.
- 4.29 Mae CTB yn gorff llywodraethol sy'n gweithredu o dan y Weinyddiaeth Busnes a Llafur.
- 4.30 Daw aelodau ei fwrdd o wahanol endidau, gan gynnwys Llywodraeth Catalonia, Cyngor Cyffredinol Siambrau Masnach Catalonia sy'n cynrychioli'r sector preifat, byrddau twristiaeth cynghorau rhanbarthol Barcelona, Tarragona, Lleida a Girona, yn ogystal â bwrdd twristiaeth gyhoeddus a phreifat gymysg Turisme de Barcelona.
- 4.31 Mae CTB wedi chwarae rhan allweddol wrth drefnu ei arlwy twristiaeth mewn 10 brand (CTB, 2023): Gweithgareddau mewn Ardaloedd Naturiol a Gwledig; Twristiaeth Chwaraeon a Golff; Twristiaeth Win; Gastronomeg; Eiconau

Diwylliannol Mawr a Llwybrau Gwych; Heicio a Beicio; Twristiaeth Feddygol; Premiwm; Twristiaeth Fusnes; Gwyliau Teuluol.

- 4.32 Mae gan bob brand fwrdd.
- 4.33 Mae pob bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r busnesau preifat ac aelodau CTB. Gall pob cwmni preifat wirfoddoli i ymuno â'r bwrdd a chaiff enwebiadau eu gwneud yn seiliedig ar gyfnewidiadau'r aelodau a chynrychiolaeth ym mhob brand o fathau gwahanol o gwmnïau (llety, bwytai, atyniadau, math o weithgarwch, ac ati).
- 4.34 Caiff aelodau brand y bwrdd eu henwebu mewn ffordd anffurfiol yn hytrach na ffurfiol.
- 4.35 Hefyd, mae CTB yn ymgynghori â byrddau brandiau ar y gweithgareddau y mae'n eu cynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.



## **Enghraifft 2: Prosiect yng Nghatalonia: taith fawr o amgylch Catalonia**

Mae'r Daith Fawr o amgylch Catalonia yn llwybr cylchol i ddarganfod hanfod Catalonia. Mae'n cysylltu 72 o brofiadau sydd wedi'u dosbarthu i'r categorïau Egniölnatur, Diwylliant, Enogastronomieg, Hamdden ac adloniant, Cynaliadwy-adywiol, mewn amgylcheddau diwylliannol a threfol. Lluniwyd y llwybr sy'n ymestyn dros 2,000 o gilometrau, er mwyn i gerbyd modur allu teithio ar hyd-ddo mewn dwy ffordd, sef: mewn un daith sy'n para 13 diwrnod neu mewn pum rhan sy'n cynnwys pump neu saith cam yr un.

Lluniwyd y prosiect ar y cyd gan CTB, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Twristiaeth, sy'n cynnwys Rhwydwaith Swyddfeydd Twristiaeth Catalonia, ac ymddiriedolwyr Twristiaeth gwahanol Cynghorau rhanbarthol Barcelona, Tarragona, Lleida a Girona, yn ogystal â Foment Torisme Val d'Aran a Tourisme de Barcelona.

Yn ystod y broses o ddatblygu'r daith, mae CTB wedi helpu busnesau preifat i gydweithio a chreu profiadau twristiaeth ar y cyd a chysylltu'r arfordir ag ardaloedd mewndirol.

Mae creu'r daith yn ymrwymiad strategol gan CTB er mwyn cyflawni'r nodau canlynol o sicrhau twristiaeth gynaliadwy i Gatalonia:

- DOSBARTHU'r galw ym maes twristiaeth i bob rhan o'r rhanbarth.
- LLEIHAU tymoroldeb twristiaeth yng Nghatalonia.
- DANGOS amrywiaeth ranbarthol a'r amrywiaeth eang o brofiadau sydd ar gael i dwristiaid.
- AILDDOSBARTHU'r cyfoeth a gynhyrchir gan weithgarwch twristiaeth ledled Catalonia. CEFNOGI cynhyrchion eraill a llwybrau llai adnabyddus.
- ATGYFNERTHU'r gydberthynas ag endidau cyhoeddus eraill drwy ddatblygu'r cynnyrch ar y cyd drwy'r Gweithgor sy'n cynnwys CTB a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol Twristiaeth, ynghyd â Swyddfeydd Twristiaeth a Byrddau Twristiaeth lleol.
- RHYDDHAU twristiaeth yng Nghatalonia gyda chynnyrch twristiaeth newydd.
- CRYFHOU brand twristiaeth Catalonia.
- CYNNIG CYMHELLION I HYRWYDDO CYNALIADWYEDD drwy brofiadau a theithiau â'r ôl troed carbon lleiaf.
- RHOI HWB i'r sector drwy gyflwyno cynnyrch twristiaeth newydd.

## 5. Gunnison, Colorado, UDA

### Uchafbwyntiau:


- Mae treth dwristiaeth wedi bod ar waith ers 2011.
- Hyblygrwydd o ran y defnydd o arian
- Treth doll ar lety gwyliau i ariannu tai a gofal plant fforddiadwy.
- Rhennir yr arian a godir rhwng y Swydd, y Dref a'r Bwrdd Twristiaeth
- Ni chaiff arian ei neilltuo er i gais cychwynol gael ei wneud gan Gomisiynwyr y Swydd i'r Bwrdd Twristiaeth
- Mae'r Bwrdd Twristiaeth yn defnyddio'r arian er mwyn helpu i dalu am weithgareddau twristiaeth gynaliadwy drwy addysgu twristiaid, arwyddion, cymorth i glybiau beicio sy'n gofalu am y llwybrau.

### Twristiaeth yn Swydd Gunnison

- 5.1 Mae twristiaeth yn Nyffryn Gunnison yn ffynnu ar weithgareddau hamdden awyr agored yn yr haf a'r gaeaf, gyda'r tymor prysur yn ystod misoedd yr haf, yn enwedig ym mis Gorffennaf.
- 5.2 Yn yr haf, caiff ymwelwyr eu denu i'r ardal i gymryd rhan mewn gweithgareddau megis beicio mynydd, pysgota a heicio ar draws ei dwy filiwn erw o dir cyhoeddus.
- 5.3 Yn y gaeaf, mae llai o ymwelwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis sgïo alpaidd, sgïo traws gwlad, heicio gan wisgo sgidiau eira a 'fat biking'.
- 5.4 Gyda phoblogaeth o tua 17,000 o drigolion a chyfanswm arwynebedd o 8,400 km<sup>2</sup>, mae Swydd Gunnison yn gartref i bedair prif dref dwristiaid, sef: Gunnison, Crested Butte, Almont a Mt. Crested Butte.
- 5.5 Gwelwyd twf cyson mewn twristiaeth yn Swydd Gunnison rhwng 2013 a 2022, gyda gwariant teithio yn cynyddu o \$170.3 miliwn i \$345.1 miliwn yn ystod y cyfnod hwn.
- 5.6 Er gwaethaf yr heriau a oedd yn gysylltiedig â phandemig COVID-19, cynyddodd gwariant twristiaeth yn y Swydd 34.5% rhwng 2019 a 2022.

5.7 Mae'r gwariant gwerth \$345.1 miliwn i'w briodoli i tua 700,000 o ymwelwyr â'r ardal (Swyddfa Dwristiaeth Colorado, 2023).

**Ffigur 4: Nifer yr ymwelwyr a gyrhaeddodd Swydd Gunnison fesul mis.**



Ffynhonnell: [Dolen i Ffynhonnell Ffigur 4 \(Gunnison Crested Butte\)](#)

### Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg

- 5.8 Mae Swydd Gunnison wedi'i lleoli yn Nhalaith Colorado, sydd â system drethu gymhleth sy'n effeithio ar eiddo sy'n darparu llety i ymwelwyr.
- 5.9 Ar lefel y dalaith y mae fframwaith y dreth dwristiaeth. Fodd bynnag, mae gan swyddi ryddid i benderfynu a ddylid gosod treth letya ar lety sy'n gorfod talu treth ar werthiant ac ar lety wyliau Colorado.
- 5.10 Mae swyddi penodol yn codi treth letya ychwanegol tra bod rhai dinasoedd yn codi treth ardal farchnata ychwanegol.
- 5.11 Y dalaith sy'n gweinyddu'r broses o gasglu treth ar werthiant y dalaith a swyddi, treth letya swyddi, treth ardal farchnata leol a threthi ar gyfer dinasoedd llai o faint. Fel arfer, mae dinasoedd mwy o faint a threfi sgïo yn rheoli eu prosesau casglu treth eu hunain.

## **Cyfundrefn y dreth llety yn Swydd Gunnison**

- 5.12 Cyflwynodd Swydd Gunnison Dreth Letya yn 1991, a gafodd ei haddasu dros amser.
- 5.13 Erbyn 2002, roedd y gyfradd dreth wedi cynyddu o 1.9% i 4%.
- 5.14 Yn 2008, datblygodd yn "Dreth Ardal Farchnata Leol." Dim ond un agwedd ar y dreth letya gyffredinol yw'r dreth hon, gydag amrywiadau i'w gweld mewn trefi gwahanol yn y swydd a rhwng mathau o lety.
- 5.15 Ryw dair i bedair blynedd yn ôl, rhoddodd sawl tref yn Swydd Gunnison dreth gynyddrannol ar waith er mwyn lleihau'r straen a oedd yn cael ei hachosi gan gostau tai cynyddol i drigolion.
- 5.16 Yn Swydd Gunnison, mae tua 40% o'r cartrefi yn eiddo i unigolion nad ydynt yn drigolion (perchnogion ail gartrefi). Yn hanesyddol, byddai'r unigolion hyn yn gosod eu heiddo ar rent i drigolion, gan helpu i sicrhau bod pawb yn cydfyw'n gytûn.
- 5.17 Pan ddechreuodd platfformau megis Airbnb a VRBO ymddangos, sylweddolodd rhai perchnogion ail gartrefi y gallent wneud mwy o elw drwy osod llety gwyliau yn hytrach na rhoi prydlesau hirdymor i bobl leol. Rhoddodd y newid hwn bwysau cynyddol ar y farchnad dai leol, gan ysgogi cymunedau i osod trethi ychwanegol ar lety VRBO ac Airbnb er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon.
- 5.18 Yn nhref Crested Butte, cymerwyd cam sylweddol ar 2 Tachwedd 2021 pan gymeradwyodd pleidleiswyr Fenter Bleidlais 2D. Gosododd y fenter hon Dreth Doll o 7.5% ar Lety Gwyliau/Llety Gwyliau Tymor Byr, yn weithredol o 1 Ionawr 2022. Dylid nodi bod yr enillion o'r dreth hon, a ddynodir yn Gronfa Tai Fforddiadwy, yn cael eu clustnodi ar gyfer diwallu anghenion tai fforddiadwy yn unig ac na ellir eu defnyddio i ariannu gweithrediadau cyffredinol Tref Crested Bute.
- 5.19 Mae'r Dreth Doll o 7.5% yn ategu'r dreth ar werthiant o 4.5% sydd eisoes yn cael ei chodi ar Lety Gwyliau/Llety Gwyliau Tymor Byr, ynghyd â'r Dreth Ardal Farchnata Leol.

5.20 O ganlyniad, mae cyfanswm y dreth a godir ar bob math o Lety Gwyliau/Llety Gwyliau Tymor Byr yn cyfateb i 20.9%, a ddsberthir fel a ganlyn:

**Tabl 8: Treth ar lety gwyliau tymor byr ac eiddo lletya yn Crested Butte**

<b>AWDURDOD</b>	<b>CYFRADD DRETH</b>
Treth Talaith Colorado	2.9%
Treth Swydd Gunnison	1.0%
Ardal Arbennig – Awdurdod Cludiant Gwledig	1.0%
Treth Tref Crested Butte	4.5%
Treth Doll Tref Crested Butte	7.5%
Treth Ardal Farchnata Leol Swydd Gunnison	4.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>20.9%</b>

Ffynhonnell: Tref Crested Butte (2024)

5.21 Yn nhref gyfagos Mt. Crested Butte, mae'r Dreth Doll yn is, sy'n golygu mai cyfanswm y dreth letya ar gyfer llety gwyliau tymor byr yw 16.8%.

**Tabl 9: Treth ar lety gwyliau tymor byr ac eiddo lletya ym Mt. Crested Butte**

<b>AWDURDOD</b>	<b>CYFRADD DRETH</b>
Treth Talaith Colorado	2.9%
Treth Swydd Gunnison	1.0%
Ardal Arbennig – Awdurdod Cludiant Gwledig	1.0%
Treth Tref Mt. Crested Butte	5.0%
Treth Doll Tref Mt. Crested Butte	2.9%
Treth Ardal Farchnata Leol Swydd Gunnison	4.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>16.8%</b>


Ffynhonnell: Tref Mt Crested Butte, 2024

5.22 Mae Talaith Colorado yn rheoli'r broses casglu trethi ac yn didynnu ffi weinyddol nominal (er na ddarparwyd y gyfradd benodol yn ystod y cyfweliad). Wedyn, caiff y trethi a gasglwyd eu trosglwyddo'n ôl i'r Swydd. Mae'r Swydd a'r Trefi yn cael budd o'r trethi hyn fel derbynwyr.

## Ffigur 5: Treth ardal farchnata leol gronol yn ôl lleoliad

Last Updated  
15 Feb 2024

Cumulative Gunnison County Lodging (LMD) Tax Revenue by Location  
Monthly from January 2018



Ffynhonnell: [Dolen i Ffynhonnell Ffigur 5 \(Gunnison Crested Butte\)](#)

### Y bartneriaeth twristiaeth a ffyniant

- 5.23 Sefydlwyd y Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant (TAPP, a elwid gynt yn Gymdeithas Dwristiaeth Gunnison-Crested Butte rhwng 2002 a 2019) yn 2002 drwy bleidlais boblogaidd gan drigolion Swydd Gunnison.
- 5.24 Nod y fenter bleidlais oedd sefydlu Ardal Farchnata Leol er mwyn hyrwyddo'r cyrchfan fel endid unedig.
- 5.25 O ganlyniad i'r bleidlais, cynyddodd y dreth letya ar gyfer arosiadau llai na 30 diwrnod o 1.9% i 4%. Ers ei sefydlu, bu TAPP yn gyfrifol am farchnata Dyffryn Gunnison fel cyrchfan ar gyfer gwyliau drwy gydol y flwyddyn.
- 5.26 Mae cenhadaeth bresennol TAPP yn cynnwys defnyddio cronfa'r Ardal Farchnata Leol a chronfeydd grant i gynyddu'r refeniw o ymweliadau dros nos.
- 5.27 At hynny, mae TAPP yn ceisio sicrhau bod economi'r swydd yn cael ei datblygu a'i hamrywio mewn ffordd gynaliadwy.
- 5.28 Mae'n gwneud hyn drwy gymryd rhan yn y Pwyllgor Twristiaeth Gynaliadwy a Hamdden Awyr Agored, gan ddarparu cymorth i Brifysgol Gorllewin Colorado a hwyluso cyfleoedd entrepreneuriaidd megis yr 'ICELab'.

5.29 Yn y pen draw, nod TAPP yw hyrwyddo ffyniant a chreu cyfleoedd i drigolion Dyffryn Gunnison.

### **Y defnydd o'r arian**

5.30 Dyrennir arian a gynhyrchir gan y dreth letya i wahanol endidau a threfi. Mae

5.31 TAPP yn cael y Dreth Ardal Farchnata Leol i gyd.

5.32 Cyfeirir y dreth doll at gefnogi mentrau tai fforddiadwy yn unig.

5.33 Defnyddir gweddill yr arian a gesglir ar gyfer gweithrediadau'r trefi/bwrdeistrefi bob dydd a phrosiectau dynodedig.

5.34 Mae TAPP yn defnyddio'r arian ar gyfer mentrau marchnata a datblygu economaidd, sy'n cwmpasu mentrau megis gweithgareddau cyflymu neu ddeor busnes. Mae'r rhaglenni hyn yn gwahodd unigolion â syniadau busnes addawol i gydweithio â TAPP am gyfnod o 12 neu 16 wythnos, er mwyn hwyluso symud eu busnesau i'r dyffryn. Drwy'r fenter hon, mae Swydd Gunnison wedi llwyddo i ddenu ac adleoli dwsin o gwmnïau, gan gynnig cyfleoedd gwaith i drigolion am gyflogau cynaliadwy.

5.35 Mae TAPP hefyd yn dyrannu arian ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth amgylcheddol, o ystyried y rhwydwaith eang o lwybrau yn y swydd sy'n cynnwys 750 o filltiroedd o lwybrau beicio mynydd un trac a 800 o filltiroedd o lwybrau heicio sydd wedi'u cyfyngu i heicio oherwydd y dynodiad fel ardal wyllt.

5.36 Gyda chyfanswm o 1500 o filltiroedd o lwybrau ar gael ar gyfer beicio neu heicio, mae TAPP yn buddsoddi adnoddau sylweddol bob blwyddyn er mwyn addysgu twristiaid drwy arwyddion ar lwybrau a negeseuon am stiwardiaeth amgylcheddol.

5.37 At hynny, mae TAPP yn cefnogi clybiau beicio mynydd lleol gyda'u hymdrechion cynnal a chadw ac adfer yn ystod misoedd yr haf.

5.38 Caiff arian ei neilltuo hefyd at ddibenion addysgu teithwyr am gynaliadwyedd drwy wefan y cyrchfan a sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu hysbysu am arferion twristiaeth cyfrifol.

### **Archwilio ac asesu'r effaith**

- 5.39 Gan fod gweithrediad TAPP yn seiliedig ar weithgareddau yn hytrach na phrosiectau, nid oes unrhyw fecanweithiau archwilio nac asesu ffurfiol sy'n seiliedig ar feini prawf penodol.
- 5.40 Serch hynny, mae trefniadau llywodraethu TAPP yn sicrhau bod ei gweithgareddau yn cael eu rheoli gan Gomisiynwyr y Swydd a Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
- 5.41 Mae Bwrdd TAPP yn cynnwys aelodau o'r gymuned a benodir gan Gomisiynwyr y Swydd, sy'n cyflawni eu rôl arwain yn yr Ardal Farchnata Leol. Mae'r gymdeithas yn cynnwys pum sedd sy'n cynrychioli'r ardal gyfan a dwy sedd barhaol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer Prifysgol Gorllewin Colorado a 'Crested Butte Mountain Resort'.
- 5.42 Mae'r defnydd y mae TAPP yn ei wneud o arian yn cael ei oruchwylio gan dri chomisiynydd y swydd, a gaiff eu hethol drwy bleidlais gyhoeddus. Mae bwrdd y cyfarwyddwyr a'r pennaeth staff hefyd yn chwarae rolau hollbwysig wrth fonitro gweithgareddau TAPP.
- 5.43 Ar ôl i'r dreth Ardal Farchnata Leol gael ei chyflwyno (o ganlyniad i bleidlais gyhoeddus yn 2002), nodwyd gan Gomisiynwyr y Swydd fod y dreth yn cynhyrchu mwy o refeniw na'r disgwyl.
- 5.44 Felly, gofynnodd Comisiynwyr y Swydd i TAPP ehangu ei chwmpas a defnyddio'r arian at ddibenion datblygu economaidd. I ddechrau, cynigiodd y Comisiynwyr y dylid dyrannu cyfrannau penodol o'r arian i Brifysgol Gorllewin Colorado, Datblygu Economaidd, gan adael 45% ar gyfer twristiaeth.
- 5.45 Mae TAPP yn dadlau dros hyblygrwydd, gan ofyn am iddi beidio â chael ei rhwymo gan ffigurau penodol a chael dwy flynedd i weithredu mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol.
- 5.46 Nid yw'r arian yn cael ei neilltuo i'w ddefnyddio at ddibenion penodol o hyd, gyda TAPP yn cyflwyno cynllun blynyddol i'r comisiynwyr a bwrdd y cyfarwyddwyr i'w gymeradwyo. Mae'r comisiynwyr yn cymeradwyo'r cynlluniau



hyn bob amser, gan fod TAPP wedi dangos y gall gyflawni canlyniadau, gan feithrin cydberthnasau seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng TAPP a'r comisiynwyr.

- 5.47 Mae bwrdd y cyfarwyddwyr yn ymgynnull tua dwsin o weithiau bob blwyddyn er mwyn asesu'r cynnydd y mae TAPP wedi'i wneud yn erbyn nodau cychwynnol a gwariant.
- 5.48 Mae ganddi'r hyblygrwydd i wyro oddi wrth y cynllun cychwynnol os bydd anghenion newydd neu gyfleoedd gwell yn codi, gan sicrhau y gall TAPP addasu ei gweithrediadau.

### **Enghraifft 3: Prosiect Swydd Gunnison: prosiect tai fforddiadwy yn Crested Butte**

Mae tref Crested Butte, yn debyg i ganolfannau trefol eraill yn Swydd Gunnison, yn wynebu prinder tai fforddiadwy i weithwyr a thrigolion lleol. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae Crested Butte wedi cyflwyno Treth Doll o 7.5% ar lety gwyliau a llety gwyliau tymor byr, a gaiff ei chlustnodi i gefnogi mentrau tai fforddiadwy i'r gweithlu yn unig. Nid yw'r fenter hon yn unigryw i Crested Butte, am fod trefi eraill yn y Dyffryn hefyd yn cymryd camau tebyg. Yn 2021, cynhyrchodd y dreth doll \$547,000, wedi'i ategu gan \$119,000 a godwyd drwy ffi'r polisi Tai Fforddiadwy a Feddiennir gan Drigolion.

Mewn ymgais bellach i hybu prosiectau tai fforddiadwy yn Swydd Gunnison, ailddyrrannodd Comisiynwyr y Swydd arian a gynhyrchwyd gan y dreth Ardal Farchnata Leol o fentrau marchnata, twristiaeth a datblygu economaidd er mwyn ariannu mentrau tai i'r gweithlu. Yn benodol, dyrannwyd \$1 filiwn i brosiect tai Cam 2 Sawtooth yn Gunnison. Dyma'r tro cyntaf i arian o'r dreth Ardal Farchnata Leol gael ei ddargyfeirio i brosiect tai yn Swydd Gunnison ers i fater pleidlais 6A gael ei basio,



gan ganiatáu i hyd at 40% o gyllideb yr Ardal Farchnata Leol gael ei ddyrannu ar gyfer tai a gofal plant i'r gweithlu.

Mae'r \$1 filiwn a ddyrannwyd yn cyfateb i tua 29% o'r refeniw rhagamcanol o'r dreth Ardal Farchnata Leol yn seiliedig ar ragamcanion presennol 2023, sef \$3.4 miliwn. Mae Cam 1 Prosiect Sawtooth yn cynnwys 18 o unedau rhent tra bod Cam 2 yn cynnwys 30 o unedau

aml-deulu.

Ffynhonnell: . [Gunnisontimes.com/](http://Gunnisontimes.com/)

Nod y naill gam a'r llall o Brosiect Sawtooth yw darparu llety rhent i drigolion cymwys ag incwm ar 80% o Incwm Canolrifol yr Ardal. Disgwylir i Gam 1 gynhyrchu refeniw gwerth tua \$250,000 bob blwyddyn ac fe'i hariannwyd i ddechrau gan grant untro o dan Ddeddf Cynllun Achub America. Defnyddir arian TAPP i ddechrau cam 2 ynghyd â refeniw Cam 1 a'r nod yw cynhyrchu'r cyllid sydd ei angen i gynnal rhagor o ddatblygiadau tai fforddiadwy.

## 6. Gwlad yr Iâ


### Uchafbwyntiau:

- Defnyddiwyd y dreth llety, a gyflwynwyd gyntaf yn 2011, i gyllido'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd.
- Neilltuwyd 60% o'r dreth llety i'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd.
- Yr arhosiad cyfartalog oedd 7.4 noson yn 2022.
- Defnyddiwyd y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd i hyrwyddo datblygu, cynnal a diogelu cyrchfannau a llwybrau poblogaidd, sy'n gonglfaen pwysig o ran cynaliadwyedd i'r wlad.

### Twristiaeth yng Ngwlad yr Iâ

- 6.1 Yn 2022, gwnaeth twristiaeth gyfraniad uniongyrchol o 7.8% at CDG yng Ngwlad yr Iâ (Ystadegau Gwlad yr Iâ 2024a) a thwristiaeth oedd y brif swydd i 10.7% o'r gweithwyr (Ystadegau Gwlad yr Iâ 2024b).
- 6.2 Mae twristiaeth yng Ngwlad yr Iâ wedi cynyddu'n raddol ers canol yr 20<sup>fed</sup> ganrif ac yn gyflym iawn ers y 2010au. Cyrhaeddodd nifer yr ymwelwyr rhyngwladol â Gwlad yr Iâ uchafbwynt yn 2018, sef 2.3 miliwn, o gymharu â thua hanner miliwn y flwyddyn ar ddiwedd y degawd blaenorol (gweler Ffigur 6 am fanylion). Mewn cymhariaeth, mae cyfanswm poblogaeth breswyl Gwlad yr Iâ ychydig o dan 400,000 ar ddechrau 2024 (Cofrestrau Gwlad yr Iâ 2024).
- 6.3 Cafodd pandemig COVID-19 effaith andwyol iawn ar dwristiaeth ryngwladol i Wlad yr Iâ ond mae wedi adfer yn gyflym ac yn sylweddol ers y pandemig. Disgwylir i 2.2 miliwn o ymwelwyr gael eu cofnodi ar gyfer 2023 pan gaiff yr ystadegau eu cadarnhau'n derfynol.
- 6.4 Hyd cyfartalog arhosiad ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol oedd 7.4 noson yn 2022, sef cynnydd bach o gymharu â hyd arosiadau cyn pandemig COVID-19 (6.6 noson yn 2019 a 6.3 noson yn 2018) (Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ 2023).

**Ffigur 6: Nifer y twristiaid tramor a ymwelodd â Gwlad yr Iâ yn ôl blwyddyn**



Ffynhonnell: Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ (2024c).

6.5 Mae Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ yn amcangyfrif bod bron i 99% o dwristiaid yn cyrraedd Gwlad yr Iâ drwy Faes Awyr Keflavik, gyda'r gweddill yn cyrraedd ar longau mordeithio neu ar y fferi drwy borthladd Seyðisfjörður.

6.6 Daw ymwelwyr rhyngwladol o Ogledd America ac Ewrop yn bennaf, fel y dangosir yn Nhabl 10.

**Tabl 10: Ymwelwyr â Gwlad yr Iâ yn ôl cenedligrwydd, 2022**

UDA	26.7%
Y DU	13.4%
Yr Almaen	8.2%
Ffrainc	5.3%
Gwlad Pwyl	4.9%
Yr Eidal	3.6%
Denmarc	3.5%
Yr Iseldiroedd	3.1%
Sbaen	3.0%
Canada	2.5%
Eraill <2% yr un	25.8%

Ffynhonnell: Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ (2024c)

- 6.7 Mae Gwlad yr Iâ yn enwog am ei hamgylchedd unigryw ac ystyrir mai atyniadau naturiol yw ei phrif apêl i dwristiaid.
- 6.8 Yn ystod misoedd yr haf mae twristiaeth yng Ngwlad yr Iâ fwyaf poblogaidd, gyda 48% o ymwelwyr yn cyrraedd yr ynys rhwng mis Mehefin a mis Medi yn 2022 (Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ 2024c).

### **Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg**

- 6.9 Cyflwynodd Gwlad yr Iâ Dreth Llety gyntaf yn 2011. Nododd y ddeddfwriaeth a ddeddfodd ar gyfer y dreth yn benodol mai nod y ddeddfwriaeth yw hyrwyddo datblygu, cynnal a diogelu cyrchfannau poblogaidd i dwristiaid drwy gynhyrchu incwm er mwyn sicrhau diogelwch twristiaid a diogelu natur y wlad (Gwlad yr Iâ 2011a).
- 6.10 Sefydlwyd y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd ar yr un pryd. Ei diben datganedig yw hyrwyddo datblygu, cynnal a diogelu atyniadau i dwristiaid a llwybrau twristaidd ledled y wlad a, thrwy hynny, helpu i ddatblygu twristiaeth fel un o gonglfeini pwysig economi Gwlad yr Iâ (Gwlad yr Iâ 2011b). Mae'r ddeddfwriaeth a roddodd y dreth ar waith yn nodi mai nod y gronfa yw hyrwyddo dosbarthu twristiaid yn fwy cyfartal ledled y wlad a, thrwy hynny, gefnogi gwaith datblygu rhanbarthol (ibid.).
- 6.11 Nododd deddf 2011 ynglŷn â Threth Llety na ddylai llai na 60% o'r refeniw o'r dreth gael ei neilltuo ar gyfer y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd. Cafodd y trefniant 'meddal' hwn ar gyfer neilltuo'r dreth ei ddiddymu gan ddiwygiad i'r ddeddf yn 2017 a ddaeth â'r cysylltiad cyfreithiol rhwng y Dreth Llety a'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd i ben. Fodd bynnag, mae'r cyfwelai o'r farn i'r cysylltiad hwn gael ei ddiddymu oherwydd "barn wleidyddol" am addasrwydd neilltuo cyllid ac mai'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd yw'r prif gyfrwng ar gyfer cyflawni nodau'r Dreth Llety fel y'u nodwyd yn deddf 2011 o hyd.

### **Cyfundrefn y dreth llety**

- 6.12 Cyflwynwyd y Dreth Llety yn 2011 ar gyfradd safonol o 100 ISK yr uned y noson (tua £0.57) ar gyfer pob arhosiad dros nos mewn llety sy'n cael ei rentu fel arfer am gyfnod o lai na mis. Mae hyn yn cynnwys tai, fflatiau, ystafelloedd

mewn gwestai a gwestai bach, yn ogystal â meysydd gwerysyla a lleoedd i gartrefi symudol a charafanau (Gwlad yr Iâ 2011).

- 6.13 Yn 2017, cynyddwyd y gyfradd dreth i 300 ISK yr uned y noson (tua £1.71) ond parhaodd i fod yn gyfradd safonol, yn gyffredin rhwng pob math o lety cymwys. Gwnaed hyn drwy ddiwygio'r ddeddf wreiddiol a basiwyd yn 2011 (Gwlad yr Iâ 2016).
- 6.14 Oherwydd effeithiau andwyol iawn pandemig COVID-19, diwygiwyd deddf 2011 er mwyn atal y dreth rhag cael ei chodi o 1 Ebrill 2020 (Gwlad yr Iâ 2020). Parhaodd y dreth i gael ei hatal tan ddiwedd 2023.
- 6.15 Ailgyflwynwyd y Dreth Llety o 1 Ionawr 2024 ac fe'i hystynnwyd i gynnwys arosiadau ar longau mordeithio. Am y tro cyntaf, mae cyfraddau gwahaniaethol bellach yn cael eu codi ar dri chategori gwahanol o lety fel a ganlyn:
- 300 ISK yr uned y noson (tua £1.71) ar gyfer meysydd gwerysyla
  - 600 ISK yr uned y noson (tua £3.42) ar gyfer gwestai, gwestai bach a llety tebyg.
  - 1,000 ISK yr uned y noson (tua £5.70) ar gyfer llety ar fwrdd llong fordeithio tra bydd mewn porthladd neu rywle arall yn ardal dollau Gwlad yr Iâ.
- (Cyllid a Thollau Gwlad yr Iâ 2024)

### **Refeniw'r dreth llety**

- 6.16 Ni chaiff refeniw o'r Dreth Llety ei gofnodi ar wahân i drethi eraill ar wasanaethau arbennig gan Ystadegau Gwlad yr Iâ. Felly, rydym wedi amcangyfrif y refeniw yn fras drwy luosi'r cyfraddau treth a nodwyd uchod â nifer yr arosiadau dros nos mewn llety cofrestredig. Dangosir hyn yn Nhabl 11.
- 6.17 Mae Tabl 11 hefyd yn cymharu'r refeniw amcangyfrifedig hwn o'r dreth â chyfanswm y grantiau a roddwyd gan y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd.
- 6.18 Mae'r cyfrifiadau hyn yn awgrymu nad oedd y trefniant 'meddal' ar gyfer neilltuo refeniw o'r Dreth Llety ar gyfer y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd cyn 2017 yn gyfyngiad cyfrwymol ar ôl i'r Gronfa gael ei rhoi ar waith yn llawn.

Ym mhob blwyddyn rhwng 2012 a 2016, rhoddodd y Gronfa grantiau a oedd yn werth llawer mwy na'r 60% o refeniw'r Dreth Llety a oedd wedi'i neilltuo.

- 6.19 Rhwng 2017 a 2019, ar ôl i gyfradd y Dreth Llety gael ei threblu, byddai'r trefniant neilltuo meddal wedi bod yn gyfrwymol pe na bai wedi cael ei ddi-ddymu. Felly, gellid dehongli bod dileu'r trefniant neilltuo meddal wedi cael effaith andwyol ar y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd yn y blynyddoedd hyn.
- 6.20 Ar y llaw arall, parhaodd y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd i gael ei chyllido rhwng 2020 a 2022, er i'r Dreth Llety gael ei hatal yn dilyn pandemig COVID-19.

**Tabl 11: Refeniw amcangyfrifedig y dreth llety o gymharu â grantiau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd**

Blwyddyn	Arosiadau dros nos mewn llety cofrestredig*	Cyfradd dreth, ISK	Cyfanswm y refeniw amcangyfrifedig, miliwn ISK	Grantiau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd†, miliwn ISK	Grantiau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd fel % o'r refeniw o'r dreth
<b>2012</b>	3,752,000	100	375	69	18%
<b>2013</b>	4,547,000	100	455	576	127%
<b>2014</b>	5,490,000	100	549	630	115%
<b>2015</b>	6,515,000	100	652	1,025	157%
<b>2016</b>	7,809,000	100	781	626	80%
<b>2017</b>	8,378,000	300	2,513	610	24%
<b>2018</b>	9,000,067	300	2,700	822	30%
<b>2019</b>	10,040,959	300	3,012	505	17%
<b>2020</b>	2,961,416	-	-	701	Dd/G
<b>2021</b>	5,099,551	-	-	929	Dd/G

\* Ffynhonnell: Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ (2023)

† Ffynhonnell: Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ (2024c)

### Y gronfa diogelu safleoedd twristaidd

- 6.21 Caiff y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd ei llywodraethu gan Fwrdd â phedwar aelod. Penodir aelodau'r Bwrdd gan y Gweinidog Twristiaeth am gyfnodau o ddwy flynedd, yn seiliedig ar enwebiadau gan y canlynol:
- Cymdeithas Dwristiaeth Gwlad yr Iâ, sef corff sy'n cynrychioli'r diwydiant twristiaeth.

- Undeb Bwrdeistrefi Gwlad yr Iâ, sef corff sy'n cynrychioli llywodraeth leol.
  - Y Gweinidog sy'n gyfrifol am gadwraeth natur.
  - Y Gweinidog Twristiaeth.
- 6.22 Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ, sef un o asiantaethau'r Gweinidog Twristiaeth, sy'n gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd.
- 6.23 Derbyniwyd ceisiadau i'r gronfa unwaith y flwyddyn, ym mis Medi a chânt eu prosesu rhwng mis Hydref a mis Chwefror. Mae'r Bwrdd yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog, sy'n gwneud penderfyniadau terfynol ynghylch cyllido ym mis Mawrth neu fis Ebrill.
- 6.24 Mae'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd yn cael cyllideb flynyddol gan y Gweinidog Twristiaeth y mae'n ei ddyrannu ar ffurf grantiau i brosiectau dethol. Roedd y gyllideb hon yn cyfateb i 650 miliwn (tua £3.75 miliwn) y flwyddyn rhwng 2012 a 2021, ar gyfartaledd (Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ 2024a).
- 6.25 Fel arfer mae'r gronfa yn cael gormod o geisiadau am arian â chyfanswm gwerth sydd tua phump neu chwe gwaith yn fwy na'i gyllideb bob blwyddyn.

### **Prosiectau**

- 6.26 Cyn 2017, gallai unrhyw unigolyn neu gorff wneud cais am grant o'r gronfa. Ers y dyddiad hwnnw, nid yw cyfranogwyr gwladwriaethol, megis parciau cenedlaethol, bwrdeistrefi neu eu hasiantaethau, wedi bod yn gymwys i gyflwyno ceisiadau. Yn ymarferol, gwneir y rhan fwyaf o geisiadau gan berchnogion tir neu'r rhai sy'n rheoli'r tir lle mae atyniadau i dwristiaid wedi'u lleoli. Fodd bynnag, ceir enghreifftiau o ddefnyddwyr tir eraill yn gwneud ceisiadau. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau ceffylau sy'n awyddus i wella mynediad at lwybrau trecio.
- 6.27 Rhaid i 20% o gostau prosiectau gael ei gyllido gan ymgeiswyr, gyda grantiau o'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd yn talu hyd at 80% o'r costau. Fodd bynnag, gall cyfraniadau ymgeiswyr fod ar ffurf gwasanaethau a brynir, gwaith dylunio, deunyddiau neu gyfraniadau gwaith eraill.
- 6.28 Rhaid i brosiectau gynnwys atyniadau i dwristiaid sy'n hygyrch am ddim i'r cyhoedd a rhaid iddynt ymwneud ag un o bedwar categori, sef:



- Diogelwch twristiaid.
- Gwarchod a datblygu natur.
- Cynnal a diogelu strwythurau a natur.
- Ariannu gwaith paratoi a dylunio sydd ei angen ar gyfer prosiectau o'r fath.

6.29 Mae'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaid yn nodi'n benodol na fydd yn ariannu costau gweithredu (Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ 2016).

6.30 Rhwng 2012 a 2021, ariannwyd ychydig o dan 80 o brosiectau y flwyddyn, ar gyfartaledd, gyda grant o ychydig dros 8 miliwn ISK (tua £47,000), ar gyfartaledd (Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ 2024a). Dengys Tabl 12 y dadansoddiad o'r ffigurau hyn ar gyfer pob blwyddyn. Mae sawl cyrchfan wedi gwneud cais llwyddiannus ar gyfer prosiectau mewn blynyddoedd olynol.

**Tabl 12: Nifer a maint cyfartalog grantiau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaid yn ôl blwyddyn**

<b>Blwyddyn</b>	<b>Nifer y grantiau</b>	<b>Grant cyfartalog, miliwn ISK</b>	<b>Grant cyfartalog, y swm cyfatebol mewn £'000oedd</b>
<b>2012</b>	30	2.30	13.3
<b>2013</b>	124	4.65	26.8
<b>2014</b>	138	4.57	26.4
<b>2015</b>	154	6.65	38.4
<b>2016</b>	76	8.24	47.6
<b>2017</b>	58	10.52	60.7
<b>2018</b>	58	14.18	81.8
<b>2019</b>	40	12.62	72.8
<b>2020</b>	48	14.60	84.3
<b>2021</b>	69	13.46	77.7


Ffynhonnell: Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ (2024d)

6.31 Mae Ffigur 7 yn fap o leoliad y prosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaid rhwng 2012 a 2023.

6.32 Mae'r mwyafrif helaeth o'r prosiectau a ariennir gan y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaid yn cynnwys mynediad at atyniadau naturiol i dwristiaid a diogelu atyniadau o'r fath. Mae prosiectau nodweddiadol yn cynnwys adeiladu llwybrau troed a llwybrau eraill; rampiau mynediad, pontydd a chanllawiau;

llwyfannau gwylio a chlwydi diogelwch; cyfleusterau parcio a thoiledau; arwyddion a hysbysfyrdau.

**Ffigur 7: Lleoliad prosiectau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd 2012-2023**



Ffynhonnell: Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ (2024d)

### **Archwilio ac asesu'r effaith**

- 6.33 Llofnodir contractau manwl rhwng y Weinyddiaeth Dwristiaeth a derbynwyr grant. Mae'r rhain yn cynnwys cymalau cyffredinol, yn ogystal â chymalau penodol sydd wedi'u teilwra at y prosiect.
- 6.34 Fel arfer, mae gan ddeiliaid grant 18 mis i gwblhau'r prosiect, er bod rhywfaint o hyblygrwydd yn hyn o beth.
- 6.35 Fel arfer, mae'n ofynnol i ddeiliaid grant lunio adroddiad ag anfonebau hanner ffordd drwy'r prosiect ac unwaith eto ar ôl iddo gael ei gwblhau. Disgwylir i'r adroddiadau hyn gynnwys ffotograffau er mwyn dangos y gwaith a wnaed. Telir 40% o'r grant ar ôl i'r adroddiad interim gael ei gyflwyno, gyda'r gweddill yn cael ei dalu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno.

6.36 Nid oes unrhyw fecanweithiau ffurfiol eraill ar gyfer asesu effaith y prosiectau hyn.

### **Cynlluniau rheoli cyrchfannau**

6.37 Lansiodd Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ y rhaglen i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau ar ddechrau 2015.

6.38 Mae Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau yn ddatganiadau polisi ar y cyd y bwriedir iddynt lywio'r gwaith o gynyddu a datblygu twristiaeth mewn ardaloedd diffiniedig dros gyfnod penodol o amser. Maent yn diffinio rolau rhanddeiliaid a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau (Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ 2024b).

6.39 Mae cyflwyno Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau wedi arwain at fwy o gydweithredu rhwng Bwrdd Twristiaeth Gwlad yr Iâ ac awdurdodau cynllunio llywodraeth leol mewn perthynas ag amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys rheoli traffig, cynllunio gwaith adeiladu ac addysg dwristiaeth.

6.40 Mae cydlyniaeth â'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau lleol bellach yn faen prawf allweddol wrth asesu ceisiadau arm grant o'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaeth.

6.41 Nododd ein cyfwelai fod cyflwyno Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau yn allweddol i lwyddiant prosiectau'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaeth. Mae'n maentumio bod y cysylltiad rhwng Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau a chyllid y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaidd wedi sicrhau bod blaenoriaethau poblogaethau lleol wedi'u hadlewyrchu yn y prosiectau a ariannwyd a bod hyn wedi bod yn effeithiol wrth helpu i reoli anghydfodau rhwng pobl leol a'r diwydiant twristiaeth.

#### Enghraifft 4: Prosiect yng Ngwlad yr Iâ: Rhaeadr Goðafoss

Mae Goðafoss yn rhaeadr ysblennydd sydd wedi'i lleoli yng ngogledd-ddwyrain



Gwlad yr Iâ.

Cafodd Goðafoss gyfres o grantiau o'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd rhwng 2013 a 2018, y bwriadwyd iddynt wella hygyrchedd a diogelwch yn y cyrchfan, yn ogystal â darparu arwyddion gwella a gwarchod yr amgylchedd naturiol.

Yn 2013, darparodd y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd 5 miliwn ISK (tua £29k) ar gyfer gwaith cynllunio, dylunio a pharatoi ar gyfer adeiladu. Cafodd ragor o grantiau gwerth 15 miliwn ISK (£87k) a 5 miliwn ISK (£29k) yn 2014 a 2015 ar gyfer adeiladu, marcio ac adfer llwybrau.

Dyfarwyd grantiau mwy o faint gwerth 26.8 miliwn ISK (£155k) a 28.8 miliwn ISK (£166k) yn 2016 a 2017 er mwyn cynyddu nifer y lleoedd parcio a'r llwyfannau gwyllo, yn ogystal â datblygu llwybrau heicio ar gyfer diogelwch a chadwraeth natur.

## 7. Jackson Hole, Wyoming, UDA

### Uchafbwyntiau:

- Mae treth dwristiaeth wedi bod ar waith ers 2011.
- Gosodwyd Deddf Daleithiol newydd sy'n llywodraethu'r dreth dwristiaeth yn 2021.
- Y gyfradd dreth yw 5%, y dyrennir 2% ohono'n lleol.
- O fewn y dyraniad hwn, dyrennir 40% i'r Dref a'r Swydd er mwyn lliniaru effeithiau twristiaeth ar seilwaith a gwasanaethau.
- Defnyddir y 60% sy'n weddill gan y bwrdd twristiaeth lleol ar gyfer gweithgarwch marchnata cynaliadwy, addysgu twristiaid am ymddygiad cynaliadwy, partneriaethau cymunedol a digwyddiadau.
- Ni chynhelir unrhyw werthusiad ffurfiol o'r prosiectau gan ddefnyddio'r arian o'r dreth dwristiaeth.
- Fodd bynnag, mae'r bwrdd twristiaeth lleol yn darparu cynlluniau ac adroddiadau blynyddol, y cytunir arnynt ac a gaiff eu goruchwylio gan fwrdd y cyfarwyddwyr a chomisiynwyr y swydd.
- Mae sefydliadau a ariennir gan y bwrdd twristiaeth lleol gan ddefnyddio arian a gafwyd o'r dreth dwristiaeth yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus, gorsaf radio leol, sefydliad bywyd gwylt, cymdeithas hanes ac amgueddfa.

### Twristiaeth yn Jackson Hole

- 7.1 Diffinnir twristiaeth yn Jackson yn bennaf gan dwristiaeth seiliedig ar natur a mynyddoedd. Mae'n borth i Barc Cenedlaethol Grand Teton a Pharc Cenedlaethol Yellowstone.
- 7.2 Yn ystod misoedd yr haf, sy'n ymestyn o fis Mehefin i fis Medi, y mae'r tymor prysur yn Jackson Hole. At hynny, mae'r swydd yn denu cryn nifer o ymwelwyr yn ystod y gaeaf, gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â sgïo a chwaraeon eira eraill yn bennaf.
- 7.3 Rhwng 2016 a 2019, cynyddodd nifer yr ymwelwyr dros nos â'r ardal yn raddol, o 1.67 miliwn i bron i 1.9 miliwn erbyn 2019, gan arwain at fwy na 5

miliwn o nosweithiau ymwelwyr y flwyddyn honno. Fodd bynnag, yn 2020, gwelwyd gostyngiad sylweddol o 21%. Erbyn 2021, roedd nifer y nosweithiau ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol unwaith eto, gan gyrraedd 4.6 miliwn, sy'n cyfrif am tua 90% o'r nosweithiau ymwelwyr a gofnodwyd yn 2019.

- 7.4 Yn 2021, denodd Swydd Teton fwy nag 1.6 miliwn o ymwelwyr dros nos, gan gyfrannu at gyfanswm gwariant o \$1.5 biliwn gan deithwyr. Cynhyrchodd y mewnlifiad hwn o dwristiaeth dderbyniadau treth taleithiol a lleol gwerth \$96.5 miliwn. Ar gyfartaledd, gwariodd ymwelwyr â Jackson Hole tua \$398 y dydd yn ystod misoedd y gaeaf a \$322 y dydd yn ystod misoedd yr haf, gyda'u gwariant dyddiol wedi'i neilltuo'n bennaf ar gyfer treuliau lletya.
- 7.5 Ar hyn o bryd, mae'r sector twristiaeth yn cynnal 7,740 o swyddi yn y swydd, sy'n cyfrif am 22.2% o gyfanswm cyflogaeth Swydd Teton.

**Tabl 13: Nifer yr ymwelwyr dros nos yn Swydd Teton, 2017–2021**

<b>Nifer yr Arosiadau Dros Nos</b>					
	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>	<b>2020</b>	<b>2021</b>
<b>Gwesty, motel, llety gwyliau tymor byr</b>	3,197,000	3,333,720	3,496,670	2,703,970	3,040,590
<b>Cartref preifat</b>	138,000	135,460	137,920	107,940	123,430
<b>Mathau eraill o lety</b>	1,543,000	1,498,770	1,412,470	1,126,450	139,138
<b>Cyfanswm</b>	4,878,000	4,967,950	5,047,050	3,938,360	4,555,390

<b>Nifer y Teithiau gan Bobl</b>					
	<b>2017</b>	<b>2018</b>	<b>2019</b>	<b>2020</b>	<b>2021</b>
<b>Gwesty, motel, llety gwyliau tymor byr</b>	1,107,000	1,154,130	1,210,540	837,140	1,087,290
<b>Cartref preifat</b>	49,000	47,670	48,530	29,020	39,030
<b>Mathau eraill o lety</b>	647,000	632,780	612,070	378,730	558,000
<b>Cyfanswm</b>	1,802,000	1,834,580	1,871,140	1,244,890	1,684,330

Ffynhonnell: Bwrdd Teithio a Thwristiaeth Jackson Hole (2022) [Dolen i ffynhonnell tabl 13 \(Visit Jackson Hole\)](#)

7.6 Er i nifer yr ymwelwyr leihau yn ystod pandemig COVID-19, cofnododd Teton gynnydd mewn enillion o dwristiaeth yn 2021 a 2022 a oedd yn fwy na'r enillion a gofnodwyd yn y cyfnod cyn y pandemig.

**Tabl 14: Effeithiau teithio uniongyrchol ar gyfer Swydd Teton.**

	2013	2014	2015	2016	2017	2018
<b>Gwariant (\$Miliwn)</b>						
Cyfanswm (Cyfredol \$)	910.3	946.7	1,052.6	1,045.0	1,171.6	1,237.4
Arall	34.1	35.2	32.7	31.5	34.8	37.9
Ymwelydd	876.2	911.4	1,019.9	1,013.5	1,136.8	1,199.5
<b>Enillion (\$Miliwn)</b>						
Enillion (Cyfredol \$)	268.0	271.4	309.9	321.4	347.6	377.1
<b>Cyflogaeth (Swyddi)</b>						
Cyflogaeth	8,060	7,740	8,570	8,440	8,790	8,910
<b>Refeniw Treth (\$ Miliwn)</b>						
Cyfanswm (Cyfredol \$)	43.9	46.9	54.0	54.9	61.7	65.0
Lleol	23.9	25.2	28.9	29.9	33.7	35.6
Taleithiol	20.0	21.7	25.1	25.0	27.9	29.4

					<b>Newid Blynyddol Cyfartalog</b>	
	2019	2020	2021	2022	21-22	13-22
<b>Gwariant (\$Miliwn)</b>						
Cyfanswm (Cyfredol \$)	1,277.7	1,048.0	1,562.1	1,653.7	5.9%	6.2%
Arall	39.9	27.6	36.3	43.5	19.7%	2.5%
Ymwelydd	1,237.8	1,020.5	1,525.7	1,610.2	5.5%	6.3%
<b>Enillion (\$Miliwn)</b>						
Enillion (Cyfredol \$)	388.3	335.4	364.5	434.3	19.1%	4.9%
<b>Cyflogaeth (Swyddi)</b>						
Cyflogaeth	8,860	7,000	7,240	7,890	9.1%	0.2%
<b>Refeniw Treth (\$ Miliwn)</b>						

Cyfanswm (Cyfredol \$)	67.3	55.3	95.9	100.6	4.9%	8.6%
Lleol	37.0	30.0	44.3	46.9	5.7%	7.0%
Cyflwr	30.3	25.3	51.6	53.7	4.2%	10.4%

Ffynhonnell: Swyddfa Dwristiaeth Wyoming (2023)

### **Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg**

- 7.7 Yn Jackson Hole, mae'r Dreth Dwristiaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau a bennwyd gan Dalaith Wyoming.
- 7.8 Bu treth dwristiaeth (a elwir yn dreth letya) ar waith yn Wyoming ers blynnyddoedd lawer ac mae rhai newidiadau wedi'u gwneud iddi, a effeithiodd ar Swydd Teton yn 2021.
- 7.9 Cyn 2021, yn Wyoming, gallai trefi, dinasoedd a swyddi ddewis, ar ôl cael cymeradwyaeth pleidleiswyr, godi treth o hyd at 4 y cant ar yr holl lety cysgu tymor byr gan gynnwys llety symudol megis pebyll, ôl-gerbydau a cherbydau gwerysyla ar gyfer gwesteion a oedd yn aros llai na 30 diwrnod.
- 7.10 Cafodd yr arian o'r dreth a gasglwyd, ar ôl didynnu ffi weinyddol daleithiol o 2% yn ystod y flwyddyn gyntaf ac 1% ar ôl hynny, ei ddsbarthu i'r trefi, y dinasoedd a'r swyddi lle y codwyd y dreth.
- 7.11 Ers 1 Ionawr 2021, bu Wyoming yn codi treth letya o 3% ledled y dalaith ar wasanaethau llety a werthwyd. Cafodd y dreth a gesglir ei rhannu, gydag 80% yn cael ei ddyrannu i Gyfrif Twristiaeth Wyoming ac 20% yn cael ei ddyrannu i Gyfrif Twristiaeth wrth Gefn Wyoming.
- 7.12 At hynny, codir treth bellach o 2% ar yr holl swyddi a threfi hynny yn Wyoming lle roedd treth letya eisoes ar waith cyn 2020.
- 7.13 Ar ben y 5% hwn (3% i'r dalaith a 2% i'r swydd/ardaloedd lleol), caiff swyddi neu drefi, drwy etholiad cyhoeddus, osod treth ychwanegol o hyd at 2%.
- 7.14 O ganlyniad, ni all cyfanswm y gyfradd dreth a godir ar wasanaethau mewn unrhyw ran o Wyoming fod yn fwy na 7%.




- 7.15 Dosberthir y 2%, ynghyd ag unrhyw dreth ychwanegol os caiff ei gosod, i bob swydd bob mis mewn cyfrannau cymesur yn seiliedig ar y referniw a gasglwyd yn y swydd a'i bwrdeistrefi. [Dolen i'r ffynhonnell \(Deddfwrfa Wyoming\)](#)

### **Cyfundrefn y dreth llety**

- 7.16 Ailosododd Swydd Teton, lle mae Jackson Hole wedi'i lleoli, y dreth letya yn 2011, yn dilyn cyfnod o 15 mlynedd pan oedd wedi'i dirymu.
- 7.17 Yn 2021, penderfynodd y swydd ddyrannu cyfran fwy o'r dreth o 2% a neilltuwyd ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer gwasanaethau lleol a mynd i'r afael ag effeithiau twristiaeth ar seilwaith a gwasanaethau, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo'r cyrchfan.
- 7.18 Mae deddf y Dreth Letya yn Wyoming yn ei gwneud yn ofynnol i 90% o'r arian a gesglir gael ei neilltuo ar gyfer hyrwyddo, marchnata a chynnal digwyddiadau i wella'r cyrchfan. Cyfeirir y 10% sy'n weddill i gronfa gyffredinol a reolir gan y llywodraeth leol, a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau lleol megis clirio eira ag erydr eira, gwasanaethau tân ac achub ac anghenion cymunedol eraill.
- 7.19 Oherwydd y gweithgarwch twristaidd sylweddol a welir yn Swydd Teton a'r swm sylweddol o referniw treth letya a gesglir, mae strategaeth ddyrannu benodol wedi'i rhoi ar waith.
- 7.20 Cyfeirir 40% o'r cyfanswm a gesglir i'r gronfa gyffredinol a reolir gan y llywodraeth leol tra bod y 60% sy'n weddill yn cael ei neilltuo ar gyfer ymdrechion marchnata a hyrwyddo a oruchwylir gan Fwrdd Teithio a Thwristiaeth Jackson Hole (JHTTB).
- 7.21 Mae JHTTB yn defnyddio'r arian hwn ar gyfer marchnata cyrchfannau, addysgu twristiaid, digwyddiadau a mentrau eraill sy'n cyd-fynd â'r amcanion a nodir yn Statudau Talaith Wyoming sy'n llywodraethu gwariant sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.
- 7.22 Caiff y gyfran o'r dreth a reolir gan Dref Jackson a Swydd Teton, sef 40%, ei neilltuo'n bennaf ar gyfer lliniaru effeithiau twristiaeth ar seilwaith a gwasanaethau.

- 7.23 Bob pedair blynedd, mae'r trigolion lleol yn cael pleidleisio ar y dreth.
- 7.24 Ar hyn o bryd, gosodir y dreth letya ar lety masnachol a sefydliadau rheoli eiddo. Mae Swydd Teton yn ystyried ymestyn y dreth i gynnwys gwsteiwyr preifat, ond mae angen ystyried y fenter hon yn ofalus oherwydd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chasglu treth gan westeiwyr preifat.
- 7.25 Mae'r rhan fwyaf o eiddo preifat eisoes yn cael ei osod ar rent i dwristiaid drwy sefydliadau rheoli eiddo, sy'n hwyluso prosesau casglu treth.
- 7.26 Mae cyfanswm y refeniw ar gyfer JHTTB wedi bod ar gael ers 2018 tra bod refeniw i Swydd Teton a Thref Jackson wedi bod ar gael ers 2021.

**Dengys Ffigur 8 y refeniw blynyddol o'r dreth.**



Ffynhonnell: JHTTB (2020, 2021, 2022, 2023)

**Y defnydd o'r arian**

- 7.27 Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r ffordd y defnyddir yr arian a godir drwy'r dreth letya.
- 7.28 Yn ogystal â nodi canran y cyllid a ddyrennir i gategorïau gwahanol o wariant, mae'r adroddiadau hyn [Dolen i'r adroddiadau \(Visit Jackson Hole\)](#) hefyd yn rhoi disgrifiadau cryno.

- 7.29 Mae'r Dref a'r Swydd yn dyrannu'r arian yn strategol er budd ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.
- 7.30 Yn 2023, defnyddiodd y dref yr arian at y dibenion canlynol:
- a) mentrau yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus (60%, \$1,482,927)
  - b) cefnogi mentrau yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd megis Adran Heddlu Jackson a gwasanaethau addysgol cyffredinol (18%, \$455,231)
  - c) talu'r costau a oedd yn gysylltiedig â chynnal a chadw parciau, toiledau, palmentydd a chyfleusterau yn ardal Jackson sy'n diwallu anghenion ymwelwyr a phobl leol (20%, \$500,000)
  - d) gwella llwybrau lleol ar gyfer gweithgareddau megis beicio, marchogaeth, sgïo Nordig a heicio, ar y ffordd ac oddi ar y ffordd (2%, \$49,518)
- 7.31 Yn 2023, defnyddiodd y Swydd y refeniw o'r dreth letya at y dibenion canlynol:
- a) mentrau yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus (49%, \$1,260,000)
  - b) talu'r costau a oedd yn gysylltiedig â pharciau a chyfleusterau hamdden (14%, \$355,000)
  - c) cefnogi Cymdeithas Hanes ac Amgueddfa Jackson Hole (6%, \$170,000)
  - d) gwasanaethau tân a gwasanaethau meddygol brys (6%, \$150,000)
  - e) cefnogi'r cyrchfan sgïo (3%, \$75,000)
  - f) cronfeydd cyffredinol (22%, \$571,977). Mae'r gronfa gyffredinol hon yn talu costau sy'n gysylltiedig â swyddfa'r siryf, gwasanaethau anfon, llwybrau a phrosiectau eraill y bwriedir iddynt gynnal y seilwaith a diwallu anghenion cymunedol, gan sicrhau manteision i ymwelwyr a thrigolion.
- 7.32 Cydnabu JHTTB, a sefydlwyd yn 2011 er mwyn marchnata a hyrwyddo Jackson Hole fel cyrchfan, fod angen mynd i'r afael ag effeithiau twristiaeth ar seilwaith a gwasanaethau, yn ogystal â phrofiadau ymwelwyr. Mewn ymateb i hyn, ymestynnodd JHTTB ei ffocws y tu hwnt i ymdrechion marchnata traddodiadol er mwyn cynnwys gweithgarwch rheoli ymwelwyr, gan bwysleisio addysg i ymwelwyr a stiwardiaeth cyrchfannau.

- 7.33 Ym mis Ionawr 2023, mabwysiadodd JHTTB (JHTTB, 2003) y Cynllun Rheoli Cyrchfannau Cynaliadwy yn ffurfiol, a ddatblygwyd gan ddefnyddio arian o'r dreth letya. At hynny, sefydlwyd y Cyngor Stiwardiaeth Cyrchfannau yn yr un flwyddyn er mwyn helpu i roi'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau Cynaliadwy ar waith a datblygu arferion cynaliadwy ymhellach yn y gymuned (Cyngor Stiwardiaeth Cyrchfannau, 2023).
- 7.34 Yn 2023, dyrannodd JHTTB yr arian a gafodd o'r dreth letya fel a ganlyn:
- a) marchnata cyrchfannau ac addysgu twristiaid am ymddygiad cynaliadwy (38%, \$3,012,000)
  - b) ariannu digwyddiadau cymunedol (20%, \$1,602,715)
  - c) partneriaeth leol (13%, \$1,004,650)
  - d) Siambr Fasnach Jackson Hole (13%, \$1,037,052)
  - e) Cyfathrebu a chyfryngau lleol (5%, \$374,920)
  - f) Diweddarau'r wefan swyddogol (4%, \$300.080)
  - g) Y Cynllun Marchnata Cyrchfannau Cynaliadwy (3%, \$237,500)
- 7.35 Defnyddir yr arian a ddyrennir i bartneriaethau lleol i gefnogi sefydliadau a chymdeithasau lleol, er enghraifft gorsaf radio gymunedol Jackson, Sefydliad Bywyd Gwylt Jackson Hole a Chynghrair Nordig Jackson Hole.

### **Archwilio ac asesu'r effaith**

- 7.36 Gan fod gweithrediad JHTTB yn seiliedig ar weithgareddau yn hytrach na phrosiectau, ni chynhelir unrhyw asesiad ffurfiol yn seiliedig ar feini prawf penodol.
- 7.37 Serch hynny, gall aelodau'r gymuned wneud cais i gael nawdd gan JHTTB er mwyn trefnu digwyddiadau (ar gyfer 2023 roedd hyn yn cyfrif am 20% o gyfanswm cyllideb JHTTB) wedi'i rannu'n dri chategori (digwyddiadau cymunedol, digwyddiadau mawr, digwyddiadau unigryw).

- 7.38 Dyrennir arian yn seiliedig ar feini prawf penodol (dilynwch y ddolen i weld y rhestr lawn o feini prawf [Dolen i'r rhestr lawn o feini prawf \(4 Jackson Hole\)](#))
- 7.39 Mae digwyddiadau mawr (nawdd yn amrywio o \$5,000 i \$75,000) yn cael eu mesur yn ôl presenoldeb ymwelwyr a llety a gynhyrchir.
- 7.40 Mae digwyddiadau unigryw (nawdd gwerth \$75,000+) yn cael eu mesur yn ôl presenoldeb ymwelwyr, llety a gynhyrchir, argraffiadau o ran marchnata cyrchfannau ac ymdrechion twristiaeth gyfrifol. At hynny, rhaid i'r digwyddiadau hyn sy'n cael eu hystyried ar gyfer cyllid gwerth mwy na \$75,000 gael eu cyflwyno i'r bwrdd llawn er mwyn iddo benderfynu arnynt.
- 7.41 Er mwyn cael nawdd, rhaid i ddigwyddiadau ddangos gwelliannau mesuradwy o flwyddyn i flwyddyn, a rhaid i ddigwyddiadau mawr ac unigryw hefyd ddangos cynnydd yn nifer y bobl o'r tu allan i'r dref sy'n eu mynychu.
- 7.42 Mae'r broses yn dryloyw iawn ac mae adroddiadau blynyddol yn nodi'n fanwl y cyllid a ddefnyddiwyd i noddi digwyddiadau a'r effaith amcangyfrifedig.
- 7.43 O ran y tasgau a gyflawnir gan JHTTB, mae JHTTB yn gweithredu o dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n cydweithio â bwrdd sy'n cynnwys saith aelod a benodir gan y dref a'r swydd, pob un ohonynt yn gwasanaethu am gyfnod o hyd at saith mlynedd.
- 7.44 Cyflwynir gweithgareddau sydd i'w cynnal i'r bwrdd mewn cynllun blynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
- 7.45 Y bwrdd sy'n gyfrifol am benderfyniadau cyllidebol, y mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol, ar y cyd â chontractwyr, yn eu rhoi ar waith yn ddiwyd.
- 7.46 Mae angen dogfennaeth briodol ar gyfer pob gwariant, gyda'r bwrdd yn adolygu derbynebau yn drylwyr ac yn pleidleisio arnynt bob mis, gan sicrhau tryloywder a chydymffurfiaeth â phrotocolau ariannol.
- 7.47 Yn ogystal â'r adolygiadau misol, ym mis Medi neu fis Hydref fel arfer, mae JHTTB yn destun archwiliad ar lefel y dalaith gyfan. Mae tîm penodol o archwilwyr swydd yn archwilio pob derbynneb a thrafodiad yn y sefydliad yn drylwyr, gan sicrhau goruchwyliaeth ac atebolrwydd llwyr.

### **Enghraifft 5: Prosiect yn Jackson Hole: START – Southern Teton Area Rapid Transit**

Mae'r fenter gydweithredol rhwng gwahanol endidau sy'n cael cyllid gan yr Ardoll Ymwelwyr yn dangos ymdrech ar y cyd i gefnogi prosiectau sydd o fudd i'r gymuned leol ac ymwelwyr. Mae'r Swydd, y Dref a JHTTB oll wedi cyfrannu arian i brosiect START o dan swyddogaethau gwahanol.

Mae START (Southern Teton Area Rapid Transit) yn system bysiau cyhoeddus sy'n gwasanaethu Jackson, Wyoming a'r ardaloedd o'i hamgylch, gan gynnwys Teton Village, Star Valley a

Teton Valley, Idaho. Mae START, sy'n eiddo i Dref Jackson ac a weithredir ganddi, yn cael arian gan lywodraeth leol, llywodraeth y swydd a'r llywodraeth ffederal.

Ers iddo gael ei sefydlu yn 1987 fel gwasanaeth bws gwennol i sgiwyr, mae START wedi ymestyn ei wasanaethau i ddarparu cludiant drwy gydol y flwyddyn ar bum llwybr sefydlog i drigolion, cymudwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r gwasanaeth i gymudwyr yn darparu opsiwn fforddiadwy a diogel o ran cludiant i gyflogeion sy'n byw y tu allan i Jackson, sy'n hwyluso'r broses o gymudo i'r gwaith.



At hynny, mae START yn rhedeg gwasanaeth Bws Gwennol yn y Dref sydd ar gael am ddim i ymwelwyr a thrigolion. Mae'r bws gwennol, y mae rheseli beiciau wedi'u gosod arno, yn galluogi beicwyr i gyfuno beicio â thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn darparu mwy o opsiynau o ran symudedd yn ystod eu teithiau. Mae'r ymdrech hon ar y cyd yn pwysleisio'r ymrwymiad i atebion cynaliadwy a hygyrch o ran cludiant yn y gymuned.

Ym Mlwyddyn Ariannol 2023, mae'r Swydd a'r Dref wedi cyfrannu rhan o'u refeniw o'r dreth letya er mwyn cefnogi gwasanaeth START. Dyrannodd y Swydd 49% o'i refeniw o'r dreth letya (\$1,260,000) i START a dyrannodd y Dref 60% (\$1,482,927).

Mae'r cyllid hwn wedi galluogi START i ehangu'r gwasanaethau cludo, gan gynnwys llwybrau newydd yn Nhref Jackson, cysylltiadau rhwng y Dref a Teton Village ac i gyrchfannau eraill. At hynny, mae'r dreth letya yn ariannu gweithrediadau cyffredinol START, sy'n gwasanaethu mwy nag 850,000 o deithwyr bob blwyddyn. Dylid nodi bod gwasanaeth bws gwennol yn cael ei ddarparu am ddim i drigolion ac ymwelwyr o fewn terfynau Tref Jackson.

Mae JHTTB yn cefnogi START ac annog ymddygiad cynaliadwy ymhlith ymwelwyr drwy ymgwrthoddd wedi'u targedu sy'n hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

## 8. Swydd Orange, Fflorida, UDA

### Uchafbwyntiau:

- Cyflwynwyd Treth Datblygu Twristiaeth, y cyfeirir ati hefyd fel 'treth gwelyau', gyntaf yn 1978.
- Mae twristiaeth yn Swydd Orange yn cynhyrchu refeniw gwerth \$75 biliwn ac mae'n cyfrif am tua 24% o gyflogaeth (Swydd Orange 2023a).
- Caiff o leiaf 40% o'r holl refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth a gesglir yn y swydd ei wario ar hyrwyddo a hysbysebu twristiaeth.
- Telir hyd at 70% o gost y cyfleusterau cyhoeddus arfaethedig gan ddefnyddio refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth.
- Dengys dadansoddiad proffesiynol annibynnol effaith gadarnhaol y prosiect seilwaith ar fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn y swydd.

8.1 Mae Swydd Orange wedi'i lleoli yn ardal fetropolitanidd Orlando yng Nghanol Fflorida yn Unol Daleithiau America.

### Twristiaeth yn Swydd Orange


8.2 Mae Swydd Orange yn gartref i'r clwstwr enwocaf o barciau thema yn y byd, gan gynnwys 'Walt Disney World Resort', 'Seaworld' ac 'Universal Studios'.

Ynnddi hefyd ceir canolfan gynadledda fawr a sawl arena chwaraeon sy'n denu cryn nifer o ymwelwyr.

- 8.3 Mae twristiaeth yn Swydd Orange yn cynhyrchu refeniw gwerth \$75 biliwn ac mae'n cyfrif am tua 24% o gyflogaeth (Swydd Orange 2023a).
- 8.4 Er bod y dreth datblygu twristiaeth dan reolaeth Swyddi, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o gydgysylltu twristiaeth yn cael ei wneud ar lefel ardal fetropolitanidd Orlando. Er enghraifft, mae Visit Orlando, sef y Swyddfa Dwristiaeth Swyddogol ar gyfer yr ardal, yn gweithredu ar draws pob un o'r tair Swydd sy'n ffurfio Ardal Fetropolitanidd Orlando. Y swyddi hyn yw Swydd Orange (poblogaeth 1,429,908 yn ôl cyfrifiad 2020), Swydd Osceola (poblogaeth 388,656) a Swydd Seminole (poblogaeth 470,856). Felly, cesglir y rhan fwyaf o ystadegau twristiaeth ar lefel ardal gyfan Orlando.
- 8.5 Dengys Ffigur 9 nifer y twristiaid a ymwelodd ag Orlando bob blwyddyn rhwng 2018 a 2022. Yn 2018 a 2019, roedd nifer yr ymwelwyr yn agos i 75 miliwn. Yn ystod pandemig COVID-19, hanerodd nifer yr ymwelwyr yn 2020 a gwnaethant gynyddu unwaith eto i bron i 80% o'r llinell sylfaen cyn y pandemig yn 2021. Yn 2022, roedd nifer yr ymwelwyr wedi cyrraedd eu lefel cyn pandemig COVID-19, fwy neu lai. Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r defnydd cymharol gyfyngedig o gyfyngiadau symud yn Fflorida, ac yn Swydd Orange yn arbennig, yn ystod y pandemig.



**Ffigur 9: Nifer y twristiaid a ymwelodd ag Ardal Fetropolitanidd Orlando yn ôl blwyddyn**



Ffynhonnell: Visit Orlando (2023).

- 8.6 Daw'r rhan fwyaf o ymwelwyr ag Orlando o'r tu fewn i'r Unol Daleithiau. Roedd twristiaid rhyngwladol yn cyfrif am lai na 7% o ymwelwyr yn 2022. O blith y twristiaid rhyngwladol hyn, daeth ychydig dros hanner o wledydd eraill Gogledd a De America a daeth ychydig o dan draean o Ewrop. Nodir y prif wledydd gwreiddiol yn Nhabl 15.
- 8.7 Cyfanswm yr ystafelloedd gwesty yn Orlando ar ddiwedd 2022 oedd 129,454. Y gyfradd ddeiliadaeth ar gyfer y flwyddyn oedd 73.7%, ar gyfartaledd a'r gyfradd ddyddiol oedd \$186.49, ar gyfartaledd (Visit Orlando 2024).

**Tabl 15: Ymwelwyr ag Ardal Fetropolitanadd Orlando yn ôl cenedligrwydd, 2022**

UDA	93.38%
Canada	1.16%
Y DU	1.09%
Brasil	0.78%
Mecsico	0.53%
Colombia	0.39%
Yr Ariannin	0.16%
Yr Almaen	0.14%
Eraill	2.38%

Ffynhonnell: Visit Orlando (2023).

### **Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg**

- 8.8 Cyflwynwyd Treth Datblygu Twristiaeth Swydd Orange, y cyfeirir ati ar lafar fel y “dreth gwelyau”, ym mis Mai 1978 fel treth o 2% ar arosiadau mewn gwestai a mathau eraill o lety gwyliau tymor byr sy'n para am lai na chwe mis.
- 8.9 Cynyddwyd y gyfradd wedi hynny i 3% yn 1987, 4% yn 1990, 5% yn 1995 ac, yn olaf, 6% yn 2007.
- 8.10 Roedd y broses o gasglu'r dreth datblygu twristiaeth yn cael ei gweinyddu i ddechrau gan Dalaith Fflorida ond mae pob agwedd ar y dreth wedi bod yn cael ei gweinyddu'n lleol ers 1992.

### **Cyfundrefn y dreth datblygu twristiaeth**

- 8.11 Mae Statud 125.0104 Fflorida (Deddfwrfa Fflorida 2023) yn darparu'r sail gyfreithiol dros y dreth datblygu twristiaeth ledled y dalaith. Mae'n galluogi Swyddi yn Fflorida i godi treth ar arosiadau dros nos mewn llety twristiaid ar hyd at 6% o'r swm a delir am yr arhosiad.
- 8.12 Mae'r Statud yn darparu amodau cymhleth ar gyfer codi'r dreth a gwario'r refeniw a godir. Caiff Swydd osod treth o 1% neu 2% yn ôl disgresiwn ei chorff llywodraethu. Gellir cynyddu'r dreth i 3% os cytunir ar hynny drwy refferendwm.
- 8.13 Gellir codi pedwaredd sent yn y ddoler os cytunir ar hynny drwy refferendwm, ar yr amod bod y refeniw a godir o'r gyfran ychwanegol hon yn cael ei

ddefnyddio i dalu dyledion ar fondiau sy'n ymwneud â thwristiaeth, gweithredu canolfan gynadledda neu hyrwyddo a hysbysebu twristiaeth.

- 8.14 Gellir codi pumed sent yn y ddoler, os cytunir ar hynny drwy refferendwm, mewn swyddi y mae twristiaeth yn cael effaith sylweddol arnynt.
- 8.15 Gellir codi chweched sent yn y ddoler, os cytunir ar hynny drwy refferendwm, er mwyn cyllido bondiau sy'n ymwneud â masnachfreintiau chwaraeon proffesiynol neu hyrwyddo a hysbysebu twristiaeth yn Fflorida.
- 8.16 Mae Swydd Orange wedi bodloni'r amodau er mwyn codi treth datblygu twristiaeth ar chwe sent yn y ddoler.
- 8.17 Ymhellach i'r cyfyngiadau a restrir uchod ynglŷn â sut y caiff refeniw ei wario, mae'r Statud yn cynnwys llu o gyfyngiadau eraill sy'n nodi sut y gellir gwario unrhyw refeniw. Yn fras, caniateir gwariant ar hyrwyddo twristiaeth yn ogystal â gwariant ar asedau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth megis canolfannau cynadledda, stadia/arenâu chwaraeon, awdatoria a pharciau sŵolegol.
- 8.18 Caniateir gwariant ar seilwaith sy'n fwy ymylol i'r diwydiant twristiaeth o dan amgylchiadau penodol. Ymhlith y cyfyngiadau perthnasol mae'r canlynol:
- Caiff o leiaf 40% o'r holl refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth a gesglir yn y swydd ei wario ar hyrwyddo a hysbysebu twristiaeth.
  - Telir hyd at 70% o gost y cyfleusterau cyhoeddus arfaethedig gan ddefnyddio refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth.
  - Dengys dadansoddiad proffesiynol annibynnol effaith gadarnhaol y prosiect seilwaith ar fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn y swydd.
- 8.19 Mae'r Statud yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Swydd sydd am godi treth datblygu twristiaeth roi Cynllun Datblygu Twristiaeth ar waith, a fydd yn cynnwys "the approximate cost or expense allocation for each specific project or special use".
- 8.20 Rhaid i'r Swydd sefydlu Cronfa Ymddiriedolaeth Datblygu Twristiaeth y rhoddir refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth ynddi.

8.21 Rhaid i'r Swydd sefydlu Cyngor Datblygu Twristiaeth er mwyn goruchwyllo materion yn ymwneud â'r dreth datblygu twristiaeth, gan gynnwys talu arian allan o'r Gronfa Ymddiriedolaeth Datblygu Twristiaeth. Mae'r Statud yn rhagnodi bod y Cyngor yn cynnwys naw aelod: un o gorff llywodraethu'r swydd, dau swyddog trefol etholedig a chwe unigolyn sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth.


### **Refeniw'r dreth datblygu twristiaeth**

8.22 Refeniw'r dreth datblygu twristiaeth yn Swydd Orange ym mlwyddyn gyllidol 2022-23 oedd \$359 miliwn. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 6.8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a chynnydd o 26.5% o gymharu â'r uchafswm cyn pandemig COVID-19 ym mlwyddyn gyllidol 2018-19.

8.23 Roedd y dreth datblygu twristiaeth yn cyfrif am ryw 11% o refeniw Swydd Orange yn 2022-23.

8.24 Dangosir y refeniw a godwyd ers 1992 yn Ffigur 10 ac mae tuedd gref at i fyny i'w gweld dros amser er gwaethaf gostyngiadau amlwg mewn refeniw yn dilyn ymosodiadau 9/11 a'r Argyfwng Ariannol Byd-eang ac yn ystod pandemig COVID-19.

**Ffigur 10: Refeniw treth datblygu twristiaeth Swydd Orange, blynyddoedd cyllidol 1992-93 i 2022-23, \$miliwn.**



Ffynhonnell: Archwiliwr Swydd Orange

### **Cyngor Datblygu Twristiaeth Swydd Orange**

- 8.25 Mae Statudau Fflorida yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddi sy'n rhoi treth datblygu twristiaeth ar waith benodi Cyngor Datblygu Twristiaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff cyfundrefn y dreth datblygu twristiaeth ei gweithredu.
- 8.26 Mae'r Statudau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnwys naw aelod. Dynodir un aelod gan gadeirydd bwrdd llywodraethu'r Swydd. Rhaid i ddau aelod fod yn swyddog trefol etholedig. Dewisir chwe aelod arall y cyngor o blith unigolion sy'n ymwneud â'r diwydiant twristiaeth ac sydd wedi dangos diddordeb ym maes datblygu twristiaeth. Mae'r aelodau yn gwasanaethu am gyfnodau o bedair blynedd sy'n dechrau ar wahanol adegau. Rhestrir aelodau Cyngor Datblygu Twristiaeth Swydd Orange ym mis Gorffennaf 2023 yn Nhabl 16, ynghyd â'u priod rolau.

**Tabl 16: Aelodau Cyngor Datblygu Twristiaeth Swydd Orange, Gorffennaf 2023**

Jerry L. Demings	Maer Swydd Orange
Buddy Dyer	Maer Dinas Orlando
Angie Gardner	Tref Eatonville Mayor
David Bartek	Is-lywydd Hŷn Gweithrediadau, Loews Hotels at Universal Orlando
Jodi Bainter	Cyfarwyddwr, Gwerthiannau Canol Fflorida, Walt Disney World
Jonathan 'Jon' McGavin	Rheolwr Ardal, Grande Lakes Orlando
Jesse Martinez	Rheolwr Cyffredinol, The Alford Inn at Rollins
John Stine	Llywydd, President, Cyngorwyr Lletygarwch Canol Fflorida
Charles J. Hawkins, II, P.A.	Atwrnai a Bargyfreithiwr

*Ffynhonnell: Cofnodion drafft Cyngor Datblygu Twristiaeth Swydd Orange, 18 Gorffennaf 2023.*

8.27 Mae cofnodion y Cyngor Datblygu Twristiaeth yn agored i'r cyhoedd ac fe'u cyhoeddir ar-lein yn [Dolen i'r Cyfarfodydd \(Net Apps\)](#).

8.28 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am lunio Cynllun Datblygu Twristiaeth a'i ddiwygio'n rheolaidd ac am oruchwylio'r ffordd y caiff ei roi ar waith.

### **Cynllun Datblygu Twristiaeth Swydd Orange**

8.29 Rhoddwyd Cynllun Datblygu Twristiaeth Swydd Orange ar waith gyntaf pan gyflwynwyd y dreth datblygu twristiaeth yn 1978. Ers hynny, mae wedi'i ddiwygio deirgwaith. Cynigiwyd pedwerydd diwygiad arfaethedig i'r cynllun yn ystod cyfarfod mwyaf diweddar y Cyngor Datblygu Twristiaeth ym mis Hydref 2023 ac mae wrthi'n cael ei roi ar waith. Pan gaiff y diwygiad hwn ei ymgorffori, bydd y Cynllun yn nodi 12 o flaenoriaethau ar gyfer y defnydd o refferniw'r dreth datblygu twristiaeth. Crynhoir y blaenoriaethau hyn yn Nhabl 17.

**Tabl 17: Blaenoriaethau gwario'r Cynllun Datblygu Twristiaeth**

Blaenoriaethau 1-3	Canolfan Gynadledda Swydd Orange: (1) Costau gweithrediadau, gwaith cynnal a chadw a gweithgarwch hyrwyddo. (2) Talu dyledion ar fondiau sy'n gysylltiedig â chostau cyfalaf. (3) Costau pellach, gan gynnwys gwelliannau a gwaith adnewyddu cyfalaf.
Blaenoriaeth 4	"Visit Orlando", cymdeithas dwristiaeth swyddogol Orlando.
Blaenoriaeth 5	United Arts of Central Florida, Inc.

Blaenoriaeth 6	Canolfan Hanes Rhanbarthol Swydd Orange.
Blaenoriaeth 7 a 10	Stadiwm pêl-droed Citrus Bowl Camping World.
Blaenoriaethau 8-9	Cynnal digwyddiadau chwaraeon ac athletau.
Blaenoriaeth 11	Prosiectau a digwyddiadau cyfalaf a gaiff eu hawdurdodi yn unol â phroses gwneud cais a gwerthuso.
Blaenoriaeth 12	Chwaraeon Prifysgol Canol Fflorida.

Ffynhonnell: *Visit Orlando (2023)*.

8.30 Mae dogfennau a luniwyd yn ystod y broses o gynnig y Cynllun diweddaraf yn darparu rhagolwg ar gyfer gwario refeniw'r dreth datblygu twristiaeth yn 2027. Fe'u dangosir yn Nhabl 18.

**Tabl 18: Y defnydd a wneir o'r dreth datblygu twristiaeth yn 2027 o dan gynnig Maer Demings, \$ miliwn.**

Talu Dyledion (sy'n ymwneud â'r Ganolfan Gynadledda)	114.0
Cyfalaf y Ganolfan Gynadledda	60.0
Gweithrediadau'r Ganolfan Gynadledda (dim ond pan fo angen)	15.0
Cyllido Visit Orlando	105.0
Cronfa Gymhelliant Chwaraeon (a weinyddir gan Visit Orlando)	4.5
Pwyllgor Adolygu Ceisiadau	15.0
Celfyddydau	14.0
Y Ganolfan Hanes ac Arall	5.0
Stadiwm Amway (a weinyddir gan Faer Orlando)	29.0
<b>CYFANSWM</b>	<b>361.5</b>

Ffynhonnell: Swydd Orange (2023b).

- 8.31 Pan roddwyd y dreth datblygu twristiaeth ar waith gyntaf yn 1978, bwriadwyd iddi ariannu taliadau dyled ar gyfer adeiladu Canolfan Gynadledda Swydd Orange yn bennaf. Mae'r Ganolfan Gynadledda yn parhau i gyfrif am dros hanner y refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth yn y rhagolwg ar gyfer 2027. Gweler Blwch 1 am ragor o fanylion am y Ganolfan Gynadledda.
- 8.32 Caiff 30% arall o'r dreth datblygu twristiaeth ei neilltuo ar gyfer ariannu gweithgarwch marchnata a hyrwyddo twristiaeth drwy "Visit Orlando", sef y gymdeithas dwristiaeth swyddogol ar gyfer Ardal Fetropolitanidd Orlando.
- 8.33 Yn hanesyddol, mae'r gwaith o adeiladu ac adnewyddu stadia ac arenâu chwaraeon, yn arbennig stadiwm pêl-droed Citrus Bowl Camping World ac

arena dan do Amway, wedi cyfrif am gyfrannau sylweddol o refeniw'r dreth datblygu twristiaeth. Dengys y rhagolwg ar gyfer 2027 fod 8% o'r refeniw wedi'i gyfeirio at Stadiwm Amway, sy'n gartref i dimau pêl fasedged a hoci iâ.

- 8.34 Caiff gweddill refeniw'r dreth datblygu twristiaeth ei ddsbarthu drwy dair proses grant. Nod y Gronfa Gymhelliant Chwaraeon, a weinyddir gan Visit Orlando, yw denu digwyddiadau chwaraeon pwysig i ardal Orlando. Mae sefydliad Celfyddydau a Materion Diwylliannol Swydd Orange yn rhoi grantiau gwerth rhwng \$600,000 a \$2 filiwn i sefydliadau celfyddydol a diwylliannol. Yn olaf, mae Pwyllgor Adolygu Ceisiadau'r Dreth Datblygu Twristiaeth yn rhoi grantiau gwerth hyd at \$20 miliwn (dros sawl blwyddyn) i amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid, sy'n cyfrif am ryw 4% o refeniw'r dreth datblygu twristiaeth ar gyfer 2027.

### **Gweithlu Cynghori Dinasyddion y Dreth Datblygu Twristiaeth**

- 8.35 Ffurfiodd Maer Swydd Orange, Jerry Demings, Weithlu Cynghori Dinasyddion y Dreth Datblygu Twristiaeth yn 2023 er mwyn adolygu'r defnydd o refeniw'r dreth a darparu mewnbwn i Fwrdd Comisiynwyr y Swydd a'r Cyngor Datblygu Twristiaeth ynglŷn â'r defnydd y gellid ei wneud ohono yn y dyfodol. Nid oedd ei gylch gwaith yn cwmpasu refeniw a oedd eisoes wedi'i addo i'r Ganolfan Gynadledda, Visit Orlando ac ymrwymadau hirdymor eraill.
- 8.36 Roedd y 31 o aelodau'r Tasglu yn cynnwys cynrychiolwyr y Swydd, bwrdeistrefi yn y Swydd, undebau llafur, busnesau a grwpiau diwylliannol.
- 8.37 Adolygodd y Tasglu geisiadau am gyllid drwy'r tair proses grant a drafodwyd ym mharagraff 8.34, a gwnaeth argymhellion i'r Cyngor Datblygu Twristiaeth ynghylch yr 11 o geisiadau a gafwyd. Cafodd prosiectau eu sgorio yn seiliedig ar feini prawf a oedd yn rhoi pwyslais ar ehangu twristiaeth, cadernid prosiectau a'r enillion disgwylidig o fuddsoddiad (gweler Swydd Orange, 2023a, tud.17, am fanylion y meini prawf).
- 8.38 Trafododd y Tasglu gyd-destun ehangach y dreth datblygu twristiaeth hefyd yn ei gyfarfod olaf. Mae Adroddiad y Tasglu yn rhoi crynodeb thematig o'r trafodaethau hyn (Swydd Orange 2023a).



- 8.39 O blith y 33 o sylwadau a nodwyd, mae 17 yn cyfeirio at ddefnyddiau amgen ar gyfer cyllid y dreth datblygu twristiaeth. Mae llawer o'r sylwadau hyn yn beirniadu cwmpas cul prosiectau a ariennir gan y dreth datblygu twristiaeth, a hynny'n glir neu'n ymhlyg. Er enghraifft, mae un aelod yn dadlau "Florida is alone in restricting use of hotel taxes in this way. Our residents are bearing the burden of a wonderfully large number of area tourists, yet we cannot use TDT funds to offset those burdens."
- 8.40 Mae sawl sylw arall yn awgrymu defnyddiau amgen ar gyfer cyllid y dreth datblygu twristiaeth, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â'r dreth datblygu twristiaeth na Chynllun Datblygu Twristiaeth Swydd Orange. Mae'r rhain yn cynnwys galwadau am wariant ar drafnidiaeth gyhoeddus (pum sylw) a thai fforddiadwy i weithwyr (tri sylw).

#### **Archwilio ac asesu'r effaith**

- 8.41 Mae gan Swydd Orange adran archwilio, sy'n cynnwys 24 o aelodau o staff, sy'n gyfrifol am archwilio gwariant y Swydd yn gyffredinol. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod sefydliadau allanol yn cydymffurfio â chontractau a chytundebau y mae Swydd Orange yn barti ynddynt, gan gynnwys y cytundeb â Visit Orlando a'r gwahanol gontractau cyllido a ariennir gan refeniw'r dreth datblygu twristiaeth.
- 8.42 Nid oes unrhyw ofynion ffurfiol o ran cynnal asesiadau effaith. Fodd bynnag, caiff y mwyafrif helaeth o refeniw'r dreth datblygu twristiaeth ei wario ar gynlluniau cylchol. Mae hyn yn wir am y Ganolfan Gynadledda, ond mae hefyd yn wir am lawer o'r prosiectau llai o faint a ariennir. Felly, mae ceisiadau dilynol yn aml yn darparu tystiolaeth o asesiadau effaith nad oedd angen eu cynnal o reidwydd. Er enghraifft, mae achos y Ganolfan Gynadledda dros gyllido Cam 5 yn gwneud yn fawr o effaith economaidd amcangyfrifedig y Ganolfan.

### **Enghraifft 6: Prosiect yn Swydd Orange, Fflorida: canolfan gynadledda**

Agorodd Ganolfan Gynadledda a Dinesig Swydd Orange, fel y'i gelwid gynt, ym mis Chwefror 1983. Costiodd \$54 miliwn i'w hadeiladu, a ariannwyd gan fondiau y bwriadwyd iddynt gael eu cyllido dros gyfnod o 30 mlynedd gan refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth.

Dechreuodd ail gam adeiladu yn 1987, a alluogwyd gan y cynnydd yn y dreth datblygu twristiaeth yn y flwyddyn honno o 2% i 3%. Ariannodd cynnydd pellach yn y dreth datblygu twristiaeth i 4% yn 1990 dri cham adeiladu pellach, a ychwanegodd fwy o le ar gyfer arddangosfeydd a chyfarfodydd. Roedd y cynnydd yn y dreth datblygu twristiaeth i 5% yn 1995 wedi'i gwneud yn bosibl i waith cynllunio ar gyfer adeilad ynghlwm wrth y ganolfan gynadledda fynd yn ei flaen, a oedd wedi bron â dyblu maint y ganolfan. Cwblhawyd y gwaith o adeiladu'r "Adeilad yn Ymestyn o'r Gogledd i'r De" yn 2003.

Cytunwyd ar gynlluniau ar gyfer ehangu'r ganolfan ymhellach yn 2019, ond fe'u hataliwyd dros dro pan drawodd pandemig COVID-19 yn ystod gwanwyn 2020 oherwydd y diffyg mewn refeniw o'r dreth datblygu twristiaeth y bwriadwyd iddo ariannu'r gwaith ehangu (Bilbao 2020). Yn 2023, cymeradwyodd y Cyngor Datblygu



Twristiaeth y cynllun ehangu 'Cam 5A' hwn am gost o \$560 miliwn.

Ar hyn o bryd, y Ganolfan Gynadledda yw'r drydedd fwyaf yn UDA. Ym mlwyddyn gyllidol 2022-23, cynhaliodd y Ganolfan Gynadledda 159 o ddigwyddiadau, a ddenodd gyfanswm o 1.5 miliwn o unigolion. Amcangyfrifwyd mai effaith economaidd gyfunol y digwyddiadau hyn oedd \$2.8 biliwn (Moran 2023).

## 9. De Tyrol

### Uchafbwyntiau:

- Cyflwynwyd Tref Dwristiaeth Drefol yn 2014.
- Cedwir 70% o refeniw'r dreth mewn bwrdeistrefi i'w wario yn lleol gyda 30% yn cael ei drosglwyddo i'r lefel ranbarthol ar gyfer marchnata De Tyrol fel cyrchfan i dwristiaid.
- Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant mewn sawl bwrdeistref yn Ne Tyrol, gan gynnwys bwrdeistrefi Mareo a San Martin de Tor. Mae gan fwrdeistrefi eraill megis Bruneck-Brunico economïau mwy cymysg.
- Caiff refeniw a gedwir yn lleol ei neilltuo i Gymdeithasau Twristiaeth neu Gwmnïau Twristiaeth Cydweithredol lleol sy'n pennu'r blaenoriaethau o ran gwariant. Yn y rhan fwyaf o fwrdeistrefi, mae'n rhain yn cynnwys marchnata, rhedeg swyddfeydd gwybodaeth i dwristiaid a chynnal digwyddiadau. Mewn rhai bwrdeistrefi, mae hyn hefyd yn ymestyn i gynnwys gwariant ar seilwaith twristiaeth a datblygu cynhyrchion.

9.1 De Tyrol yw talaith fwyaf gogleddol yr Eidal. Rhoddwyd 'Statws Ymreolaethol' iddo yn 1972, yn dilyn cytuniad a luniwyd rhwng Awstria a'r Eidal er mwyn ceisio lleihau tensiynau yn y rhanbarth. Mae'r statws hwn yn rhoi cryn dipyn o hunanlywodraeth i'r rhanbarth ac yn ei alluogi i gadw bron i 90% o'r holl drethi a godir.

### Hanes y dreth dwristiaeth a throsolwg

9.2 Ers 2011, mae cyfraith yr Eidal wedi caniatáu i ranbarthau a thaleithiau ymreolaethol reoleiddio treth dwristiaeth ar leol drefol.

9.3 Wedi hynny, deddfodd llywodraeth De Tyrol ar gyfer Treth Dwristiaeth Drefol o 1 Ionawr 2014 (De Tyrol 2012).<sup>2</sup>

<sup>2</sup> Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer Treth Dwristiaeth Daleithiol. Fodd bynnag, telir y dreth hon gan fusnesau sy'n gweithredu yn y sector twristiaeth, gan gynnwys

## **Cyfundrefn y dreth llety**

- 9.4 Telir y Dreth Dwristiaeth Drefol gan y rhai sy'n aros dros nos mewn sefydliadau llety yn Ne Tyrol, gan gynnwys gwestai, llety gwyliau tymor byr a sefydliadau amaeth-dwristiaeth (ibid.).
- 9.5 Mae'r ddeddfwriaeth yn rhagweld cyfraddau treth amrywiol yn seiliedig ar y math o lety. Dros y blynyddoedd, mae'r cyfraddau wedi cynyddu ac yn 2024 mae'r cyfraddau ar gyfer ymwelwyr dros nos yn amrywio o €1.50 i €3.50 y pen y noson, er bod plant dan 14 oed a staff sefydliadau yn esempt.
- 9.6 Yn 2023, cyflwynodd deddfwriaeth y posibilrwydd i fwrdeistrefi gyflwyno toll leol ychwanegol, ar gyfradd o hyd at €5.00 y pen y noson ar gyfer ymwelwyr dros nos.
- 9.7 Mae'r ddeddfwriaeth yn neilltuo'r refeniw a godir o'r Dreth Dwristiaeth Drefol i sefydliadau twristiaeth lleol cofrestredig. Fodd bynnag, mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gweithredu neilltuo cyfran ddiffiniedig o refeniw'r dreth at gyfer marchnata cyrchfannau i'r sefydliad taleithiol cymwys ar gyfer hyrwyddo twristiaeth (ibid.).
- 9.8 Yn 2012, gwnaeth y ddeddfwriaeth hefyd reoleiddio'r posibilrwydd i sefydliadau twristiaeth lleol ailstrwythuro cymdeithasau twristiaeth neu gwmnïau twristiaeth cydweithredol ac, yn achos bwrdeistrefi â galwedigaeth isel o ran twristiaeth, gall bwrdeistrefi cyfagos ymglyfuno o dan un gymdeithas neu gwmni cydweithredol.
- 9.9 Neilltuir 70% o refeniw'r dreth i'r Cymdeithasau Twristiaeth neu'r Cwmnïau Twristiaeth Cydweithredol lleol a neilltuir y 30% o'r refeniw sy'n weddill i IDM<sup>3</sup>, sef yr asiantaeth gyhoeddus sy'n gyfrifol am ddatblygu'r economi a busnes yn Ne Tyrol, y mae ei chylch gwaith yn cynnwys marchnata De Tyrol fel cyrchfan i dwristiaid.

---

gweithredwyr cyhoeddus, rheolwyr llethrau neu lifftiau sgïo, ysgolion sgïo ac eirafyrddio, masnachwyr mewn cyrchfannau i dwristiaid, gweithredwyr twristiaeth ar lefel daleithiol a hurwyr cyfarpar chwaraeon. Felly, mae'r dreth hon y tu allan i gwmpas yr astudiaeth bresennol.

<sup>3</sup> Ystyr y talfyriad IDM yn Saesneg yw 'Innovation Development Marketing' (sef Arloesi Datblygu Marchnata).

- 9.10 Darparwyr llety sy'n gyfrifol am gasglu'r dreth gan eu hymwelwyr a throsglwyddo'r arian i'r Fwrdeistref berthnasol. Yna, mae'r Bwrdeistrefi yn dosbarthu'r arian i'r IDM, y Gymdeithas Dwristiaeth leol neu'r Cwmni Twristiaeth Cydweithredol lleol.
- 9.11 O ystyried natur leol iawn cyfundrefn y Dreth Dwristiaeth Drefol yn Ne Tyrol, mae gweddill y bennod hon yn canolbwyntio ar ddwy ardal gyfagos yng ngogledd y rhanbarth, y mae amgylchiadau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd y naill a'r llall yn wahanol iawn. Mae Mareo a San Martin de Tor yn cynnwys cymunedau gwledig wedi'u lleoli yn uchel yn y mynyddoedd sy'n siarad Ladineg yn bennaf, lle mai twristiaeth yw'r prif ddiwydiant. Mae bwrdeistref gyfagos Bruneck-Brunico yn cynnwys y dref fwyaf yn Nyffryn Puster, gydag economi gymysg ac mae'r boblogaeth yn siarad Almaeneg yn bennaf, gyda lleiafrif sylweddol sy'n siarad Eidaleg.

### **Twristiaeth ym Mareo a San Martin de Tor**

- 9.12 Mae Mareo a San Martin yn fwrdeistrefi yn Ne Tyrol ac maent yn cynnwys rhannau helaeth o ardal sgïo Plan de Corones a pharc naturiol Fanes-Sennes a Braies.
- 9.13 Yn y gaeaf, mae sgïo alpau a Nordig yn atyniad mawr i ymwelwyr. Yn yr haf, caiff pentrefi'r ardal eu marchnata fel porth i'r mynyddoedd anghysbell i'r de tra bod seilwaith Plan de Corones yn rhoi mynediad i ardal wyliau helaeth a llwybrau heicio a beicio mynydd.
- 9.14 Mae Mareo a San Martin de Tor yn fwrdeistrefi cyfagos lle y siaredir Ladineg yn Nyffryn Badia yn Ne Tyrol. Yr enw Almaeneg ar Mareo yw Enneberg a'r enw Eidaleg arni yw Marebbe. Yr enw Almaeneg ar San Martin de Dor yw St. Martin in Thurn a'r enw Eidaleg arni yw San Martino in Badia.
- 9.15 Poblogaeth y ddwy fwrdeistref gyda'i gilydd oedd 4,920 ar ddiwedd 2022 (ASTAT 2024a).
- 9.16 Yng nghyfrifiad 2011, nododd 92.1% o boblogaeth Mareo a 96.7% o boblogaeth San Martin mai Ladineg oedd eu hiaith gyntaf (ASTAT 2012).


Mae'r trigolion yn y ddwy fwrdeistref hyn yn cyfrif am bron i 10% o'r holl siaradwyr Ladineg yn yr Eidal.<sup>4</sup> Cydnabyddir yr iaith Ladineg fel iaith leiafrifedig mewn cyfanswm o 54 o fwrdeistrefi yng ngogledd-ddwyrain yr Eidal (Cyngor Ewrop 2004).

- 9.17 Mae safle treftadaeth naturiol y Dolomitau, sy'n un o safleoedd treftadaeth UNESCO, yn ymestyn i mewn i'r ddwy fwrdeistref, gan gwmpasu llawer o'r ardaloedd y tu allan i'r prif bentrefi.
- 9.18 Mae prif bentrefi Al Plan (San Vigilio yn Eidaleg) a San Martin 1,100m and 1,300m uwchben lefel y môr, gyda'r copa uchaf, sef Piz dles Cunturines, yn cyrraedd 3,064m.
- 9.19 Mae nifer yr arosiadau dros nos wedi cynyddu'n raddol ym Mareo a San Martin dros y degawdau diwethaf. Yn 2023, arhosodd ymwelwyr am gyfanswm o 871,571 o nosweithiau, sef cynnydd o 68.5% o gymharu â'r ffigur ar gyfer 1993. Dangosir y data ar gyfer cyfanswm yr arosiadau dros nos ers 1990 yn Ffigur 11.

---

<sup>4</sup>Yng nghyfrifiad 2011, roedd 2,914 o siaradwyr Ladineg ym Mareo a 1,733 yn San Martin o gyfanswm o 20,548 yn nhalaith gyfan De Tyrol (ASTAT 2012). Roedd 18,550 o siaradwyr Ladineg yn nhalaith Trentino hefyd. Nid yw talaith Veneto yn gofyn i drigolion nodi eu hiaith frodorol yn y cyfrifiad cyffredinol o'r boblogaeth, sy'n golygu bod amcangyfrifon manwl gywir o gyfanswm y siaradwyr Ladineg yn yr Eidal yn ddadleuol.

**Ffigur 11: Nifer yr arosiadau dros nos gan ymwelwyr ym Mareo a San Martin yn ôl blwyddyn**



Ffynhonnell: ASTAT (2024b).

- 9.20 Mae effaith pandemig COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth yn yr ardal hon yn glir yn y data ac ymddengys fod yr effeithiau wedi'u cyfyngu i 2020 a 2021 a misoedd y gaeaf yn unig.
- 9.21 Daw bron i hanner yr ymwelwyr o ardaloedd eraill ledled yr Eidal a daw chwarter arall o wledydd Germanig cyfagos. Mae Tabl 19 yn rhoi trosolwg o darddiad ymwelwyr â'r ardal.

**Tabl 19: Ymwelwyr â Mareo a San Martin yn ôl cenedligrwydd, 2023**

Yr Eidal	48.3%
Yr Almaen	21.2%
Awstria	2.3%
Y Swistir	1.6%
Gwledydd Benelwcs	3.6%
Gwledydd eraill	23.2%


Ffynhonnell: ASTAT (2024b).

- 9.22 Mae twristiaeth yn yr ardal yn ddiwydiant tymhorol i raddau helaeth iawn, gyda'r tymhorau prysur yn yr haf a'r gaeaf a'r tymhorau tawel yn y gwanwyn a'r



hydref. Roedd nifer yr ymwelwyr yn y pedwar mis prysuraf (mis Ionawr, mis Chwefror, mis Gorffennaf a mis Awst) dros ddeg gwaith yn fwy na nifer yr ymwelwyr yn y pedwar mis tawelaf (mis Ebrill, mis Mai, mis Hydref a mis Tachwedd) yn 2023, fel y dangosir yn Ffigur 12.

**Ffigur 12: Nifer yr ymwelwyr a gyrhaeddodd Mareo a San Martin yn ôl mis, 2023**



Ffynhonnell: Adroddiadau Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin, a chyfrifiadau'r awdur.

\* Mae'r ffigur ar gyfer 2023 yn seiliedig ar yr Amcangyfrif Cyllidebol a wnaed ym mis Ebrill 2023, tra bod blynyddoedd eraill yn seiliedig ar incwm a gofnodwyd.

### **Refeniw'r dreth dwristiaeth drefol ym Mareo a San Martin**

9.23 Ar ddiwedd 2023, penderfynodd y fwrdeistref beidio â gosod y doll leol ychwanegol ac, felly, mae'r cyfraddau treth ym Mareo a San Martin fel a ganlyn:

- €2.50 y pen y noson (ypyn) mewn llety pedair neu bum seren.
- €2.00 ypyn mewn llety tair seren
- €1.50 ypyn mewn mathau eraill o lety.


9.24 Mae'r cyfraddau treth wedi newid sawl gwaith ers i'r dreth gael ei rhoi ar waith gyntaf yn 2014.

9.25 Yn 2022, cafodd Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin refeniw gwerth € 1,198,336.69 o'r dreth dwristiaeth (Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin 2023). Ar y sail bod hyn yn cyfateb i 70% o

gyfanswm y refeniw, rydym yn amcangyfrif mai cyfanswm y refeniw o'r dreth yn y flwyddyn honno oedd ychydig dros €1.7 miliwn.

9.26 Mae Ffigur 13 yn rhoi amcangyfrifon tebyg o'r refeniw o'r dreth ym mhob blwyddyn ers 2018.

**Ffigur 13: Refeniw amcangyfrifedig y dreth dwristiaeth drefol ym Mareo a San Martin**



Ffynhonnell: Adroddiadau Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin, a chyfrifiadau'r awdur.

\* Mae'r ffigur ar gyfer 2023 yn seiliedig ar yr Amcangyfrif Cyllidebol a wnaed ym mis Ebrill 2023, tra bod blynyddoedd eraill yn seiliedig ar incwm a gofnodwyd.

### **Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin**

9.27 Mae gan Gwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin tua 350 o aelodau. Ar y cyfan, maent yn cynrychioli busnesau teuluol sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r diwydiant twristiaeth. Mae hyn yn cyfrif am gyfran sylweddol o boblogaeth y ddwy fwrdeistref, sef 4,920 gyda'i gilydd.

9.28 Mae'r aelodau yn talu ffioedd gwirfoddol sy'n dibynnu ar faint a phroffidoldeb y busnes. Ni waith beth fo'r ffioedd a delir, mae gan bob aelod yr hawl i fwrw un bleidlais yng Nghyfarfodydd Cyffredinol y Cwmni Cydweithredol.

9.29 Caiff y Cwmni Cydweithredol ei lywodraethu gan Fwrdd Cyfarwyddwyr a etholir bob blwyddyn yn y Cyfarfod Cyffredinol. Yn ei dro, mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn ethol y Llywydd, sydd hefyd yn gweithredu fel Cadeirydd y

Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo dyletswyddau gweithredol i Gyfarwyddwr gweithredol.

- 9.30 Disgwylir mai cyfanswm ffioedd yr aelodau fydd €585,000 yn 2023.
- 9.31 Mae'r Cwmni Cydweithredol yn cael cyfraniadau bach gan Wladwriaeth yr Eidal a Llywodraeth Daleithiol De Tyrol. Mae hefyd yn ennill refeniw drwy ddarparu gwasanaethau i'r Bwrdeistrefi (megis glanhau strydoedd ac addurno manau cyhoeddus) ac o weithgareddau masnachol (megis gwerthu nwyddau a gwasanaethau drwy'r Swyddfa Dwristiaeth a gwerthu cyfleoedd hysbysebu). Nodir y refeniw wedi'i gyllidebu ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn yn 2023 yn Nhabl 20.

**Tabl 20: Refeniw wedi'i gyllidebu'r Cwmni Twristiaeth Cydweithredol, 2023**

Ffioedd aelodau	585,000 €	27.7%
Grantiau gan Lywodraeth De Tyrol	70,000 €	3.3%
Ad-daliadau am wasanaethau a ddarparwyd i fwrdeistrefi	125,000 €	5.9%
Noddwyr preifat	10,000 €	0.5%
Incwm y dreth dwristiaeth	1,190,000 €	56.3%
Treth ar ail gartrefi	80,000 €	3.8%
Refeniw hysbysebu	30,000 €	1.4%
Gwerth nwyddau a gwasanaethau	25,000 €	1.2%
<b>CYFANSWM REFENIW</b>	<b>2,115,000 €</b>	<b>100.0%</b>

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin 2023.

- 9.32 Fodd bynnag, daw dros hanner refeniw'r Cwmni Cydweithredol o'r Dreth Dwristiaeth Drefol. Yn ôl Cyfarwyddwr gweithredol y Cwmni Cydweithredol, mae cyflwyno'r Dreth Dwristiaeth wedi galluogi'r Cwmni Cydweithredol i newid o fod yn weithrediad 'swyddfa flaen yn unig' cyn 2015 i fod yn gyfrwng ar gyfer 'datblygu cynhyrchion'.
- 9.33 Yn ogystal â'r Cyfarwyddwr gweithredol, mae'r Cwmni Cydweithredol yn cyflogi cyflogaion parhaol eraill a 13 o gyflogaion tymhorol. Mae swyddi yn cynnwys staff Swyddfa Flaen yn y Swyddfa Dwristiaeth, staff marchnata a chyfathrebu, staff gweinyddol a staff 'gwasanaeth maes' (gan gynnwys cynnal a chadw llwybrau a seilwaith arall).

9.34 Mae Tabl 21 yn rhoi trosolwg o wariant wedi'i gyllidebu'r Cwmni Cydweithredol yn 2023.

**Tabl 21: Gwariant wedi'i gyllidebu'r cwmni twristiaeth cydweithredol, 2023**

Costau staff	595,000 €	28.3%
Gweinyddu (gan gynnwys costau swyddfa)	277,500 €	13.2%
Argraffu (pamffledi ac ati)	43,000 €	2.0%
Costau hysbysebu	265,500 €	12.6%
Digwyddiadau yn ystod y gaeaf	108,500 €	5.2%
Digwyddiadau yn ystod yr haf	131,500 €	6.3%
Symudedd - gwasanaethau bysiau gwennol a thacsis	383,500 €	18.3%
Datblygu cynhyrchion	295,500 €	14.1%
<b>CYFANSWM Y GWARIANT</b>	<b>2,100,000 €</b>	<b>100.0%</b>

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin 2023.

- 9.35 Mae marchnata cyrchfannau yn cyfrif am gyfran sylweddol o weithgareddau'r Cwmni Cydweithredol. Mae'n cefnogi gwefan helaeth ac yn gweithredu fel asiantaeth deithio ar gyfer o'r darparwyr llety lleol, yn ogystal â gweithredu fel Swyddfa Dwristiaeth weddol fawr. Mae'n llunio amrywiaeth eang o ddeunyddiau marchnata, gan gynnwys fformatau digidol a phrint.
- 9.36 Gweithgaredd pwysig arall i'r Cwmni Cydweithredol yw 'gwneud y lle yn hardd', drwy gynnal a chadw mannau cyhoeddus a'u glanhau. Mae'r Cwmni Cydweithredol hefyd yn gyfrifol am gynnal mwy na 500km o lwybrau heicio, beicio a sgïo Nordig, yn ogystal â via ferrata.
- 9.37 Mae hefyd yn gwneud buddsoddiadau rheolaidd mewn seilwaith newydd ac yn gweithredu ei siop gwaith saer ei hun at y diben hwn. Er enghraifft, yn 2023 mae wedi cyllidebu €60,000 ar gyfer datblygu parc calistheneg, €48,000 ar gyfer llwybr sgïo traws gwlad newydd a sawl prosiect llai o faint gwerth rhwng €5,000 a €15,000 ar gyfer gosod arwyddion, meinciau, cabanau a seilwaith arall.
- 9.38 Mae cynnal digwyddiadau, yn enwedig y rhai y bwriedir iddynt ymestyn y tymor twristaidd, yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r gyllideb ar gyfer 2023. Yn yr un modd, mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu bysiau sgïo a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus yn cyfrif am gyfran fawr o gyllideb 2023.


### **Archwilio ac asesu'r effaith ym Mareo a San Martin**

- 9.39 Nid yw'r Cwmni Cydweithredol yn atebol i unrhyw un heblaw ei aelodau am y ffordd y mae'n gwario refeniw'r dreth dwristiaeth.
- 9.40 Mae cyfraith gorfforaethol yr Eidal yn nodi'r gofynion llywodraethu ar gyfer pob menter gydweithredol, y mae Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin yn cydymffurfio â nhw.
- 9.41 Nid oes unrhyw fecanweithiau ffurfiol eraill ar gyfer asesu effaith y prosiectau hyn.

### **Twristiaeth yn Bruneck-Brunico**

- 9.42 Mae bwrdeistref Bruneck-Brunico yn cyffinio â Mareo, gyda system lifftiau sgïo Plan de Coronas yn cysylltu'r naill a'r llall. Er nad yw ond pymtheg milltir i ffwrdd mewn car, mae tref Bruneck-Brunico yn wahanol iawn i bentrefi Mareo a San Martin, yn ddiwylliannol ac yn economaidd.
- 9.43 Mae Bruneck-Brunico yn dref lle y siaredir Almaeneg yn bennaf gyda lleiafrif sylweddol sy'n siarad Eidaleg, ond prin iawn yw'r siaradwyr Ladineg iaith gyntaf. Yng nghyfrifiad 2011, nododd 82.5% o'r boblogaeth mai Almaeneg oedd eu hiaith gyntaf, nododd 15.2% mai Eidaleg oedd eu hiaith gyntaf a dim ond 2.3% a nododd mai Ladineg oedd eu hiaith gyntaf (ASTAT 2012).
- 9.44 Bruneck-Brunico yw prif dref Val Pusteria ac, felly, mae ganddi economi gymysg â llawer o gyflogwyr yn y sector gweithgynhyrchu a'r sector gwasanaethau. Nid yw twristiaeth yn y fwrdeistref yn ansylweddol ond mae'n cyfrif am gyfan lawer llai o'r economi o gymharu â'r ardaloedd o'i hamgylch. Er bod ganddi boblogaeth sydd deirgwaith yn fwy na maint Mareo a San Martin gyda'i gilydd, dim ond tua 20% o nifer yr arosiadau dros nos a gofnodwyd gan y pentrefi hynny a gofnodwyd gan fwrdeistref Bruneck-Brunico yn 2023.
- 9.45 Dengys Ffigur 14 gyfanswm yr arosiadau dros nos yn Bruneck/Brunico dros y tri degawd diwethaf.

**Ffigur 14: Nifer yr arosiadau dros nos gan ymwelwyr yn Bruneck/Brunico yn ôl blwyddyn**



Ffynhonnell: ASTAT (2024b).

### Y dreth dwristiaeth drefol yn Bruneck-Brunico

- 9.46 Ar ddiwedd 2023, roedd y gyfradd dreth yn Bruneck-Brunico yn amrywio o €2.50 i €3.50 yn dibynnu ar y categori o lety. Dim ond ar dwristiaid dros 14 oed y'i gosodir.
- 9.47 Mae'r Gymdeithas Dwristiaeth leol yn cael 70% o'r dreth dwristiaeth, a oedd yn cyfateb i tua €2.5 miliwn yn 2023.

### Y dreth dwristiaeth yn Bruneck-Brunico

- 9.48 Mae Cymdeithas Dwristiaeth Bruneck Kronplatz yn cwmpasu pum bwrdeistref i gyd, sef: Bruneck-Brunico, San Lorenzo, Falzes, Gais a Percha.
- 9.49 Ffurfiwyd y Gymdeithas yn 2013 er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Dreth Dwristiaeth Drefol.
- 9.50 Mae gan y Gymdeithas 450 o aelodau.

- 9.51 Mae bwrdd (consiglio) yn gyfrifol am oruchwylio penderfyniadau cyfarwyddwr y gymdeithas dwristiaeth. Mae gan y bwrdd 18 o aelodau, gan gynnwys Llywydd, Is-lywydd, Cyfarwyddwr, cynrychiolwyr y cwmni lifftiau sgïo, cynrychiolwyr yr ysgolion sgïo, cynrychiolwyr amaeth-dwristiaeth, cynrychiolwyr cartrefi gwyliau a chynrychiolwyr gwestywyr. Mae nifer aelodau'r bwrdd yn uchel ac mae cyfarwyddwr y gymdeithas dwristiaeth o'r farn ei fod wedi cyrraedd ei derfyn uchaf.
- 9.52 Caiff aelodau'r bwrdd eu hethol gan aelodau'r gymdeithas bob pedair blynedd. Nid oes gan y bwrdd aelodau gwleidyddol ac nid yw gwleidyddiaeth yn dylanwadu arno.
- 9.53 Er mwyn gweithredu'n gyflym mae aelodau'r bwrdd yn arbenigo mewn sectorau/pynciau penodol. Er enghraifft, pan fydd yn rhaid i'r cyfarwyddwr lansio digwyddiad newydd, bydd yn cydweithio â dau aelod o'r bwrdd sy'n arbenigo mewn digwyddiadau. Er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd misol yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.
- 9.54 Bob blwyddyn ym mis Hydref mae'r cyfarwyddwr yn trefnu conclaf â'r bwrdd er mwyn cynnig cynllun o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r bwrdd yn rhoi adborth a gyda'i gilydd maent yn penderfynu ar y gweithgareddau a'r defnydd a wneir o'r cyllid ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 9.55 Bydd y cynllun y cytunwyd arno yn parhau i fod yn sail i'r gwaith sydd i'w wneud gan y cyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn. Os bydd cynlluniau gwahanol i'w cyflawni sy'n werth mwy na €50,000, bydd y cyfarwyddwr yn gofyn i'r bwrdd eu cymeradwyo. Fel arall, gall y cyfarwyddwr wyro oddi wrth y cynllun er mwyn diwallu anghenion ac ymateb i sefyllfaoedd nas rhagwelwyd sy'n codi yn ystod y flwyddyn.
- 9.56 Mae'r bwrdd yn cyfarfod unwaith y mis.
- 9.57 Mae aelodau'r gymdeithas yn cyfarfod unwaith y flwyddyn a gallant wneud sylwadau ar y gwaith ond nid oes ganddynt unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau. Mae lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng aelodau'r gymdeithas ac aelodau'r bwrdd y maent wedi'u hethol.

- 9.58 Mae gan y Gymdeithas Dwristiaeth gyllideb o tua €5 miliwn, gyda hanner y swm hwnnw yn dod o'r Dreth Dwristiaeth Drefol. Daw'r gweddill o gyfraniadau/ffioedd yr aelodau (tua €1 miliwn); treth ar ail gartrefi<sup>5</sup> (€120,000); cyfraniad gan Dalaith De Tyrol; gweithgareddau masnachol megis incwm o ddigwyddiadau.
- 9.59 Cyflwynwyd cyfraniad yr aelodau yn 2013, pan ffurfiwyd y Gymdeithas, ar gyfradd o 25 sent y gwestai y noson. Yn gyfnewid am hynny, cafodd yr aelodau gardiau gwestai ar gyfer eu gwesteion a oedd yn rhoi mynediad i ystod gyfyngedig o wasanaethau.
- 9.60 Erbyn diwedd 2023, roedd cyfraniad yr aelodau wedi cynyddu i €1 y gwestai y noson. Yn yr un modd, mae'r buddion a gynigir gan y cerdyn gwestai wedi cynyddu hefyd. Maent bellach yn cynnwys trafndiaeth gyhoeddus (trên a bysiau) am ddim ledled De Tyrol; mynediad am ddim i bob amgueddfa yn Ne Tyrol; yn ystod y tymor tawel un daith y dydd mewn car cebl i gopa Plan De Corones; a thripiâu tywysedig am ddim (heicio neu feicio).
- 9.61 Cyfrifir am refeniw'r dreth dwristiaeth a chyfraniadau'r aelodau ar wahân. Defnyddir refeniw'r dreth dwristiaeth i dalu am dri phrif gategori o weithgareddau, sef: marchnata; trefnu digwyddiadau; cynnal a chadw llwybrau.

### **Archwilio ac asesu'r effaith yn Bruneck-Brunico**

- 9.62 Bob gwanwyn caiff y gwaith a wneir gan y Gymdeithas Dwristiaeth ei werthuso. Gwerthusiad ariannol gyda chyfrifwyr yw'r gwerthusiad hwn.

---

<sup>5</sup> Telir y dreth ar ail gartrefi gan berchenogion yn annibynnol ar nifer y nosweithiau y maent yn meddiannu eu hail gartref. Cyflwynwyd y dreth hon yng nghanol y 1990au, ymhell cyn i'r Dreth Dwristiaeth Drefol gael ei chodi ar dwristiaid sy'n aros mewn gwasanaethau llety. Rhoddir 95% o'r dreth dwristiaeth a godir ar ail gartrefi i'r gymdeithas dwristiaeth a 5% i'r fwrdeistref. Y sail resymegol dros hyn yw bod perchenogion ail gartrefi yn gwneud defnydd helaeth o wasanaethau twristiaeth megis digwyddiadau, llwybrau ac ati. Nid yw perchenogion ail gartrefi yn cael cerdyn gwestai gan ydynt yn westeion i aelodau'r gymdeithas.



- 9.63 Ni chynhelir unrhyw werthusiad ffurfiol o effeithiau amgylcheddol na chymdeithasol-ddiwylliannol y gweithgareddau a ariennir gan refeniw'r dreth dwristiaeth.
- 9.64 Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyfarwyddwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd am ganlyniadau'r gweithgareddau pwysicaf megis y Marchnadoedd Nadolig (digwyddiad pwysicaf y gymdeithas) neu Wyl y Dref. Mae'r wybodaeth a roddir i'r bwrdd yn cynnwys nifer yr ymwelwyr, sylw yn y cyfryngau, lluniau a fideos.
- 9.65 Yna, mae'r bwrdd yn defnyddio'r wybodaeth hon i ystyried gwelliannau yn y dyfodol gyda'r cyfarwyddwr.

## Enghraifft 7: Prosiect ym Mareo a San Martin: ardystiad GSTC



Mae cynaliadwyedd wrth wraidd y gwaith o ddatblygu twristiaeth yng Nghwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin.

Mae'r arian a godir gan y dreth dwristiaeth wedi galluogi'r cwmni cydweithredol i fwrw ymlaen â gwahanol weithgareddau y bwriedir iddynt ddatblygu twristiaeth gynaliadwy yn y cyrchfan. Mae a wnelo un gweithgaredd o'r fath ag achredu'r cyrchfan fel Cyrchfan Cynaliadwy gan y Cyngor Twristiaeth Gynaliadwy Byd-eang (GSTC).

Mae'r GSTC yn sefydliad nid er elw a sefydlwyd gan y Cenhedloedd Unedig mewn cydweithrediad â sefydliadau anllywodraethol eraill ledled y byd er mwyn diogelu'r amgylchedd. Mae'r GSTC yn nodi ac yn rheoli safonau byd-eang ar gyfer pob agwedd ar gynaliadwyedd ar gyfer cyrchfannau, darparwyr llety a gweithredwyr teithiau. Mae'r meini prawf ar gyfer cyrchfannau yn cynnwys:

- 11 o agweddau sy'n ymwneud â rheoli cyrchfannau, sy'n amrywio o ymgysylltu â rhanddeiliad i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- 8 sy'n ymwneud â chynaliadwyedd economaidd-gymdeithasol, sy'n amrywio o gyfleoedd gwaith a gyrfa deilwng i hygyrchedd.
- 7 sy'n ymwneud â chynaliadwyedd diwylliannol, sy'n amrywio o ddiogelu asedau diwylliannol i ddehongli safleoedd.
- 12 sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, sy'n amrywio o stiwardiaeth dŵr i lygredd golau a sŵn.

(GSTC, 2019)

Ym mis Awst 2021 Mareo a San Martin oedd un o'r cyrchfannau cyntaf yn yr Eidal a ledled y byd i gael ardystiad GSTC Roedd hyn yn cynnwys datblygu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy ar gyfer y cyrchfan a'i rhoi ar waith. Mae'r strategaeth yn cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- monitro llifau twristiaid ym mhob tymor;
- gwella prosesau rheoli gwastraff;
- gwella trafnidiaeth gyhoeddus a monitro'r defnydd o gludiant car;
- diogelu fflora a ffawna, gan gynnwys cyfrifiad blynyddol o rywogaethau anifeiliaid;
- sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyfranogol ar waith ar gyfer y cyrchfan;
- cefnogi diwylliant, traddodiadau a phobl yr ardal, gan gynnwys yr iaith Ladineg;
- hyfforddiant i staff lleol a staff dros dro y diwydiant twristiaeth.

(Cwmni Twristiaeth Cydweithredol Mareo a San Martin, anhysbys)

Mae'r achrediad yn para am dair blynedd ac yn cael ei archwilio bob blwyddyn. Mae cyllid parhaus yn cefnogi gweithgareddau cynaliadwy ac yn ei gwneud yn bosibl i achrediad GSTC gael ei ailddilysu. Yn ôl cyfarwyddwr y Cwmni Twristiaeth Cydweithredol, mae'r achrediad yn cychwyn taith tuat at ddatblygu cynaliadwy, gyda chyllid yn hwyluso camau pellach. Mae achrediad GSTC yn addysgu twristiaid am arferion ac ymddygiadau cynaliadwy.

## 10. Crynodeb a chasgliadau

### Neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr

- 10.1 Arweiniodd y broses a ddefnyddiwyd gennym i nodi'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn, yn anochel, at ddewis awdurdodaethau lle caiff refeniw ardollau ymwelwyr ei neilltuo ar gyfer mathau penodol o wariant neu lle roedd yn cael ei neilltuo ar ryw adeg o leiaf.
- 10.2 Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'n hymchwiliadau cychwynnol bod neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr yn arfer gyffredin y tu hwnt i'r astudiaethau achos a ystyrir yn yr adroddiad hwn. Yr unig awdurdodaethau lle na welsom unrhyw dystiolaeth bod ardollau ymwelwyr yn cael eu neilltuo oedd yr Iseldiroedd a'r Swistir.<sup>6</sup>
- 10.3 Yn ein sampl o astudiaethau achos, mae gwahaniaethau mawr yng nghryfder neilltuo. Amlygwyd hyn gyda dyfodiad pandemig COVID-19, pan ostyngodd refeniw o ardoll ymwelwyr yn sylweddol ym mhob un o'n hastudiaethau achos. Cafodd hyn gryn effaith yn yr awdurdodaethau hynny lle mae neilltuo ar ei gryfaf.
- 10.4 Yn Swydd Orange, mae deddfwriaeth yn nodi'n glir at ba ddibenion y gellir defnyddio refeniw, a'r dreth dwristiaeth yw'r brif ffrwd refeniw ar gyfer y prosiectau hynny. O ganlyniad, er enghraifft, cafodd cyllid cyfalaf ar gyfer y Ganolfan Gynadledda ei dorri ar unwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19. Ar Ynysoedd Baleares, y Gronfa i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy yw unig fuddiolwr refeniw o'r dreth ac, o dan amgylchiadau arferol, daw ei holl refeniw o'r dreth. Mewn ymateb i bandemig Covid-19, ni ddyrannodd y Gronfa unrhyw arian i unrhyw brosiectau newydd rhwng 2020 a 2022, ond cafodd cyllid a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau parhaus ei ddarparu gan Lywodraeth Ynysoedd Baleares.

---

<sup>6</sup> Nodwn nad yw diffyg tystiolaeth o neilltuo yn cyfateb i dystiolaeth o ddiffyg neilltuo. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o neilltuo yn yr Iseldiroedd na'r Swistir nac unrhyw dystiolaeth bod refeniw yn cael ei roi mewn 'cronfa gyffredinol' ar gyfer gwariant cyhoeddus.



- 10.8 Gwlad yr Iâ yw'r unig enghraifft ymhlith ein hastudiaethau achos lle mae lefel neilltuo wedi'i ddiwygio'n benodol ers i'r ardoll ymwelwyr gael ei rhoi ar waith. Pan gyflwynwyd y dreth gyntaf yn 2011, roedd 60% o'r refeniw yn cael ei neilltuo ar gyfer y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd a oedd newydd ei sefydlu. Torrwyd y cysylltiad ffurfiol hwn drwy ddiwygiad i'r gyfraith yn 2017.
- 10.9 Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod unrhyw awdurdodaeth arall yn ystyried dilyn esiampl Gwlad yr Iâ drwy roi'r gorau i neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr.

**Casgliad 1:** Mae neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr yn arfer gyffredin ledled y byd, er bod cryfder a chwmpas neilltuo yn amrywio rhwng awdurdodaethau.

### **Rheoli'r ffordd y caiff refeniw ei ddyrannu**

- 10.10 Rydym wedi nodi tri phrif fecanwaith a ddefnyddir i ddyrannu refeniw wedi'i neilltuo ar gyfer gweithgareddau neu brosiectau gwario.
- 10.11 Ar Ynysoedd Baleares ac yng Ngwlad yr Iâ, caiff yr holl refeniw o ardollau ymwelwyr ei ddyrannu i gronfa y dyfernir grantiau ohoni er mwyn ariannu prosiectau. Rydym yn galw hyn yn fodel 'dyfarnu grantiau'. O fewn cwmpas y model hwn, ceir amrywiadau sylweddol o hyd. Er enghraifft, ar Ynysoedd Baleares, dim ond cyrff yn y sector cyhoeddus a all wneud cais am grant ond yng Ngwlad yr Iâ dim ond y sector preifat sy'n gymwys i wneud cais am arian.
- 10.12 Ar y llaw arall, yn Ne Tyrol a Chatalonia, dyrennir yr holl refeniw o ardollau ymwelwyr i gyrff dynodedig sy'n gwario'r arian yn uniongyrchol. Yn y ddau achos, mae asiantaethau marchnata twristiaeth canolog (IDM yn Ne Tyrol a Bwrdd Twristiaeth Catalonia) yn cael cyfran o'r refeniw, gydag Asiantaethau Twristiaeth lleol yn cael y gweddill. Mae gan y cyrff amcanion pendant sy'n ymwneud â thwristiaeth, ond mae ganddynt gryn dipyn o hyblygrwydd hefyd o ran y ffordd y maent yn gwario'r arian. Rydym yn galw hyn yn fodel 'cyrff dynodedig'.
- 10.13 Mae Swydd Orange yn rhoi cyfuniad o'r ddau fodel hyn ar waith. Dyrennir y rhan fwyaf o'r refeniw i gyrff dynodedig (gan gynnwys y Ganolfan Gynadledda a Visit Orlando) sy'n gwario'r arian yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae swm

sylweddol o arian ar gael er mwyn i sefydliadau eraill wneud cais am grantiau a ariennir gan refeniw ardollau ymwelwyr.

- 10.14 Yn Gunnison a Jackson Hole, dyrennir rhywfaint o refeniw i gyrff dynodedig (y Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant a'r bwrdd twristiaeth lleol) ond caiff rhywfaint o refeniw ei wario'n uniongyrchol gan lywodraeth leol. Yn y ddau achos, mae cyfraith y Dalaith yn darparu rhai cyfyngiadau ar y gweithgareddau y gellir eu hariannu. Rydym yn galw'r gwariant hwn gan y llywodraeth yn fodel 'gwariant uniongyrchol'. Mae'r ddwy awdurdodaeth hyn hefyd yn dyrannu refeniw i gyrff dynodedig. At hynny, mae Jackson Hole yn dyrannu cyfran o'i refeniw i broses dyfarnu grantiau gystadleuol er mwyn ariannu digwyddiadau.

**Tabl 22: Modelau gwariant uniongyrchol, gyrff dynodedig a dyfarnu grantiau**

	<b>Model Gwariant Uniongyrchol</b>	<b>Model Cyrff Dynodedig</b>	<b>Model Dyfarnu Grantiau</b>
<b>Ynysoedd Baleares</b>	<b>x</b>	<b>x</b>	<b>✓</b>
<b>catalonia</b>	<b>x</b>	<b>✓</b>	<b>x</b>
<b>Gunnison</b>	<b>✓</b>	<b>✓</b>	<b>x</b>
<b>Gwlad yr Iâ</b>	<b>x</b>	<b>x</b>	<b>✓</b>
<b>Jackson Hole</b>	<b>✓</b>	<b>✓</b>	<b>✓</b>
<b>Swydd Orange</b>	<b>x</b>	<b>✓</b>	<b>✓</b>
<b>De Tyrol</b>	<b>x</b>	<b>✓</b>	<b>x</b>

- 10.15 Mae Tabl 22 yn crynhoi'r gwahanol fodelau a ddefnyddir yn y saith awdurdodaeth wahanol a ystyriwyd yn yr astudiaethau achos.

**Casgliad 2:** Defnyddir sawl mecanwaith i ddyrannu refeniw ardollau ymwelwyr ar gyfer gweithgareddau neu brosiectau gwario. Gall arian gael ei ddyrannu drwy brosesau dyfarnu grantiau, ei ddyrannu i gyrff â chylch gwaith diffiniedig neu ei wario'n uniongyrchol gan y llywodraeth.

- 10.16 Mae Tabl 23 yn rhoi trosolwg cymharol o'r prif sefydliadau sy'n ymwneud â goruchwyllo'r ffordd y caiff refeniw ardollau ymwelwyr ei ddyrannu i flaenoriaethau gwario ym mhob un o'r saith astudiaeth achos. Yn benodol,

mae'n nodi cyfansoddiad y prif gyrff gwneud penderfyniadau ym mhob sefydliad.

- 10.17 O dan y model Gwariant Uniongyrchol, y Llywodraeth sy'n gwneud y penderfyniadau cyllido Fodd bynnag, o dan y model Cyrff Dynodedig a'r model Dyfarnu Grantiau, ceir gwahanol fathau o sefydliadau.
- 10.18 Yng Nghatalonia a Jackson Hole, mae gan asiantaethau'r Llywodraeth ar ffurf Byrddau Twristiaeth rolau canolog o ran gwario a dosbarthu arian.
- 10.19 Ar Ynysoedd Baleares ac yng Ngwlad yr Iâ a Swydd Orange, cyrff statudol y deddfwyd ar eu cyfer pan gyflwynwyd y dreth yw'r prif sefydliadau sy'n ymwneud â dyrannu refeniw. Mae Swydd Orange hefyd wedi defnyddio Gweithlu Cynghori Dinasyddion, ond nid oes i'r corff hwn unrhyw statws cyfreithiol swyddogol ac mae ond yn gallu gwneud argymhellion i'r corff statudol.
- 10.20 Mae gan Gymdeithasau Twristiaeth, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, rolau i'w chwarae o ran dyrannu arian yn Gunnison a De Tyrol, lle mae rhai wedi'u sefydlu fel Cwmnïau Cydweithredol.
- 10.21 Mae gan IDM yn Ne Tyrol statws cyfreithiol anarferol ymhlith y cyrff cyllido a gwario a nodwyd yn yr astudiaethau achos. Menter ar y cyd ydyw rhwng Llywodraeth De Tyrol, sy'n berchen ar 60% ohoni, a Siambr Fasnach Bozen-Bolzano sy'n berchen ar y 40% arall.

**Casgliad 3:** Mae amrywiaeth o sefydliadau yn ymwneud â dyrannu refeniw ardollau ymwelwyr. Maent yn cynnwys gwahanol lefelau o lywodraeth, asiantaethau llywodraethol, cyrff statudol, grwpiau cynghori, cymdeithasau, cwmnïau cydweithredol a mentrau ar y cyd.

- 10.22 Mae gan y sefydliadau hyn amrywiaeth o aelodau yn eu fforymau gwneud penderfyniadau. O'r 13 o sefydliadau a restrir yn Nhabl 23, mae gan 10 aelodau a benodir gan lywodraeth leol neu sy'n cynrychioli llywodraeth leol. Mae gan y diwydiant twristiaeth bron yr un lefel o gynrychiolaeth hefyd, gyda chynrychiolwyr o fyd busnes yn ymwneud â naw o'r sefydliadau. Mae



cynrychiolwyr llywodraeth ganolog yn rhan o broses gwneud penderfyniadau pump o'r sefydliadau.<sup>7</sup>

- 10.23 Cynrychiolir undebau llafur, grwpiau diwylliannol a grwpiau amgylcheddol ar y Comisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy ar Ynysoedd Baleares. Mae undebau llafur a grwpiau diwylliannol hefyd yn cael eu cynrychioli yn y Gweithlu Cyngori Dinasyddion yn Swydd Orange ond nid yn y prif fforwm gwneud penderfyniadau, sef y Cyngor Datblygu Twristiaeth. Nid yw grwpiau o'r fath yn cael eu cynrychioli mewn unrhyw un o'r astudiaethau achos eraill.

**Casgliad 4:** Fel arfer, cynrychiolir llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r diwydiant twristiaeth yn fforymau gwneud penderfyniadau sefydliadau cyllido/gwario. Mae gan rannau eraill o gymdeithas sifil, gan gynnwys undebau llafur, grwpiau diwylliannol a grwpiau amgylcheddol lawer llai o gynrychiolaeth.

#### **Graddfa Ddaearyddol a Datganoli**

- 10.24 Mae graddfa ddaearyddol yr astudiaethau achos a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn amrywio'n fawr, o ran poblogaeth ac arwynebedd tir. Mae'r graddau y mae trefniadau ar gyfer gweithredu'r ardoll ymwelwyr a dyrannu refeniw wedi'u datganoli hefyd yn amrywio'n fawr.<sup>8</sup> Mae Tabl 24 yn rhoi trosolwg.
- 10.25 Yn achos Ynysoedd Baleares, Gwlad yr Iâ a Swydd Orange mae'r dreth a'r broses o ddyrannu refeniw wedi'u canoli.
- 10.26 Mae gan Ynysoedd Baleares boblogaeth sy'n cyfateb, fwy neu lai, i draean o boblogaeth Cymru a chwarter y tîrfas, fwy neu lai. Er bod yr holl refeniw yn cael ei ddyrannu gan y Comisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy yn ganolog, cofnodir lefel y cyllid fesul ynys. Mae gan y pedair ynys boblogaethau sy'n amrywio o 12,000 yn Formentera i 921,000 ym Mallorca.

<sup>7</sup> Rydym yn ystyried bod llywodraethau Ynysoedd Baleares, Catalonia, Gwlad yr Iâ, De Tyrol ac Unol Daleithiau America yn rhai 'canolog' a bod lefelau llai canolog eraill o lywodraeth yn rhai 'lleol'.

<sup>8</sup> Mae cwmpas daearyddol y cyrff codi treth hefyd yn amrywio'n fawr rhwng yr astudiaethau achos. Nodir hyn yn yr astudiaethau achos perthnasol yn Adrannau 3 i 9, ond nid ydym yn ei ystyried yn yr Adran hon am ei fod yn ymylol i ffocws yr adroddiad hwn, sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff refeniw ei wario.

**Tabl 23: Cyfansoddiad cyfreithiol cyrff cyllido neu wario**

Astudiaeth Achos	Corff cyllido / gwario	Cyfansoddiad cyfreithiol	Cyfansoddiad y corff gwneud penderfyniadau. Penodir gan / yn cynrychioli:					
			Llyw. ganolo g*	Llyw. leol*	Byd busnes	Undeba u llafur	Sefydliadau amgylcheddol	Grwpia u diwyllia nnol
Ynysoedd Balears	Y Comisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy	Corff statudol	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Catalonia	Bwrdd Twristiaeth Catalonia	Un o asiantaethau Llywodraeth Catalonia	✓	✓	✓	x	x	x
Catalonia	Asiantaethau twristiaeth lleol	Asiantaethau llywodraethau trefol	x	✓	✓	x	x	x
Gunnison	Y Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant	Cymdeithas	x	✓	x	x	x	x
Gunnison	Llywodraeth Dinas / Tref	Y Llywodraeth	x	✓	x	x	x	x
Gwlad yr Iâ	Y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd	Corff statudol	✓	✓	✓	x	x	x

Astudiaeth Achos	Corff cyllido / gwario	Cyfansoddiad cyfreithiol	Cyfansoddiad y corff gwneud penderfyniadau. Penodir gan / yn cynrychioli:					
			Llyw. ganolog*	Llyw. leol*	Byd busnes	Undebau llafur	Sefydliadau amgylcheddol	Grwpiau diwylliaannol
Jackson Hole	Llyw. y Dalaith	Y Llywodraeth	✓	✗	✗	✗	✗	✗
Jackson Hole	Llywodraethau'r Swydd a'r Dref	Y Llywodraeth	✗	✓	✗	✗	✗	✗
Jackson Hole	Bwrdd Twristiaeth Lleol	Corff statudol	✗	✓	✓	✗	✗	✗
Swydd Orange	Y Cyngor Datblygu Twristiaeth	Corff statudol	✗	✓	✓	✗	✗	✗
Swydd Orange	Y Gweithlu Cynghori Dinasyddion	Grŵp cynghori	✗	✓	✓	✓	✗	✓
De Tyrol	IDM	Menter ar y cyd ydyw rhwng Talaith De Tyrol (sy'n berchen ar 60%) a Siambr Fasnach Bozen-Bolzano (40%)	✓	✗	✓	✗	✗	✗
De Tyrol	Cymdeithasau Twristiaeth	Cwmnïau Cydweithredol neu Gymdeithasau	✗	✗	✓	✗	✗	✗

\* At ddibenion y tabl hwn, rydym yn ystyried bod llywodraethau Ynysoedd Baleares, Catalonia, Gwlad yr Iâ, De Tyrol ac Unol Daleithiau America yn rhai 'canolog' a bod pob lefel lai canolog arall o lywodraeth yn 'lleol'.

**Tabl 24: Cwmpas daearyddol cyrff cyllido neu wario**

<b>Astudiaeth Achos</b>	<b>Corff cyllido / gwario</b>	<b>Cwmpas daearyddol</b>	<b>Poblogaeth (yn fras)</b>	<b>Arwynebedd tir</b>	<b>Nodiadau</b>
Ynysoedd Balears	Y Comisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy	Ynysoedd Balears	1.2 miliwn	5,040 km <sup>2</sup>	Cofnodir cyllid fesul ynys
Catalonia	Bwrdd Twristiaeth Catalonia	Catalonia gyfan	8.0 miliwn	32,114 km <sup>2</sup>	Yn cael 50% o'r referniw
Catalonia	Asiantaethau twristiaeth lleol	Bwrdeistrefi, neu gyfuniadau ohonynt	O ychydig o gannoedd mewn rhai ardaloedd gwledig hyd at 1.6m yn Barcelona	1-300 km <sup>2</sup>	Yn cael y 50% arall o'r referniw
Gunnison	Y Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant	Y Swydd gyfan	17,000	8,400 km <sup>2</sup>	
Gunnison	Llywodraeth Dinas / Tref	Y fwrdeistref gyfan	1,000 – 6,500	2 – 13 km <sup>2</sup>	
Gwlad yr Iâ	Y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristaidd	Gwlad yr Iâ	400,000	103,152 km <sup>2</sup>	
Jackson Hole	Llyw. y Dalaith	Cyflwr	577,000	253,335 km <sup>2</sup>	Yn cael 60% o'r referniw
Jackson Hole	Llywodraethau'r Swydd a'r Dref	Y Swydd / Y Dref	23,000 (y Swydd) 11,000 (y Dref)	10,920 km <sup>2</sup> 8 km <sup>2</sup>	Yn cael 24% o'r referniw

<b>Astudiaeth Achos</b>	<b>Corff cyllido / gwario</b>	<b>Cwmpas daearyddol</b>	<b>Poblogaeth (yn fras)</b>	<b>Arwynebedd tir</b>	<b>Nodiadau</b>
Jackson Hole	Bwrdd twristiaeth lleol	Y swydd	23,000	10,920 km <sup>2</sup>	Yn cael 16% o'r referniw
Swydd Orange	Y Cyngor Datblygu Twristiaeth	Y swydd	1.4 miliwn	2,600 km <sup>2</sup>	
De Tyrol	IDM	Talaith gyfan De Tyrol	534,000	7,400 km <sup>2</sup>	Yn cael 30% o'r referniw
= De Tyrol	Cymdeithasau Twristiaeth	Bwrdeistrefi, neu gyfuniadau ohonynt	Rhwng 3,000 ac 8,000 ar y cyfan (106,000 yn Bolzano)	2 – 302 km <sup>2</sup>	Yn cael 70% o'r referniw
<b>Cymhariaeth:</b>					
Cymru			3.1 miliwn	20,716 km <sup>2</sup>	
Awdurdodau lleol yng Nghymru			60,000 – 360,000	109 – 5,180 km <sup>2</sup>	

- 10.27 Mae Gwlad yr Iâ tua phum gwaith yn fwy na Chymru o ran tirlas ond dim ond ychydig yn fwy nag ardal awdurdod lleol Caerdydd y mae ei phoblogaeth. Dyrennir yr holl refeniw yn ganolog gan y Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaidd, ond nodir yn benodol fod cefnogaeth i brosiectau yn amodol ar gydlyniaeth â Chynlluniau Rheoli Cyrchfannau Lleol, a roddir ar waith ar lefel drefol. Mae dosbarthiad poblogaeth bwrdeistrefi Gwlad yr Iâ yn debyg, fwy neu lai, i ddosbarthiad y boblogaeth mewn ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
- 10.28 Mae poblogaeth Swydd Orange yn cyfateb i bron hanner poblogaeth Cymru ond mae wedi'i chanoli mewn ardal drefol yn bennaf tua maint Sir Gaerfyrddin.
- 10.29 Mae refeniw'r dreth dwristiaeth yng Nghatalonia wedi'i rannu'n gyfartal rhwng Bwrdd Twristiaeth Catalonia ac Asiantaethau Twristiaeth Lleol. Mae gan Catalonia boblogaeth o 8 miliwn o bobl mewn ardal sydd tua 50% yn fwy na Chymru. Ar y cyfan, mae'r Asiantaethau Twristiaeth Lleol yn cyfateb i Fwrdeistrefi, neu gyfuniadau o fwrdeistrefi. Mae gan Fwrdeistref Barcelona boblogaeth o 1.6 miliwn a cheir sawl Bwrdeistref arall â phoblogaethau o fwy na 100,000 ym maestrefi Barcelona a dinasoedd mawr eraill Catalonia. Fodd bynnag, mewn ardaloedd mwy gwledig, mae maint Bwrdeistrefi yn debycach i faint Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru.
- 10.30 Yn Jackson Hole, mae refeniw'r dreth dwristiaeth wedi'i rannu yn yr un modd rhwng y Dalaith, y Swydd a'r Dref. Mae gan Dalaith Wyoming boblogaeth o dros hanner miliwn, ond mae gan Swydd Teton ychydig o dan 23,000 o drigolion, y mae hanner ohonynt yn nhref Jackson.
- 10.31 Yn Swydd Gunnison, codir trethi twristiaeth ar wahân gan Dalaith Colorado (poblogaeth o 6 miliwn), y Swydd (poblogaeth o 17,000) a'r ddinas a'r trefi (poblogaethau o 1,000 i 6,500 yr un). Mae pob lefel o lywodraeth yn cadw cyfran o'i threthi ond mae hefyd yn ariannu'r Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant sy'n gweithredu ledled y swydd.
- 10.32 Yn Ne Tyrol, codir trethi gan fwrdeistrefi, ond caiff refeniw ei wario gan IDM (sef asiantaeth hyrwyddo twristiaeth De Tyrol) a chymdeithasau twristiaeth

lleol, sydd wedi'u ffurfio ar lefel Bwrdeistrefi neu gyfuniadau o Fwrdeistrefi. Mae gan Dde Tyrol boblogaeth o tua hanner miliwn, tra bod y cymdeithasau twristiaeth lleol yn cynrychioli ardaloedd o fewn poblogaethau sy'n amrywio, ar y cyfan, rhwng 3,000 ac 8,000 (er bod eithriadau â phoblogaethau mwy o faint, gan gynnwys tref Bruneck-Brunico).

**Casgliad 5:** Rhoddir ardollau ymwelwyr ar waith ar wahanol raddfeydd daearyddol, gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol fel ei gilydd. Yn yr un modd, dyrennir refeniw ar wahanol raddfeydd daearyddol ac ar wahanol lefelau o lywodraeth.

**Casgliad 6:** Defnyddir amrywiaeth o fecanweithiau i ailddyrannu trethi twristiaeth a refeniw cysylltiedig ar bob lefel o lywodraeth. Mewn rhai achosion, codir trethi yn lleol, gyda rhywfaint o refeniw yn cael ei drosglwyddo i lywodraeth ganolog. Mewn achosion eraill, codir trethi yn ganolog, ac mae rhywfaint o refeniw wedi'i ddatganoli. Mewn achosion eraill, mae sawl lefel o lywodraeth yn rhoi trethi twristiaeth ar waith ar yr un pryd a/neu'n rhannu refeniw.

### **Prosiectau a gweithgareddau**

- 10.33 Ar draws y saith astudiaeth achos a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, ceir amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgareddau a ariennir gan ardollau ymwelwyr. Rhoddir enghraifft o brosiect ym mhob awdurdodaeth yn y blychau ar ddiwedd pob astudiaeth achos. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn ond yn rhoi darlun cyfyngedig o'r amrywiaeth enfawr o brosiectau a gweithgareddau yn gyffredinol.
- 10.34 Ar Ynysoedd Baleares ac yng Ngwlad yr Iâ, sy'n dilyn y model dyfarnu grantiau a ddiffinnir ym mharagraff 10.11, caiff yr holl wariant ei gyfeirio at brosiectau ar wahân â therfyn amser. Yn yr astudiaethau achos eraill, mae mwy o ffocws ar ariannu gweithgareddau sy'n parhau dros amser.
- 10.35 Mae maint y prosiectau a'r gweithgareddau a ariennir yn amrywio'n fawr rhwng yr astudiaethau achos a ystyriwyd. Dim ond yn rhannol y gellir priodoli hyn i faint yr awdurdodaethau a chyffredinrwydd y diwydiant twristiaeth ynddynt.



Mae Swydd Orange yn gymharol fawr (poblogaeth o 1.4 miliwn) ac mae ganddi gyffredinrwydd twristiaeth uchel (24% o gyflogaeth), ond mae hefyd yn canolbwyntio llawer o'r refeniw a gaiff o'r dreth dwristiaeth ar nifer bach o weithgareddau, gyda'r Ganolfan Gynadledda yn cyfrif am dros hanner y refeniw (\$189 miliwn yn y cynllun ar gyfer 2027). Mae gan Ynysoedd Baleares boblogaeth debyg (1.2 miliwn) a chyffredinrwydd twristiaeth tebyg (traean o gyflogaeth) ond mae gwariant yn cael ei ddsbarthu rhwng amrywiaeth ehangach o brosiectau, sy'n golygu bod y gwariant cyfartalog fesul prosiect yn llai na €2 miliwn. Mewn awdurdodaethau llai o faint (e.e. Jackson Hole), a rhai lle mae penderfyniadau gwario wedi'u datganoli'n fwy (e.e. De Tyrol), caiff prosiectau llawer llai o faint eu hariannu.

**Casgliad 7:** Mae maint prosiectau a gweithgareddau a ariennir gan ardollau ymwelwyr yn amrywio'n fawr. Yn yr astudiaethau achos a ystyriwyd, mae hyn yn amrywio o Ganolfan Gynadledda gwerth biliynau o ddoleri yn Swydd Orange i brosiectau adfer llwybrau yng Ngwlad yr Iâ a digwyddiadau diwylliannol ar raddfa fach yn Jackson Hole.

- 10.36 O safbwynt economaidd, ceir sawl cyfiawnhad dros drethu ond, yng nghydestun ardollau ymwelwyr, mae dau brif gyfiawnhad. Y cyntaf yw bod nwyddau cyhoeddus lleol yn bodoli y dylid eu hariannu. Mae lleol yn y cyd-destun hwn yn golygu yn ddaearyddol, ond hefyd o ran diwydiant. Enghraifft dda o hyn yw marchnata cyrchfannau sy'n dod â manteision i bob busnes twristiaeth yn y cyrchfan. Yr ail gyfiawnhad dros ardoll ymwelwyr yw y gall twristiaeth arwain at allanoldebau negyddol i'r gymuned letyol a'r twristiaid eu hunain. Byddai enghreifftiau o'r costau allanol hyn yn cynnwys y gwastraff ychwanegol a gynhrychir gan dwristiaid y mae angen delio ag ef, erydu llwybrau troed a dibrisio seilwaith arall, mwy o dagfeydd ac effaith twristiaeth ar gostau tai.
- 10.37 Yn yr astudiaethau achos a ystyrir yn yr adroddiad hwn, mae'r pwys a roddir ar y gwahanol ffactorau hyn yn amrywio'n fawr. Yn Swydd Orange, ymddengys mai'r prif gyfiawnhad dros y Dreth Datblygu Twristiaeth yw darparu nwyddau cyhoeddus, gyda fawr ddim pwys yn cael ei roi ar liniaru allanoldebau.

Dangosir hyn gan y ffaith bod gwariant yn cael ei ganolbwyntio ar y Ganolfan Gynadledda, stadia chwaraeon, Visit Orlando a gweithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar gynyddu'r gwerth ychwanegol yn y sector twristiaeth. Ym mhen arall y sbectwm, mae'r Dreth Twristiaeth Gynaliadwy ar Ynysoedd Balears yn canolbwyntio ar liniaru allanoldebau twristiaeth. Caiff gwariant ei gyfeirio at brosiectau amgylcheddol a'r rhai sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd y sector twristiaeth a'r cymunedau lletyol.

- 10.38 Mae Tabl 25 yn rhoi asesiad o'r pwysau cymharol a roddir ar ddarparu nwyddau cyhoeddus a lliniaru allanoldebau ym mhob un o'r astudiaethau achos a ystyrir yn yr adroddiad hwn.

**Tabl 25: Y pwyslais ar ddarparu nwyddau cyhoeddus a lliniaru allanoldebau**

	<b>Darparu nwyddau cyhoeddus</b>	<b>Lliniaru allanoldebau</b>
<b>Ynysoedd Balears</b>	Isel iawn	Uchel iawn
<b>catalonia</b>	Uchel	Isel
<b>Gunnison</b>	Cymedrol	Uchel iawn
<b>Gwlad yr Iâ</b>	Uchel	Uchel
<b>Jackson Hole</b>	Cymedrol	Uchel
<b>Swydd Orange</b>	Uchel iawn	Isel iawn
<b>De Tyrol</b>	Uchel	Uchel

**Casgliad 8:** Yn gyffredinol, defnyddir refeniw ardollau ymwelwyr i ariannu nwyddau cyhoeddus sy'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant twristiaeth, megis marchnata cyrchfannau, ac i liniaru'r allanoldebau a achosir gan y diwydiant, megis diogelu'r amgylchedd a gwaith adfer amgylcheddol. Mae'r pwyslais a roddir ar y ddau faes gwariant hyn yn amrywio'n fawr rhwng yr astudiaethau achos a ystyriwyd.

- 10.39 Crynhoir y categorïau o wariant a gyflawnwyd ym mhob un o'r astudiaethau achos yn Nhabl 26.
- 10.40 Ac eithrio Ynysoedd Balears a Gwlad yr Iâ, ym mhob awdurdodaeth arall caiff cyfran o'r refeniw o ardollau ymwelwyr ei neilltuo er mwyn ariannu gweithgarwch marchnata cyrchfannau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys

gweinyddu Cymdeithasau neu Fyrddau Twristiaeth, yn ogystal â gweithredu swyddfeydd twristiaeth ac amrywiaeth o ymgyrchoedd marchnata cyffredinol ac wedi'u targedu.

- 10.41 Mae gweithgareddau marchnata yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodaethau. Mae Swydd Orange yn canolbwyntio ar ddenu mwy o dwristiaid er mwyn cynyddu refeniw ymwelwyr. Fodd bynnag, mae awdurdodau cyllido eraill yn cymryd rhan mewn gweithgareddau marchnata cynaliadwy. Er enghraifft, mae Catalonia yn canolbwyntio ei gweithgareddau marchnata ar ddenu ymwelwyr yn ystod y tymhorau tawel ac i gyrchfannau mewndirol sy'n cael llai o ymwelwyr. Mae Jackson Hole wedi lansio ymgyrch ymweliadau cyfrifol â sloganau megis “Post the photo. Trash the location tag”, “Shift gear. Take the bus”, “Take it all in. Leave it as it is”, a “Take care of what takes your breath way”. Mae Mareo yn canolbwyntio ar weithgareddau marchnata ar gyfer y tymhorau tawel ac yn manteisio ar ardystiad GSTC er mwyn addysgu twristiaid am bwysigrwydd ymddygiad cynaliadwy.
- 10.42 Caiff gwahanol fathau o ddigwyddiadau diwylliannol a digwyddiadau chwaraeon eu hariannu ym mhob awdurdodaeth ac eithrio Gwlad yr Iâ. Mewn rhai achosion, mae'r digwyddiadau hyn yn canolbwyntio ar ddenu twristiaid ond, mewn achosion eraill, y gymuned letyol yw'r prif fuddiolwr bwriadedig.
- 10.43 Caiff agweddau ehangach ar dreftadaeth ddiwylliannol, megis gweithredu amgueddfeydd a chadw henebion hanesyddol, eu hariannu hefyd yn y mwyafrif o'r astudiaethau achos.
- 10.44 Caiff seilwaith twristiaeth ei ariannu ym mhob awdurdodaeth, ar wahân i Gatalonia. Fodd bynnag, mae seilwaith o'r fath yn amrywio'n fawr o ran ei raddfa a'i natur. Yn Swydd Orange, mae'r ffocws ar seilwaith ar raddfa fawr gan gynnwys y Ganolfan Gynadledda ac amrywiaeth o stadia chwaraeon. Yn yr awdurdodaethau eraill, fel mae datblygiadau ar raddfa lawer llai ac maent yn cynnwys adeiladu meysydd parcio, toiledau cyhoeddus a llwybrau cerdded neu feicio; yn ogystal â chynnal a chadw llwybrau, arwyddion a chyfleusterau megis llwybrau beicio mynydd neu sgïo Nordig.

- 10.45 Caiff prosiectau neu weithgareddau amgylcheddol eu hariannu mewn pump o'r astudiaethau achos, yr eithriadau yw Swydd Orange a Gwlad yr Iâ. Fodd bynnag, mae natur y gweithgareddau hyn yn amrywio'n fawr. Caiff y gwaith cyffredinol o gynnal a chadw cyrchfannau, neu "keeping the place beautiful" fel y'i galwyd gan un cyfwelai, ei ariannu ym mhob un o'r pump. Caiff y gwaith o warchod cynefinoedd fflora a ffawna naturiol ei ariannu mewn pedwar. Dim ond ar Ynysoedd Baleares y caiff prosiectau rheoli gwastraff mawr eu hariannu.
- 10.46 Caiff trafndiaeth gyhoeddus, gyda ffocws penodol ar drafnidiaeth gyhoeddus a ddefnyddir gan dwristiaid megis gwasanaethau bws gwennol, ei hariannu yn Swydd Gunnison, Jackson Hole a De Tyrol.
- 10.47 Caiff hyfforddiant i'r gweithlu ei ariannu ar Ynysoedd Baleares ac yng Nghatalonia a De Tyrol; tra bod cyfraniadau ehangach at ddysgu drwy ddysgu gwyddonol ac ariannu prifysgolion eu gwneud ar Ynysoedd Baleares ac yn Swydd Gunnison.
- 10.48 Mae tai cymdeithasol, y bwriedir iddynt liniaru effaith datblygu twristiaeth ar gostau tai, eu hariannu ar Ynysoedd Baleares ac yn Swydd Gunnison.
- 10.49 Nodwn yr amrywiaeth enfawr yng nghyd-destunau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr astudiaethau achos a ystyrir yn yr adroddiad hwn. Mae'r cyd-destunau hyn yn hanfodol i esbonio'r amrywiaeth o ran blaenoriaethau gwario a nodwyd gennym. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol a natur y cyrff cyllido/gwario hefyd wedi dylanwadu ar flaenoriaethau gwario.

**Casgliad 9:** Caiff amrywiaeth eang o wariant ei ariannu gan refeniw ardollau ymwelwyr. Caiff gweithgarwch marchnata cyrchfannau, digwyddiadau, seilwaith twristiaeth a mentrau amgylcheddol eu hariannu yn y mwyafrif helaeth o'r astudiaethau achos a ystyriwyd. Caiff trafndiaeth gyhoeddus, tai cymdeithasol, hyfforddiant i'r gweithlu ac ymchwil wyddonol eu hariannu hefyd mewn mwy nag un cyrchfan.

- 10.50 Yn achos Swydd Orange, mae Statudau Fflorida yn nodi'r amrywiaeth o gategoriâu o wariant y gellir ei gyflawni yn gul iawn. Caniateir ariannu

canolfannau cynadledda, stadia/arenâu chwaraeon a pharciau sŵolegol a hyrwyddo twristiaeth ond ni chaniateir ariannu llawer o'r gweithgareddau eraill a restrir yn Nhabl 26. I'r graddau y mae disgresiwn ar gael i'r Swydd, rhaid nodi blaenoriaethau gwario mewn Cynllun Datblygu Twristiaeth.

- 10.51 Ym mhen arall y sbectrwm, yn Ne Tyrol a Chatalonia, nid yw'r gyfraith yn nodi'r mathau o wariant a all gael ei ariannu gan drethi twristiaeth yr awdurdodaethau hynny. Rhoddir disgresiwn llawn dros flaenoriaethau gwario i'r Asiantaethau Twristiaeth sy'n cael y refeniw.
- 10.52 Yn Gunnison a Jackson Hole, mae cyfreithiau Taleithiol Colorado a Wyoming yn eithaf rhagnodol o ran categorïau o wariant. Fodd bynnag, yn y ddau achos, mae eithriadau sylweddol wedi'u negodi (a'u rhoi ar waith drwy ddiwygiadau i'r gyfraith) ar gyfer ardaloedd sy'n cael llawer o dwristiaid. Yn achos Gunnison, mae gwariant ar dai cymdeithasol yn bosibl o ganlyniad i eithriad. Yn achos Jackson Hole, mae'r refeniw o'r dreth a gyfeirir at lywodraeth y Swydd a llywodraeth y Dref ar gyfer gwariant dewisol yn deillio o eithriad.
- 10.53 Ar Ynysoedd Baleares, mae'r gyfraith yn nodi amcanion cyffredinol y gyfundrefn dreth o ran hyrwyddo sector twristiaeth cynaliadwy. Mae'r cyfrifoldeb am roi hyn ar waith wedi'i ddirprwyo i'r Comisiwn i Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy, y mae'n ofynnol iddo lunio Cynllun Blynnyddol ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy, sy'n amlinellu meysydd â blaenoriaeth i'w cefnogi.
- 10.54 Yng Ngwlad yr Iâ, mae'r Gronfa Diogelu Safleoedd Twristiaid wedi'i sefydlu mewn cyfraith er mwyn hyrwyddo datblygu, cynnal a chadw a diogelu atyniadau a llwybrau i dwristiaid. Yn ymarferol, dehonglwyd hyn yn gul gan Weinidogion fel nad yw prosiectau sy'n ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd, er enghraifft, yn cael eu hariannu oni bai mai'r 'amgylchedd' yw'r atyniad i dwristiaid.

**Casgliad 10:** Mewn rhai awdurdodaethau, mae'r gyfraith yn rhagnodol iawn o ran y mathau o wariant a all gael eu hariannu gan ardollau ymwelwyr. Mewn awdurdodaethau eraill, mae'r prosesau a ddefnyddir i bennu blaenoriaethau gwario

wedi'u nodi'n glir. A cheir rhai awdurdodaethau lle mae gan gyrff dynodedig lawer mwy o ddisgresiwn mewn perthynas â gwariant.

### **Gwerthuso'r effaith**

- 10.55 Prin iawn yw'r gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer gwerthuso effaith gwariant ym mhob un o'r astudiaethau achos a ystyriwyd.
- 10.56 Lle y caiff arian ei ddyrannu drwy brosesau dyfarnu grantiau, mae gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n briodol. Er enghraifft, ar Ynysoedd Baleares, mae'n ofynnol i ddeiliaid grant gyflwyno adroddiadau cynnydd bob chwarter, sy'n nodi'r gweithgareddau a gynhaliwyd a'r costau yr aed iddynt. Yng Ngwlad yr Iâ, fel arfer mae'n ofynnol i ddeiliaid grant lunio adroddiad ag anfonebau hanner ffordd drwy'r prosiect ac unwaith eto ar ôl iddo gael ei gwblhau.
- 10.57 Rhoddir mathau tebyg o weithdrefnau ar waith yn Swydd Orange mewn perthynas ag archwilio gwariant sefydliadau a ariennir. Mae tystiolaeth bod sefydliadau a ariennir yn darparu tystiolaeth o effaith cylchoedd blaenorol o wariant wrth gyflwyno'r achos dros fuddsoddiadau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae achos y Ganolfan Gynadledda dros gyllido Cam 5 yn gwneud yn fawr o effaith economaidd amcangyfrifedig y Ganolfan.
- 10.58 Yng Nghatalonia a De Tyrol, mae gwariant sefydliadau a ariennir yn destun craffu gan eu cyrff llywodraethu eu hunain. Yn achos Catalonia, mae'r rhain yn cynnwys y gweithdrefnau arferol sydd ar waith ar gyfer cyrff trefol. Yn achos De Tyrol, nid yw'r Cymdeithasau Twristiaeth a ariennir yn gyrrff cyhoeddus. Fodd bynnag, yn achos y Cwmni Twristiaeth Cydweithredol ym Mareo, daw'r aelodau o bob rhan o'r gymuned ac mae'r broses ethol i'r corff llywodraethu yn seiliedig ar un aelod un bleidlais, sy'n sicrhau craffu lled-ddemocratiaeth.
- 10.59 Yn Gunnison, caiff y defnydd o arian gan y Bartneriaeth Twristiaeth a Ffyniant ei oruchwylio gan dri chomisiynydd y swydd, a gaiff eu hethol drwy bleidlais gyhoeddus a bwrdd cyfarwyddwyr TAPP.

10.60 Mae Bwrdd Teithio a Thwristiaeth Jackson Hole yn gweithredu o dan oruchwyliaeth bwrdd â saith aelod, sy'n cynnwys cynrychiolwyr a benodir gan lywodraeth y Dref a llywodraeth y Swydd. Mae JHTTB yn ariannu grantiau i grwpiau cymunedol er mwyn iddynt drefnu digwyddiadau. Mae meini prawf clir wedi'u nodi ar gyfer y broses hon ac maent yn nodi'n benodol fod cyllid mewn blynyddoedd i ddod yn amodol ar werthuso'r digwyddiad mewn blynyddoedd blaenorol yn erbyn y meini prawf hyn.

**Casgliad 11:** Yn y rhan fwyaf o awdurdodaethau, ceir gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer archwilio'r ffordd y caiff refeniw ardollau ymwelwyr ei wario. Fodd bynnag, fel arfer mae gweithdrefnau wedi'u cyfyngu i wariant. Yn ymarferol, prin yw'r asesiadau o effaith prosiectau a gweithgareddau a ariennir ar ôl i'r cyllid gael ei wario. Yr eithriad i hyn yw pan fydd prosiectau neu sefydliadau a ariannwyd yn flaenorol yn cyflwyno'r achos dros gylchoedd pellach o gyllid, pan gyfeirir yn aml at asesiadau effaith o gylchoedd blaenorol.

**Tabl 26: Prosiectau a gweithgareddau a ariennir yn ôl math**

<b>Astudiaeth Achos</b>	<b>Marchnata twristiaeth yn avffredinol</b>	<b>Seilwaith twristiaeth ar raddfa fawr</b>	<b>Seilwaith twristiaeth ar raddfa fach</b>	<b>“ Keeping the place beautiful”</b>	<b>Rheoli gwastraff</b>	<b>Cynefinoedd naturiol</b>	<b>Digwyddiadau diwylliannol</b>	<b>Trefnadaeth ddiwylliannol</b>	<b>Digwyddiadau chwaraeon</b>	<b>Trafnidiaeth gyhoeddus</b>	<b>Tai cymdeithasol</b>	<b>Hyfforddiant a chyflogaeth</b>	<b>Ymchwil Wyddonol</b>	<b>Ardystio cynaliadwyedd</b>
Ynysoedd Balears	x	x	✓	✓	✓	✓	✓	✓	x	x	✓	✓	✓	x
Catalonia	✓	x	x	✓	x	x	✓	x	✓	x	x	✓	x	x
Gunnison	✓	x	✓	✓	x	✓	✓	x	✓	✓	✓	x	✓	x
Gwlad yr Iâ	x	x	✓	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x
Jackson Hole	✓	x	✓	✓	x	✓	✓	✓	✓	✓	x	x	x	x
Swydd Orange	✓	✓	x	x	x	x	✓	✓	✓	x	x	x	x	x
De Tyrol	✓	x	✓	✓	x	✓	✓	✓	✓	✓	x	✓	x	✓

**Nodiadau:** Mae marchnata twristiaeth yn gyffredinol yn cynnwys gweithrediadau Swyddfeydd Twristiaeth o ddydd i ddydd yn ogystal ag amrywiaeth o ymgyrchoedd marchnata.

Mae seilwaith twristiaeth ar raddfa fawr yn cynnwys adeiladu canolfannau cynadledda a stadia chwaraeon.

Mae seilwaith twristiaeth ar raddfa fach yn cynnwys adeiladu meysydd parcio, llwybrau, arwyddion ac adeiladau bach megis llochesau pren.

Aralleiriad a ddefnyddiwyd gan gyfwelai i gwmpasu gweithgareddau ar raddfa fach i wella'r amgylchedd, megis glanhau strydoedd, yw "Keeping the place beautiful".

Mae cynefinoedd naturiol yn cynnwys gwarchod fflora a ffawna.

Fel arfer, mae hyfforddiant a chyflogaeth yn cyfeirio at uwchsgilio gweithwyr yn y diwydiant twristiaeth.



## **11. Argymhellion**

- 11.1 Mae'r argymhellion a nodir yn yr adran hon wedi deillio o'r broses o wneud ein hymchwil. Maent yn codi o'r sail dystiolaeth eang rydym wedi ymgysylltu â hi, yn y llenyddiaeth ac yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd gennym. Felly, mae cysylltiad clir rhwng ein hargymhellion a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adran flaenorol.
- 11.2 Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod ein hargymhellion yn cyd-fynd â gwaith blaenorol a wnaed gan Group NAO (2020). Er hwylustod, rydym yn rhestru ei argymhellion yn Atodiad C ac yn mapio ein hargymhellion ni yn erbyn argymhellion y grŵp.

### **Neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr**

- 11.3 Mae neilltuo refeniw ardollau ymwelwyr yn arfer cyffredin, yn yr astudiaethau achos a ystyriwyd ac yn y sampl ehangach o gyd-destunau a nodir yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.
- 11.4 Fel arfer, cyfiawnheir ardollau ymwelwyr ar un neu ddwy sail. Y gyntaf yw er mwyn talu am nwyddau cyhoeddus lleol sy'n ymwneud yn benodol â'r sector twristiaeth, megis seilwaith twristiaeth neu farchnata cyrchfannau. Yr ail yw er mwyn talu am y gwaith o liniaru costau allanol sy'n gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth. Mae'r ddwy sail hyn dros gyfiawnhau ardollau ymwelwyr wrth wraidd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ardollau ymwelwyr yng Nghymru. Yn y naill achos a'r llall, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng refeniw a godir a gofynion gwario, sy'n cyfiawnhau neilltu refeniw.
- 11.5 Cyfran fach iawn o gyfanswm y derbyniadau treth yw ardollau ymwelwyr. Felly, mae'r dadleuon arferol o blaid neilltuo (gweler, er enghraifft, Wilkinson 1994 neu Bös 2000) yn llai grymus o dan yr amgylchiadau hyn.
- 11.6 Gall neilltuo wella tryloywder ac atebolrwydd (Wilkinson 1994), a all sicrhau mwy o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd i drethi penodol. Gwelsom dystiolaeth o hyn ym mhob un o'r astudiaethau achos a ystyriwyd.

**Argymhelliad 1:** Dylid neilltuo refeniw ardoll ymwelwyr er mwyn buddsoddi mewn nwyddau cyhoeddus sy'n ymwneud yn benodol â thwristiaeth, megis seilwaith twristiaeth a marchnata cyrchfannau, ac ariannu'r gwaith o liniaru costau allanol sy'n ymwneud â thwristiaeth.

### **Sefydliadau cyllido a gwario**

- 11.7 Rydym wedi nodi tri mecanwaith a ddefnyddir i ddsbarthu refeniw ymwelwyr. Gall arian gael ei ddyrannu drwy brosesau dyfarnu grantiau, ei ddyrannu i gyrff â chylch gwaith diffiniedig neu ei wario'n uniongyrchol gan y llywodraeth.
- 11.8 Mae amrywiaeth o sefydliadau yn ymwneud â dyrannu refeniw ardollau ymwelwyr yn yr astudiaethau achos a ystyrir yn yr adroddiad hwn. Maent yn cynnwys gwahanol lefelau o lywodraeth, asiantaethau llywodraethol, cyrff statudol, grwpiau cynghori, cymdeithasau, cwmnïau cydweithredol a mentrau ar y cyd.
- 11.9 Dim ond mewn ardaloedd lle mae twristiaeth yn cyfrif am gyfrannau mawr iawn o weithgarwch economaidd y mae gwariant uniongyrchol gan y llywodraeth yn gyffredin. Mae hyn yn anghyffredin yng Nghymru. Mae'n anodd cysoni gwariant uniongyrchol â neilltuo refeniw. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn argymhell y dull hwn o weithredu.
- 11.10 Mae i fodolau dyfarnu grantiau, fel y'u defnyddir ar Ynysoedd Baleares ac yng Ngwlad yr Iâ, fanteision o ran tryloywder ac atebolrwydd, ond maent yn tueddu i fod wedi'u canoli ac yn gyfyngedig o ran hyblygrwydd.
